# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
## Adroddiad Blynyddol 2021/22

ONE SWANSEA UN ABERTAWE












GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Cyngor Abertawe
Swansea Council

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# Cynnwys


Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe Tudalen 2

Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Lleol Tudalen 3

Y Ffordd Rydym yn Gweithio - Llywodraethu Tudalen 5

Llesiant Lleol Abertawe Tudalen 11

Cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant lleol Tudalen 17

- Blynyddoedd Cynnar Tudalen 17
- Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda Tudalen 31
- Gweithio gyda Natur Tudalen 52
- Cymunedau Cryf Tudalen 75

Ein Camau Nesaf Tudalen 89

Sut allwch chi gymryd rhan? Tudalen 90

# Neges gan BGC Abertawe

Mae 4 blynedd wedi mynd heibio ers i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe gyhoeddi ein Cynllun Llesiant Lleol cyntaf ym mis Mai 2018.

Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at yr 'Abertawe a garem' ac ystyried sut rydym wedi rhoi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith a sut y gallem weithio'n well i gyflawni llesiant yn y dyfodol.

Roedd ein blwyddyn gyntaf o weithredu'n canolbwyntio ar ymchwil i ddeall heriau a chyfleoedd Abertawe, gyda'r ail flwyddyn yn canolbwyntio ar gynllunio a blaenoriaethu meysydd lle gallem wneud y gwahaniaeth mwyaf. Y llynedd, canolbwyntiodd yr adroddiad ar gynnydd a chyflenwi, ac eleni, mae 2021/22 wedi cynnwys cynnal asesiad llesiant lleol yn barod ar gyfer meddwl am gynllunio i baratoi'r cynllun llesiant a gosod amcanion

Er ein bod wedi cyflawni llawer yn ein 4 blynedd o gyflenwi, nid yw BGC Abertawe yn hunanfodlon a bydd yn parhau i arloesi a chwilio am ffyrdd newydd o wella llesiant Abertawe heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Treulir y flwyddyn nesaf yn cynllunio i fynd i'r afael â'r hyn a ddywedodd ein hasesiad llesiant wrthym am lesiant yn Abertawe gyda golwg ar adolygu a gosod ein Hamcanion Llesiant a'r camau i'w cyflawni dros y 4 blynedd nesaf. Bydd hon yn ymdrech gan bartneriaeth a byddwn yn gwrando ar bobl leol ac yn ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses hon. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei nodi yn ein Cynllun Llesiant newydd lle byddwn yn parhau â'n hymdrechion i wella llesiant holl bobl Abertawe heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



**Cyng. Andrea Lewis**

**Cadeirydd BGC**



**Roger Thomas**

**Is-gadeirydd**

# Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Lleol

**BGC Abertawe - Y stori hyd yn hyn**

Creodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y gallai sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni Nodau Llesiant Cymru.

Yn 2016, dechreuodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sgwrs am lesiant yn Abertawe. Cynhaliwyd asesiad o lesiant lleol er mwyn deall yr hyn sydd o'r pwys pennaf i gymunedau. Dywedodd yr Asesiad wrthym fod Abertawe yn lle gwych i fyw am nifer o resymau, ond bod angen i ni weithio'n galetach gyda'n gilydd i sicrhau y gall pawb fyw'n dda, elwa a bod yn falch o Abertawe.

Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Asesiad a thrwy wrando ar bobl, datblygodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe Gynllun Llesiant Lleol yn 2018. Roedd hwn yn nodi'n pedwar Amcan Llesiant a chamau gweithredu trawsbynciol.

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'n hamcanion yn 21/22, amlygu'r meysydd gwaith sydd wedi digwydd ers gweithredu'r Cynllun Llesiant, y gwersi a ddysgwyd, ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i wneud i hyn ddigwydd.

**Ein Gweledigaeth**

Yn Abertawe, rydym yn credu yn hawliau pob person. Ein gweledigaeth yw gweithio gyda'n gilydd i wneud Abertawe yn lle sy'n ffyniannus, lle gwerthfawrogir a chynhelir ein hamgylchedd naturiol a lle gall pob person gael y dechrau gorau mewn bywyd, cael swydd dda, byw'n dda, heneiddio'n dda a chael pob cyfle i fod yn iach, yn hapus, yn ddiogel a'r gorau y gall fod.

Er mwyn cyflawni'n gweledigaeth, rydym wedi blaenoriaethu pedwar Amcan Llesiant Lleol. Gobeithiwn, drwy ganolbwyntio'n hymdrechion ar y cyd, y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf drwy weithio gyda'n gilydd.

**Ein hamcanion Llesiant Lleol ar gyfer 2040**

Mae ein pedwar maes gwaith tymor hir allweddol yn cael eu blaenoriaethu isod




**Blynyddoedd Cynnar** – I sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn bod y gorau y gallant fod.

**Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda –** I wneud Abertawe yn lle gwych i fyw a heneiddio'n dda ynddo.

**Gweithio gyda Natur** - I wella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hôl troed carbon.

**Cymunedau Cryf** - I adeiladu cymunedau cryfach a chanddynt ymdeimlad o falchder a pherthyn.

Yn ogystal, mae ein camau trawsbynciol ar gyfer newid yn sail i bob un o'r amcanion llesiant lleol.

**Rhannu ar gyfer Abertawe** - Gweithio tuag at wasanaethau cyhoeddus integredig yn Abertawe drwy rannu adnoddau, asedau ac arbenigedd, er mwyn datblygu iaith gyffredin a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

Mae hyn yn cael ei ddatblygu trwy Arweinwyr Amcan yn gweithio gyda'i gilydd i nodi lle gellir rhannu adnoddau, asedau ac arbenigedd fel rhan o ddatblygiad yr Amcanion. Er enghraifft, ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Critigol (GDC) ar gyfer y Stryd Fawr, cymerodd asiantaethau ran arweiniol yn eu meysydd gwybodaeth penodol ac mae'r bartneriaeth wedi ehangu y tu hwnt i'r partneriaid statudol i gefnogi a chynorthwyo o ran asedau, adnoddau ac arbenigedd. Er enghraifft, mae'r heddlu'n arwain ar

gyfathrebu yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddoldeb. Mae Barod a Chymorth i Fenywod yn defnyddio dull amlasiantaeth at fynd i'r afael â Thrais a chamddefnyddio sylweddau.

Mae canolfannau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu datblygu i gydleoli a chydgynhyrchu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch mewn un lle, yn ogystal â datblygu iaith gyffredin a sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif ac yn ymdrin ag amryfal ymholiadau mewn un man ar y pwynt cyswllt cyntaf.

# Y Ffordd Rydym yn Gweithio - Llywodraethu

**Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**

Mae BGC Abertawe yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn neu'r camau rydym yn eu cymryd yn ystyried pum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy



**Tymor hir:** Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



**Ataliaeth:** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion



**Integreiddio:** Ystyried sut gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob nod llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



**Cydweithio:** Gweithredu drwy gydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) mewn modd a allai helpu'r corff gyflawni ei amcanion llesiant.



**Cyfranogaeth:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

***Y Nodau Llesiant Cenedlaethol***

Ein nod yw sicrhau bod ein camau gweithredu’n rhoi cymaint o werth â phosib drwy sicrhau ein bod yn chwilio am amryfal ganlyniadau ym mhob peth a wnawn. Drwy sicrhau ein bod yn meddwl am bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol isod, rydym yn mwyafu’n cyfraniad at y Gymru a Garem

| Nod | Disgrifiad o'r Nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a grëir drwy sicrhau swyddi da. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiedig da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

**Ein Hymrwymiadau**

Yn ogystal, mae holl Bartneriaid BGC Abertawe wedi ymrwymo i gyfres o ymrwymiadau. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u nodi isod ac maent yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyfreithiol y gwahanol sefydliadau a chânt eu hadolygu gan ystyried cyngor Comisiynwyr Cymru.

**Statws Dinas Iach**
Mae Abertawe yn rhan o'r rhwydwaith Dinasoedd Iach sy'n hybu iechyd da ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yn ein cymunedau.

**Hawliau Plant a Phobl Ifanc (CCUHP)**
Mae’r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn Abertawe, a chynhwyswyd Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn y ffordd rydym yn pennu'n polisïau.

**Rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi ymuno â'r rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf, sy'n cynorthwyo teuluoedd yn ystod beichiogrwydd a dwy flynedd gyntaf bywyd.

**Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar – Braenaru**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio systemau'r blynyddoedd cynnar i gefnogi teuluoedd yn well er mwyn helpu pob teulu i fwynhau bywyd iach a hapus: i dyfu ac i ffynnu

**Dinasoedd a Chymunedau Croesawgar i Bobl Hŷn**

Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r egwyddorion a'r camau gweithredu a nodir yn natganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn yn Ewrop.

**Arfer Da wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd**
Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a bydd yn ymdrechu i'w dilyn yn yr holl weithgarwch cynnwys ac ymgynghori. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i gynnwys pawb sydd â diddordeb mewn gwella llesiant lleol wrth ddatblygu'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant a bydd yn ymdrechu i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth wneud hynny.

**Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**
Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i egwyddorion y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog a meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r materion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog.

**Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**
Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe 2005..

**Un Sector Cyhoeddus**
Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i ddiwylliant sy'n croesi ffiniau sefydliadol a sectorau, lle mae pawb sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n rhan o'r ymdrech cyffredin hwn, gan rannu gwerthoedd cyffredin a gweithio gyda'i gilydd er lles pobl Cymru.

**Abertawe fel Dinas Hawliau Dynol**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn cefnogi datblygu dull Dinas Hawliau Dynol yn Abertawe.

Mae Cyngor Abertawe mewn partneriaeth â BGC Abertawe yn gweithio tuag at ddatgan Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol ym mis Rhagfyr 2022. Ein nod yw creu dinas lle mae pawb yn gyfartal, i rymuso pobl i ddeall eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill. Rydym am sicrhau bod pawb, yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion ac sy'n agored i niwed yn gymdeithasol, yn gallu cymryd rhan lawn yn y prosesau gwneud penderfyniadau, datblygu polisi a gweithredu sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn creu dinas decach, fywiog, amrywiol a mwy diogel i bawb. Sefydlwyd grŵp llywio ym mis Medi 2021 yn cynnwys cynrychiolydd o bob sefydliad BGC i yrru'r uchelgais hwn yn ei flaen, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Louise Gibbard.

Ar 10 Rhagfyr 2021, sef Diwrnod Hawliau Dynol, datganodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn gyhoeddus eu bwriad i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol. Gwnaethant ymrwymiad i;

- Gynnwys ein cymunedau a'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu i wireddu eu hawliau dynol.
- Adeiladu ar waith sydd eisoes yn digwydd ar draws y ddinas, yn cael ei lywio gan ymrwymiad i hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.
- Gwneud hawliau dynol yn sylfaen i'n gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Cydnabod hawliau dynol fel rhywbeth sylfaenol i'n polisïau a'n gweithredoedd yn unigol neu ar y cyd.

Cafwyd ymgysylltu helaeth ar draws Abertawe i rannu'r uchelgais ac i ennill cefnogaeth. Rydym wedi siarad â grwpiau cymunedol, wedi sefydlu rhwydweithiau a fforymau, plant a phobl ifanc mewn ysgolion, arweinwyr elusennau a busnes ledled y ddinas a'r sir i rannu'r nod o ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac i ddeall yr hyn sy'n bwysig i drigolion Abertawe. Ym mis Hydref, lansiwyd arolwg gennym i ddysgu am yr hyn y mae trigolion Abertawe ac ymwelwyr â'r ddinas yn ei feddwl y dylai'r blaenoriaethau fod wrth ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac i gasglu ymwybyddiaeth sylfaenol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth Hawliau Dynol yn y Ddinas.

Cynhaliwyd digwyddiad Fforwm Partneriaeth BGC ym mis Tachwedd 2021 gyda'r ffocws ar Ddinas Hawliau Dynol. Cymerwyd ran gan dros 60 o gynrychiolwyr o sefydliadau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n gweithredu ar draws Abertawe, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau o fewn Cyngor Abertawe. Fe wnaethom hwyluso trafodaethau agored yn ymwneud â’r blaenoriaethau a ddaeth i’r amlwg o’r arolwg ar sut y gall pob sefydliad gydweithio i wireddu’r nod o ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac archwilio’r heriau o ran Hawliau Dynol.

Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu, i'w gychwyn ar ôl datgan statws Dinas Hawliau Dynol, lle byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ddeilliodd o'r gwaith ymgysylltu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pa raglenni, mentrau a pholisïau sydd eisoes yn bodoli ym mhob sefydliad BGC ar draws Abertawe mewn perthynas â phob blaenoriaeth. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir.

Yn y cyfamser, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol. Bydd Uwch Reolwyr yn holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phenaethiaid Gwasanaeth o fewn yr Awdurdod Lleol yn ymgymryd â hyfforddiant Hawliau Dynol a ddarperir gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain ym mis Medi 2022, i alluogi sefydliadau a gwasanaethau i ddefnyddio dull seiliedig ar Hawliau Dynol wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n rhoi'r unigolyn yn y canol. Rydym hefyd yn datblygu canllaw ‘Hawliau yn Eich Poced’. Mae’r canllaw poced hwn yn manylu ar yr hawliau sydd gan drigolion o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a’r hyn y mae’n ei olygu iddyn nhw yn eu bywydau bob dydd, a pham eu bod yn bwysig. Bydd y canllaw hwn yn cael ei ddosbarthu i’r cyhoedd, trwy lyfrgelloedd, neuaddau cymunedol, a gweithleoedd a bydd yn cael ei anfon at arweinwyr cymunedol a rhwydweithiau a fforymau sefydledig ar draws y ddinas i’w ddosbarthu trwy eu rhwydweithiau eu hunain.

## Sut rydym yn gweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cydnabuwyd cyfyngiadau strwythur llywodraethu blaenorol y BGC, a chynhaliwyd Adolygiad Llywodraethu i fynd i'r afael â hyn. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoddwyd strwythur llywodraethu newydd ar waith. Mae'r trefniadau Llywodraethu newydd yn cynnwys ffyrdd cynaliadwy o weithio ac yn rhoi cyflenwi'r Amcanion Llesiant wrth wraidd yr hyn y mae'r BGC yn ceisio’i wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Egwyddor allweddol yr adolygiad oedd bod gwaith y BGC yn rhan greiddiol yn hytrach nag ychwanegiad at waith presennol ei aelodau. Dylai staff sefydliadau ar bob lefel ystyried blaenoriaethau'r BGC fel gwaith beunyddiol ac nid fel cyfrifoldeb ychwanegol, er bod bob amser her wrth geisio rheoli adnoddau cyfyngedig.

Cynigiodd aelodau statudol y BGC ynghyd â'r Grŵp Craidd ehangach bod y BGC yn elwa o broses lywodraethu symlach, gyda ffocws newydd ar amcanion cyflenwi fel sbardun i’r BGC. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i’r BGC ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth drwy symud y pwyslais i'r Grwpiau Cyflenwi Amcanion. Gall ymgysylltu fod yn fwy ystyrlon a chynnwys ystod ehangach o bartneriaid drwy greu Fforwm Partneriaeth. Ffurfiwyd grwpiau gorchwyl a gorffen mewn ymateb i'r angen ac maent yn manteisio ar sgiliau ac arbenigedd sefydliadau'r Fforwm Partneriaeth.

Hwylusir y broses o lywodraethu penderfyniadau ar lefel strategol drwy gydbwyllgor sy'n cynnwys aelodau statudol y BGC a chyfranogwyr gwadd. Bydd y grŵp hwn hefyd yn darparu eiriolaeth a chymorth ar lefel strategol ar gyfer materion a godir gan bartneriaid y BGC drwy'r Grwpiau Cyflenwi Amcanion, pob un ohonynt yn cael eu cydgysylltu a'u hwyluso gan aelod statudol. Cynhelir cyfarfodydd cydbwyllgor y BGC bob deufis a chynhelir y Fforymau Partneriaeth bob 6 mis.

Fodd bynnag, mae'n anffodus ein bod wedi methu â chynnal ein Fforymau Partneriaeth mor aml ag y byddem wedi dymuno oherwydd COVID-19; ond fe wnaethom gynnal Digwyddiad Partneriaeth rhithwir ym mis Tachwedd 2021 ac rydym ar gam cynllunio digwyddiad Partneriaeth arall sydd i'w gynnal dros y misoedd nesaf.




Er bod BGC Abertawe wedi mynd ati'n fwriadol i geisio gwella sut rydym yn cynnwys "rhanddeiliaid arferol", mae lle o hyd i gynnwys cynulleidfa ehangach o randdeiliaid a chyfleoedd i gynnwys y cyhoedd yn fwy rheolaidd wrth symud ymlaen.

Mae Gweithio Rhanbarthol yn digwydd trwy gyfarfodydd ar y cyd rhwng BGCau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

# Llesiant Lleol Abertawe

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf yn Abertawe a thueddiadau lleol diweddar mewn cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) a mesurau eraill, gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad isod yn ymwneud â chyfnodau amser gwahanol, cyn y pandemig COVID-19 (o fis Mawrth 2020) ac wedi hynny - canlyniad anochel y prosesau a'r systemau ar gyfer arolygon a chasglu data ystadegol. Amlygir yr un mesurau Dangosyddion Cenedlaethol a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol yn y dadansoddiad isod:

- **Y bwlch disgwyliad oes iach** rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Abertawe (2010-14) oedd 21.9 mlynedd ar gyfer dynion (Cymru 18.7), a 16.3 o flynyddoedd ar gyfer menywod (Cymru 18.2). Ers 2005-09, mae'r bylchau wedi lleihau ychydig ar gyfer dynion yn Abertawe (o 22.4 o flynyddoedd), ond maent wedi cynyddu ar gyfer menywod (o 15.0). Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau diweddar i ddata 2010-14 ar lefel leol. *(Dangosydd Cenedlaethol 2)*

- Roedd 10.8% o oedolion yn Abertawe wedi adrodd am lai na dau (o'r pump) o'r **ymddygiadau ffordd iach o fyw** (Cymru 10.0%) (Data Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-20). Ar hyn o bryd, mae Abertawe yn waeth na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysmygu ac yfed (yn uwch na'r canllawiau), ond yn well na chyfartaledd Cymru o ran pwysau iach. Mae mesurau bwyta ffrwythau a llysiau a gweithgarwch corfforol yn gyfartal ar gyfer Abertawe a Chymru. Nid yw'r data Arolwg Cenedlaethol Cymru hwn wedi'i ddiweddaru (ar lefel BGC/ALl) ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf. Fodd bynnag, mae data 2020-21 ar lefel ardal Bwrdd Iechyd yn dangos bod gan 7.0% o oedolion ym Mae Abertawe lai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (Cymru 7.4%) *(DC 3)*

- Mae **ansawdd aer** yn Abertawe, fel y'i mesurir gan lefelau cyfartalog blynyddol llygredd nitrogen deuocsid (NO2), wedi parhau i wella; gan ostwng o 13.1 µg/m3 yn 2009 i 9.9 yn 2019 (data wedi'i fodelu – llygryddion fesul metr ciwbig o aer). Fodd bynnag, mae crynodiadau NO2 ar gyfartaledd yng Nghymru yn is (9.2 µg/m3 yn 2019). Nid oes unrhyw ddiweddariadau i'r set ddata genedlaethol hon ers yr Adroddiad Blynyddol blaenorol. *(DC 4)*

- Yn 2019-20, amcangyfrifir bod 14.1% o bobl 16+ oed sy'n byw mewn aelwydydd yn Abertawe yn byw mewn **amddifadedd materol** (hynny yw, yn methu â fforddio nwyddau a gweithgareddau penodol sy'n nodweddiadol mewn cymdeithas ar adeg benodol); mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (12.9%) ond mae wedi gostwng o 20.6% yn 2017-18. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar arolygon (cenedlaethol), felly dylid bod yn ofalus wrth ystyried newidiadau tymor byr ar lefel leol. Ni chyhoeddwyd data cyfatebol ar gyfer 2020-21 oherwydd y pandemig, ac effeithiwyd ar nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r mesur hwn gan gyfyngiadau cyfreithiol a gyflwynwyd mewn ymateb i COVID-19 – sy'n golygu nad yw amcangyfrifon o amddifadedd materol yn gymaradwy â blynyddoedd blaenorol *(DC 19)*

- Roedd 82.0% o oedolion yn Abertawe yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi yn 2019-20 (Cymru 82.1%), gan ostwng o 85.2% yn 2017-18. Gofynnir i ymatebwyr cyflogedig raddio eu **boddhad mewn swydd** ar raddfa o 0 i 10, ac mae hyn yn cynnwys y rheini a atebodd 6 neu'n uwch. Nid yw'r data hwn o Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi'i ddiweddaru ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf. *(DC 20)*

- Yn 2020-21, roedd 54% o oedolion yn Abertawe yn **teimlo'n ddiogel** (Cymru 68%). Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo ar ôl iddi dywyllu yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio (ar raddfa pum pwynt). Cafodd y rhai a ymatebodd eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' neu'n 'weddol ddiogel' i'r tri chwestiwn eu codio gan yr Arolwg Cenedlaethol fel eu bod yn 'teimlo'n ddiogel'. Mae ffigur Abertawe wedi gostwng yn sylweddol ers i'r cwestiwn gael ei ofyn ddiwethaf yn yr arolwg (2018-19: 76%), er bod cyfyngau hyder o 95% yn 2020-21 yn amrywio o tua 44% i 63%. *(DC 25)*

- Yn Arolwg Cenedlaethol 2020-21, roedd 62% o bobl 16+ oed yn Abertawe yn cytuno â phob un o'r tri datganiad sy'n ymwneud â **chydlyniant cymunedol** (Cymru 69%): pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; pobl o wahanol ddiwylliannau'n cyd-dynnu'n dda; pobl yn trin ei gilydd â pharch. Roedd ffigurau Abertawe ar gyfer y datganiadau unigol yn 77%, 81% ac 81% yn y drefn honno, gyda ffigur Abertawe ar gyfer yr ymdeimlad o 'berthyn' y mwyaf islaw cyfartaledd Cymru (83%). *(DC 27)*

- Roedd 28.5% o bobl 16+ oed yn Abertawe yn **gwirfoddoli** yn 2019-20 (ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 26.1%). Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu’r bobl a ddywedodd eu bod ar hyn o bryd (ar adeg yr arolwg) yn rhoi eu hamser am ddim (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) i helpu rhestr o glybiau neu sefydliadau. Yn yr un modd â nifer o Ddangosyddion Arolwg Cenedlaethol eraill a gynhwysir yma (ar gyfer 2019-20), mae'r ffigur hwn cyn y pandemig coronafeirws. Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2021-22 yn awgrymu bod 29% o oedolion yn gwirfoddoli yng Nghymru; fodd bynnag, nid yw data lleol ar y pwnc hwn wedi'i ddiweddaru ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf *(DC 28)*

- Mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cyfres o chwe chwestiwn i asesu lefelau **unigrwydd**, sy’n cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld. Yn seiliedig ar y rhain, canfuwyd bod 14.2% o bobl 16+ oed yn Abertawe (12.5% yng Nghymru) yn unig yn 2020-21; ychydig yn is nag yn 2019-20 (17.0% yn Abertawe, 15.4 % yng Nghymru). *(DC 30)*

- Mae nifer yr aelwydydd lle cafodd digartrefedd ei atal yn llwyddiannus am o leiaf 6 mis ar gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd hefyd yn Ddangosydd Cenedlaethol (DC34). Yn ystod 2020-21, roedd y gyfradd ar gyfer Abertawe yn 59.2 fesul 10,000 aelwyd, i lawr o 74.0 yn 2019-20 (Cymru: 34.8 yn 2020-21; 49.3 yn 2019-20). Mae’r pandemig wedi cael effaith negyddol ar allu’r Cyngor i atal digartrefedd. Fodd bynnag, mae Abertawe yn dal i gymharu'n ffafriol â gweddill Cymru. Ym mis Hydref 2019, yn ystod y Cyfrif Blynyddol Cenedlaethol o Bobl sy'n Cysgu ar y Stryd (cyfrif 2 wythnos), amcangyfrifwyd bod 37 o bobl yn cysgu ar y stryd yn Abertawe, o gyfanswm o 405 i Gymru gyfan. Nid yw'r cyfrif cenedlaethol blynyddol wedi digwydd yn ystod pandemig COVID-19. Fodd

bynnag, yn ystod y pandemig ymatebodd Abertawe yn llwyddiannus i “Ddull Neb yn Cael eu Gadael Allan” Llywodraeth Cymru, sydd wedi sicrhau bod unrhyw un sy'n cysgu allan wedi cael llety dros dro. Mae hyn wedi lleihau nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe yn aruthrol. Y cyfartaledd nosweithiol o bobl yn cysgu allan ym mis Mai 2022 oedd 7.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd nifer o gyhoeddiadau'n ymwneud â’r ffordd o fesur llesiant yn lleol yng Nghymru:

- Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad *Llesiant Cymru* gyda Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu diweddaru lle bo modd. Cadarnhawyd nifer o ychwanegiadau a diwygiadau i Ddangosyddion Cenedlaethol (sydd bellach yn gwneud cyfanswm o 50) ym mis Rhagfyr 2021, drwy gyhoeddi’r ymateb i’r ymgynghoriad *Llunio Dyfodol Cymru* a chadarnhau set gychwynnol o wyth Carreg Filltir Genedlaethol a nodwyd ar gyfer rhai o’r dangosyddion.
- Ym mis Hydref 2021, fel rhan o'r rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol (MNW), cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ddogfen *Llesiant Personol yn y DU, 2020-21* – a oedd yn cynnwys amcangyfrifon o fodlonrwydd bywyd, y teimlad bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, hapusrwydd a phryder ar lefel y DU ar lefel awdurdodau lleol, gan ddefnyddio data o Arolwg Poblogaeth Blynyddol SYG.  Ar bob un o'r pedwar mesur, mae sgoriau cymedrig Abertawe ychydig yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU ar gyfer 2020-21. Yn lleol ac yn genedlaethol, mae cyfraddau llesiant cyfartalog wedi gwaethygu ar draws yr holl ddangosyddion yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, yn ystod cyfnod a ddigwyddodd yn gyfan gwbl yn ystod pandemig COVID-19.

Mae offeryn Data Cymru, *Lleoedd Llewyrchus Cymru* yn mesur cyffredinrwydd cymharol yr amodau ar gyfer llesiant ac ansawdd bywyd ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru, gan ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion (55 ar hyn o bryd) ar draws tri 'pharth' llesiant. Yn ôl y mynegai diweddaraf (2021), mae gan Abertawe amodau gwell ar gyfer llesiant na chyfartaledd Cymru yn y meysydd 'Cynaliadwyedd', ac yn enwedig 'Cydraddoldeb', ond mae'n is na chyfartaledd Cymru yn y parth 'Amodau Lleol'.

Mae llawer o'r ffocws lleol a'r adnoddau partneriaethol ar gyfer mesur llesiant yn ystod 2021-22 wedi bod ar yr ail Asesiad o Lesiant Lleol Abertawe, y mae angen ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Mai 2022 i fodloni gofynion deddfwriaethol. Bydd y ddogfen yn darparu asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Abertawe, a bydd yn cael ei defnyddio i lywio'r Cynllun Llesiant lleol nesaf ym mis Mai 2023.

**Thema trawsbynciol - Tai**

Nodwyd tai fel thema drawsbynciol yng Nghynllun Llesiant Abertawe. Mae tai diogel yn hanfodol i lesiant unigolion a'r gymuned ehangach ac yn elfen hanfodol o sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Heb gartref diogel, fforddiadwy mae'n anodd i bobl symud ymlaen mewn meysydd eraill o'u bywydau gan gynnwys cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, iechyd a bywyd teuluol.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae gan Wasanaeth Tai'r Cyngor rôl bwysig i'w chwarae i helpu i gyflenwi'r Amcanion Llesiant Lleol ar gyfer Abertawe. Mae'r Gwasanaeth Tai yn sicrhau bod ei ddull strategol yn cysylltu'n glir â'r Amcanion Llesiant Lleol. Cyfrannodd y Gwasanaeth at waith a nodau'r BGC dros y 12 mis diwethaf wrth ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a chyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Yn 2021/2022, lansiodd y Gwasanaeth Tai dair strategaeth newydd sydd â'u cyfraniad at amcanion llesiant y Cyngor ac amcanion llesiant lleol yn greiddiol iddynt.

- Strategaeth Rheoli Ystadau Tai 2021-25
- Strategaeth Rheoli Rhenti Tai 2022-26
- Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Mae'r strategaethau hyn yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio:

**Tymor Hir** - Mae'r Gwasanaeth Tai yn canolbwyntio ar helpu aelwydydd i sicrhau llety cynaliadwy, tymor hir sy'n briodol i'w hanghenion a chynnal eu tenantiaethau trwy gymorth effeithiol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chysgu ar y stryd a'i atal, a weithredir trwy ddefnyddio dull cydweithredol gyda phartneriaid trydydd sector, LCC lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf ac Iechyd. Mae pwyslais cryf ar gynorthwyo tenantiaid y Cyngor i gynnal eu tenantiaethau tymor hir, er mwyn cefnogi adeiladu cymunedau cynaliadwy. Defnyddir dull rhagweithiol lle bynnag y bo modd i atal problemau rhag gwaethygu neu eu hatal rhag digwydd, megis trefnu amnestau sbwriel ar ystadau.

**Atal** Trwy ei ddulliau strategol, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal problemau gan gynnwys ymyrraeth gynnar gydag ôl-ddyledion rhent ac atal digartrefedd. Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar seicoleg i ddarparu gwasanaethau a gaiff effaith fuddiol trwy ostyngiadau sylweddol o ran troi pobl allan o lety'r Cyngor, a gwell ymgysylltu gan grwpiau anodd eu cyrraedd â'r gwasanaethau digartrefedd.

**Integreiddio** – Mae llawer o bartneriaid BGC hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar strategaethau ar y cyd, fel y Strategaeth Grant Cymorth Tai a Strategaeth Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg sy'n cael ei datblygu, gan sicrhau yr osgoir gwrthddywediadau ac y gwneir gwaith cyflenwol.

**Cydweithredu** - Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Tai, y Fforwm Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol, a’r Bartneriaeth Tai Rhanbarthol, ymhlith eraill.

**Ymgysylltu** – Mae cyfranogiad ac ymgysylltu tenantiaid yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau tai. Mae gan denantiaid ran allweddol i'w chwarae wrth lunio cyfeiriad y Gwasanaeth Tai yn y dyfodol. Mae barn tenantiaid yn helpu i lywio gwelliannau parhaus a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn gost effeithiol. Ceisir barn grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd wrth ddatblygu strategaethau a gwasanaethau newydd.

**Cymru lewyrchus**
Mae buddsoddi mewn tai fforddiadwy, sy’n cynnwys tai cymdeithasol, yn cael effeithiau economaidd sylweddol, sy’n cynnwys creu swyddi, darparu effeithiau lluosydd mawr yn yr economi leol a chreu marchnadoedd ar gyfer technolegau newydd gan gynnwys dulliau adeiladu modern, dulliau adeiladu cynaliadwy a dulliau effeithlonrwydd ynni newydd.

**Cymru gydnerth**
Mae tai fforddiadwy a diogel sy’n addas ar gyfer anghenion unigolyn yn hanfodol i lesiant a chydnerthedd unigolion a’r gymuned ehangach ac yn elfen hanfodol o ran cyflawni llesiant cenedlaethau’r dyfodol. Mae tai fforddiadwy wedi'u dylunio'n dda, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, yn cyfrannu at gydnerthedd Abertawe a Chymru, gan gefnogi cymunedau a lleihau'r perygl o wynebu risgiau a phwysau economaidd ac amgylcheddol.

**Cymru iachach**
Gall amodau tai ddylanwadu ar iechyd corfforol; gall tŷ cynnes a sych wella canlyniadau iechyd cyffredinol a lleihau cyflyrau anadlol yn benodol. Mae pobl ag anableddau a'r henoed angen tai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion tymor hir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl. Fodd bynnag, mae tai hefyd yn cael dylanwad enfawr ar iechyd meddwl a llesiant – gan fod fforddiadwyedd a sicrwydd yn hanfodol i lesiant, yn ogystal â’r elfennau ffisegol. Er enghraifft, mae plant sy’n byw mewn cartrefi gorlawn yn fwy tebygol o fod dan straen, yn bryderus ac yn isel eu hysbryd, yn dioddef o iechyd corfforol gwaeth, ac yn cyflawni’n waelach yn yr ysgol.

**Cymru fwy cyfartal**
Mae tlodi ac incwm isel yn atal pobl rhag cael mynediad at yr ystod lawn o ddewisiadau tai a gall wneud costau tai yn anodd eu cynnal. Mae'r Gwasanaeth Tai yn gyfrannwr allweddol i'r agenda gwrthdlodi trwy ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu tai cyngor fel opsiwn diogel a fforddiadwy i aelwydydd, datblygu tai fforddiadwy newydd i ddiwallu anghenion, gwella amodau’r sector rhentu preifat, atal ac ymdrin â digartrefedd, darparu grantiau cyfleusterau i’r anabl i alluogi pobl i fyw gartref yn annibynnol am gyfnod hirach. Mae’r Gwasanaeth Tai hefyd yn darparu Cynllun Tenantiaethau wedi’u Dodrefnu a gafodd ei newid yn 2022 i gynllun seiliedig ar ddewis i sicrhau ei fod yn fforddiadwy i’r tenantiaid hynny nad ydynt yn derbyn

budd-dal. Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar ddewis yn galluogi tenantiaid i ddewis o blith amrywiaeth o opsiynau, gan ei wneud yn fwy fforddiadwy a lleihau gwastraff.

**Bwriadau i'r dyfodol**

- Yn gyffredinol, y flaenoriaeth gwasanaeth allweddol ar gyfer Tai yw buddsoddi i wella tai ac adeiladu cartrefi Cyngor sy'n fwy ynni-effeithlon a chefnogi adeiladu tai fforddiadwy i helpu i gwrdd â'r angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio stadau a dod â buddion economaidd a chyflogaeth ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r Adran Tai weithio'n agos mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol a gynrychiolir o fewn y BGC; hefyd archwilio ffyrdd o gynyddu nifer y fflatiau un ystafell wely ac eiddo hygyrch wedi'i addasu ledled y ddinas trwy gaffael a gweithio gyda phartneriaid i helpu i ateb y galw.
- Gostwng y lefelau o bobl sengl a theuluoedd sydd mewn llety dros dro.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a sefydliadau/ partneriaid lleol eraill i helpu unigolion a theuluoedd gael mynediad at gymorth a thai fforddiadwy o ansawdd da.
- Cyfrannu at y Fframwaith Strategol Addasiadau Tai rhanbarthol arfaethedig (gan gynnwys datblygu Grŵp Cynllunio Addasiadau Tai lleol).
- Parhau i leihau nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat trwy gyfuniad o gyngor, cefnogaeth, cymorth ariannol tai a gorfodaeth.

# Cynnydd tuag at Ein Hamcanion Llesiant Lleol

## Blynyddoedd Cynnar



**I sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn bod y gorau y gallant fod.**

**Arweinydd –** Cydlynir y gwaith hwn gan Grŵp Llywio Blynyddoedd Cynnar a'i arwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe.

**Partneriaid/ Rhanddeiliaid sy'n Cyfranogi**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar | Grŵp Llywio Blynyddoedd Cynnar | Cyngor Abertawe - Addysg | Athrawon Cyswllt Dechrau'n Deg/ Arweinydd Strategol y Cyfnod Sylfaen |
| Iechyd Cyhoeddus | Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar | Sector gofal plant/ Gwybodaeth i Deuluoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Peilot Gofal Sylfaenol Blynyddoedd Cynnar | Cynllun Cyn-Ysgol Iach | Gwasanaeth Pobl Ifanc Egnïol | Gwasanaeth Jig-So |
| Swyddog Dilyniant Blynyddoedd Cynnar | Tîm Dysgu Cynnar a Datblygu Iaith | Tîm Ymwelwyr Iechyd | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Teuluoedd, Grwpiau Cymunedol | Lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg | Bydwreigiaeth | |

## Trosolwg o waith y Blynyddoedd Cynnar

### Jig-so

Cydnabyddir bod teuluoedd angen ystod eang o gymorth, yn enwedig teuluoedd ifanc, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol a'u lleihau. Mae Jig-so yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi cyn geni a thrwy gydol plentyndod cynnar, sy'n allweddol i gyfleoedd bywyd babanod yn y dyfodol.

Mae darparu cymorth yn y 1001 diwrnod cyntaf yn sicrhau bod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu llenwi yn ystod y cyfnod cynenedigol ac ôl-enedigol. Mae darparu rhaglen graidd o gymorth yn galluogi rhieni/gofalwyr i feithrin eu gwybodaeth a’u sgiliau sydd yn eu tro'n magu hyder, yn eu galluogi i deimlo cefnogaeth, teimlo dan lai o straen a’u paratoi ar gyfer y newidiadau sydd o’u blaenau. Mae hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant oherwydd pan fydd rhieni wedi gwella llesiant, cânt feichiogrwydd iachach, genedigaethau llai cymhleth a babanod iachach.

Mae Jig-so yn adeiladu hyder, cydnerthedd a meddwl dyheadol mewn rhieni trwy ddefnyddio pecyn cymorth amrywiol o adnoddau yn y cartref a lleoliadau grŵp. Mae’n darparu addysg a chymorth i rieni ar ddatblygiad yr ymennydd, gan ganolbwyntio ar sut i fynd i’r afael â’r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, myfyrio ar a nodi'r gwahanol arddulliau o fagu plant, pwysigrwydd diwallu anghenion plant, cyfathrebu cadarnhaol, cymorth gyda pherthnasoedd, effaith byw â gwrthdaro ar lesiant plentyn, a darparu gwasanaeth cyfannol i wella ymatebolrwydd a sensitifrwydd rhwng rhieni a babanod.




Mae Jig-so yn gweithio ar y cyd â nifer o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol. Rydym yn parhau i adeiladu a chynnal perthynas gyda llawer o wasanaethau ac yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i’r holl deuluoedd rydym yn eu cefnogi i fynegi eu barn ar sut mae’r gwasanaeth yn cael ei ddylunio a’i ddarparu.

Mae gweithio ar y cyd fel tîm amlasiantaeth yn sicrhau bod lefel uchel o gyfathrebu rhwng staff a bod tîm yn cael ei greu o amgylch y teuluoedd rydym yn eu cefnogi. Nod y gwasanaeth yn y tymor hir yw adeiladu ar gryfderau, sgiliau a gwybodaeth y teulu i’w helpu i fod yn iach, i dyfu ac i ffynnu yn y dyfodol. Bydd grymuso teuluoedd i nodi a chymryd y camau sydd eu hangen i gyflawni eu nodau llesiant tymor byr yn annog y cymhelliant sydd ei angen i gyflawni eu nodau tymor hir.

Mae Jig-so wedi sicrhau Cymru fwy llewyrchus trwy atal problemau rhag gwaethygu, adeiladu cydnerthedd teuluol a chynyddu iechyd y teulu i leihau costau tymor hir i'r Awdurdod a'r Wlad.

Mae ein gwasanaeth bydwreigiaeth dwys wedi gweithio tuag at Gymru iachach drwy hybu bwydo ar y fron a lleihau ysmygu ymhlith mamau beichiog.

Rydym yn darparu grwpiau rhieni a phlant bach mewn mannau lleol sy'n hawdd eu cyrraedd ac sy'n helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol. Fel tîm, rydym yn creu diwylliant lle y modelir gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol. Rydym yn sicrhau bod yna gyfathrebu agored a gonest rhyngom ni a'n teuluoedd, yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni nodau a rennir, yn gwerthfawrogi profiadau bywyd go iawn i wella'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd, yn canfod beth sy'n bwysig i'r teulu ac yn teilwra dulliau at anghenion unigol. Sicrhawn ein bod yn cydnabod ac yn gwrando'n astud ar lais ein teuluoedd, gan sicrhau ymddiriedaeth a pharch at ein gilydd i gyflawni'r canlyniadau gorau er mwyn gwella iechyd meddwl a llesiant rhieni.

**Mae'r meysydd gwaith sydd wedi digwydd ers y llynedd yn cynnwys:**

- Cynllun peilot geni i ofal – Ystyried y canllawiau drafft a gweithredu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau llesiant y teulu pan fydd plentyn yn cael ei gymryd i ofal.
- Datblygu'r tîm Reflect – Ehangu'r tîm er mwyn cwrdd ag anghenion teuluoedd lle mae plant wedi'u mabwysiadu neu'n byw gyda rhywun arall o dan orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Cefnogaeth barhaus dwy flynedd i rieni i hwyluso newid.
- Datblygu cysylltiadau â'r Uned Newyddenedigol, Ysbyty Singleton i gynorthwyo gwaith cydgysylltiedig a hyrwyddo gwell cyfathrebu pan fydd plant yn cael eu geni'n rhy gynnar neu'n sâl.
- Hyfforddiant Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni a hwyluso caffis rhieni.
- Hyfforddiant Arsylwi ar Fabanod Newydd-anedig Brazelton i sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi i egluro ciwiau'r babi, sy'n galluogi mwy o ymatebolrwydd a gwell ymlyniad.

**Mae'n bwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys:**

- ➢ parhau i fod yn rhan o gynllun peilot Geni i Ofal;
- ➢ datblygu'r prosiect Reflect i gefnogi rhieni sydd â'u plant wedi eu cymryd o'u gofal;
- ➢ datblygu caffis Jig-so i rieni ac yn cael eu rhedeg gan rieni;
- ➢ parhau i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd, eu plant a'u grwpiau teulu ehangach i dyfu i fyny gyda'i gilydd, yn iachach, yn hapusach ac yn fwy optimistaidd.

**Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar – Braenaru**

Mae ystyried y saith nod llesiant yn hollbwysig i ffocws gwaith trawsnewid ac integreiddio'r blynyddoedd cynnar (a elwir hefyd yn Fraenaru).

Cynhaliwyd ymarfer mapio gwasanaeth yn 2019, gan edrych ar y gefnogaeth a gynigir i deuluoedd o genhedlu hyd at 7 oed ar draws pedwar parth: Gofal Plant a Chwarae, Cymorth i Deuluoedd, Addysg ac Iechyd. Yn dilyn hyn, ehangwyd y dysgu a chynhaliwyd Adolygiad o Systemau Vanguard o'r holl wasanaethau blynyddoedd cynnar sy'n cefnogi'r parthau a'r oedrannau hyn. Elfen fawr o'r adolygiad hwn oedd cynnal "sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig" gyda defnyddwyr gwasanaeth eu hunain a hefyd archwilio'n helaeth brofiadau bywyd go iawn o bontio rhwng gwasanaethau. Ymgorfforodd y broses hon ein gwaith gyda meddylfryd cenedlaethau'r dyfodol. Ein dysgu parhaus fydd gweithio gyda'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar ac ystyried pa mor integredig yw ein systemau trwy ddefnyddio Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth Blynyddoedd Cynnar (EYMMM) fel cyfrwng i ddeall hyn yn well. Ein cynlluniau ar gyfer hyn yn y dyfodol yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i drafod canfyddiadau ein gweithdai gyda gweithwyr proffesiynol.

Drwy barhau i archwilio tirwedd y blynyddoedd cynnar trwy lens trawsnewid, rydym wrthi'n ystyried sut i integreiddio ein gwasanaethau'n well a sut y gall asiantaethau gydweithio'n well. Yn ôl ei natur, mae gwaith y blynyddoedd cynnar yn ataliol, gan geisio cefnogi plant i fod y gorau y gallant fod ar draws eu holl deithiau. Yn yr un modd, mae'r uchelgais tymor hir o gefnogi plant o'u genedigaeth yn brosiect tymor hir, a'r gobaith yw y bydd effaith hyn i'w deimlo am flynyddoedd lawer. Mae cynnwys pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud, o weithwyr proffesiynol hyd at y cyhoedd. Rydym wedi gofyn i dros 300 o famau beth oedd eu profiadau o Fwydo ar y Fron er mwyn i ni allu llywio'n well y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch cymorth bwydo ar y fron. Rydym hefyd wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch archwilio sut y byddai drws ffrynt blynyddoedd cynnar yn gweithredu; eto, gyda golwg ar ddeall yn well y cyfeiriad teithio y mae angen inni ei gymryd. Mae ein gwaith o archwilio system y blynyddoedd cynnar yn cefnogi'r Amcanion Llesiant, gan eu bod wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae prosiectau integreiddio sy'n rhan o'n gwaith trawsnewid ehangach, fel y gwaith "Gwella Mynediad at Gymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu" (SLC) yn dangos bod egwyddorion y 5 ffordd o weithio wedi'u gwreiddio yn ein diwylliant. Mae'r prosiect hwn yn dîm amlasiantaeth, sy'n gweithio i gyfuno asiantaethau megis addysg, cymorth ADY, Therapi Lleferydd, gofal plant preifat a gofal plant Dechrau'n Deg, gyda'r bwriad o sicrhau bod pob plentyn yn cael gwell mynediad at gymorth SLC ar draws Abertawe.

Ar gyfer gwaith yn y dyfodol, rydym eisiau sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gefnogi'n well mewn ffordd ataliol o ran eu hanghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Rydym wedi ail-lunio'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn dilyn adolygiad, a thrwy wrando ar yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd. Ceir Hybiau newydd Cymorth Cynnar Blynyddoedd Cynnar mewn 5 hyb cymunedol ar draws Abertawe, gyda'r bwriad o fynd â'r gwasanaethau at y bobl. Bydd y cydweithio drws ffrynt blynyddoedd cynnar rhwng y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Pwynt Cyswllt Sengl newydd yn cefnogi'n well ein gweledigaeth o "daith ddi-dor" i deuluoedd. Bydd y model cymorth i deuluoedd sy'n cael ei dreialu yn Llwchwr yn ceisio cefnogi teuluoedd yn well mewn ffordd ataliol, gan roi mwy o fynediad at wasanaethau Ymwelwyr Iechyd, yn dilyn cydnabyddiaeth

fod angen yn bodoli yn yr ardal. Fel rhan o waith Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth Blynyddoedd Cynnar, rydym yn cynllunio system ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i gefnogi ein gweledigaeth o drawsnewid.

**Ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- parhau i archwilio sut i integreiddio ein gwasanaethau yn well a chreu system blynyddoedd cynnar ddi-dor trwy gyfrwng Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth Blynyddoedd Cynnar;
- cefnogi'r prosiectau a amlinellwyd yn y cynllun busnes blynyddoedd cynnar i helpu i ddarparu gwasanaethau cydweithredol, ataliol ac integredig gyda'r bwriad o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, cefnogi ein huchelgais BGC a chyflawni ar y 7 pwnc Llesiant;
- rydym yn cysylltu â'r bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth i sicrhau bod profiad bywyd go iawn wrth wraidd y broses o drawsnewid gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**Gwaith ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cyflwyno Gwobr Cyn-ysgol Iach a Gwobr Byrbryd Aur**

Uchelgais y cynllun cyn-ysgol iach yw helpu i ddarparu amgylcheddau iach a galluogi plant i wneud dewisiadau iach wrth iddynt symud ymlaen trwy gyfnodau bywyd. Mae hyn yn cysylltu'n dda â nodau llesiant Cymru fwy cydnerth ac iach.

Parhaodd timau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar i ddarparu gofal plant yn ystod y pandemig; oherwydd hyn, roedd angen addasiadau ar gyfer cyflenwi llawer o arferion mewn gofal plant i helpu i leihau lledaeniad yr haint. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod y plant yn gweld opsiynau cyfyngedig i'w galluogi i wneud eu dewisiadau eu hunain yn ystod amser byrbryd, dewis o weithgareddau ac ati.

Wrth i gyfyngiadau godi, mae mwy o leoliadau Blynyddoedd Cynnar bellach wedi mabwysiadu gorsafoedd 'hunan-dywallt' i gael dŵr yfed yn ystod y dydd. Mae byrbrydau treigl yn cynnig ffenestr ehangach i blant ddewis pryd y maent yn barod i eistedd a bwyta'r byrbryd. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn cael dewis o fyrbrydau y gallant eu paratoi eu hunain.

Er mwyn galluogi lleoliadau i ailgyflwyno adnoddau paratoi bwyd, prynwyd adnoddau e.e. cyllyll cŵn plant, byrddau torri, cynwysyddion dŵr gyda thap, jygiau llaeth i gadw llaeth yn oer, a drychau i hyrwyddo corneli hunanofal.

Hefyd hyrwyddwyd hawliau plant yn y blynyddoedd cynnar, mynediad at ddewis rhydd o ddŵr/llaeth, chwarae a ysgogir gan blant, ac ati. Llyfr poced hawliau – ar gyfer plant ifanc, prynwyd llyfrau i'r gweithlu eu defnyddio a chyfeirio atynt, gan ddefnyddio iaith briodol ynghylch mynediad at ddŵr ac ati gyda phlant ifanc. Mae lleoliadau yn parhau i gynnig prydau a byrbrydau maethlon ac maent yn gweithio tuag at adolygu eu safonau dros y misoedd diwethaf. Cyflwynwyd hyfforddiant ynghylch pwysigrwydd bwyd i blant ifanc.

Mae lleoliadau wedi defnyddio eu mannau awyr agored fel mater o drefn; gwelodd y pandemig leoliadau yn defnyddio eu darpariaeth awyr agored yn amlach a hefyd wedi defnyddio hyn fel cyfle i wella eu gofod awyr agored i blant.

**Ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Parhau i gyflwyno HSPSS a Gwobr Byrbryd Aur.
- Cyflenwi'r grant gordewdra i alluogi lleoliadau i ddarparu prydau a byrbrydau maethlon, hyrwyddo oriau estynedig o amser y tu allan.

**Cymorth Cynnar Blynyddoedd Cynnar (EYEH)**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Cymorth Cynnar Blynyddoedd Cynnar (EYEH) wedi cynnal ymgynghoriad ac ailstrwythuro staff i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion y blynyddoedd cynnar a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ategir hyn yn y ffordd y mae Cyngor Abertawe yn darparu ei wasanaethau o ran diwallu anghenion pobl yn gynnar drwy roi mynediad iddynt at y cymorth cywir i sicrhau yr adeiledir cydnerthedd yn gynnar a bod teuluoedd yn barod i gefnogi eu plant nawr ac yn y dyfodol.

- Mae egwyddorion y ffordd y mae'r tîm EYEH yn gweithio wedi'u gwreiddio yn y 5 ffordd o weithio. Caiff teuluoedd eu cynnwys a'u harwain yn yr holl benderfyniadau a wneir o ran eu cefnogaeth. Mae nodau'r ymyriadau'n canolbwyntio ar atal anghenion rhag gwaethygu, tra'n adeiladu ar sgiliau sy'n galluogi teuluoedd i barhau ar eu taith magu plant yn annibynnol, heb gymorth gwasanaethau cymorth.
- Mae meithrin sgiliau teuluoedd yn gynnar, eu grymuso ac adeiladu ar eu cryfderau yn sicrhau eu bod yn y lle gorau posibl i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol ehangach.

Rydym yn gyson yn adolygu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn cynnal prosesau sicrhau ansawdd i sicrhau ein bod yn wasanaeth sy'n addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Yn ystod y pandemig, roedd angen i'r tîm fod yn ymatebol i anghenion ei ddefnyddwyr mewn ffyrdd creadigol a newydd iawn o weithio; mae'r rhain wedi'u parhau gyda'r model cyflenwi 'fel y mae'. Er enghraifft, defnyddio cymorth rhithwir trwy Teams a chyfryngau cymdeithasol i ryngweithio, yn ogystal â defnyddio mannau agored i gyflenwi sesiynau yn hytrach na chartrefi neu ystafelloedd bach.

- Datblygwyd sesiynau newydd sy'n ymgorffori chwarae fel yr offeryn ar gyfer cyflenwi.
- Cafodd staff hyfforddiant newydd ar feysydd/themâu a nodwyd fel meysydd cymorth neu feysydd twf newydd, megis straeon tawelach, hyfforddiant poti a chysylltiadau teuluol.

**Ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Y weledigaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yw gwreiddio'r ddarpariaeth a pharhau i uwchsgilio a chefnogi'r staff sydd newydd eu recriwtio.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar (ADY)**

Mae'r Tîm Cefnogi a Chynhwysiant Blynyddoedd Cynnar ADY wedi gweithio'n hynod o galed i sicrhau bod tegwch o ran mynediad i adnabyddiaeth gynnar a darpariaeth briodol i bob plentyn a allai fod yn profi oedi mewn datblygiad neu ADY yn y Blynyddoedd Cynnar. Gwnaed cryn dipyn o waith i sicrhau bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol o fis Medi 2021.

Mae'r tîm wedi cynyddu mewn maint gyda swyddogion o Dîm Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar a'r Awdurdod Addysg, gan ganiatáu cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant.

Cydnabuwyd bod angen i'r gwasanaeth ehangu ei gyrhaeddiad i sicrhau tegwch i holl blant y Blynyddoedd Cynnar. Er mwyn i hyn gael effaith tymor hir, cynaliadwy, buddsoddwyd o fewn y gwasanaeth i gyflogi dau Weithiwr Cefnogi a Chynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar (un wedi ei dreialu yn flaenorol trwy'r cynllun Braenaru). Roedd hyn yn ein galluogi i flaengynllunio gyda rhanddeiliaid sut beth ddylai'r gwasanaeth fod, a sut y byddai'n datblygu dros amser.

Rhoddodd yr Adran Addysg systemau effeithiol ar waith i sicrhau y glynir at ddyletswyddau statudol yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gyda phrosesau cadarn yn eu lle i sicrhau bod plant sydd ag ADY – ac sydd felly angen Cynllun Datblygu Unigol – yn cael eu hadnabod mewn modd amserol. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i'r broses hon, gyda'r holl wasanaethau sy'n ymwneud â gofal y plentyn yn dod ynghyd gyda'r teulu i gynllunio ar gyfer anghenion y plentyn. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgol dan sylw, er mwyn sicrhau pontio effeithiol. Cyflogir Cydlynwyr Dynodedig gan yr awdurdod i arwain a chydlynu'r broses hon.

Rydym hefyd yn ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid ynghylch y gwasanaeth, megis darparwyr Gofal Plant ac Ymwelwyr Iechyd,  ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella.

**Y meysydd gwaith sydd wedi digwydd ers y llynedd**


- Cyfuno'r holl brosesau atgyfeirio blaenorol yn un, sy'n golygu bod gan bob plentyn fynediad cyfartal at ddarpariaeth a chymorth. Mae'r Panel ADY a Chynhwysiant Blynyddoedd Cynnar wedi ehangu ei aelodaeth, gan sicrhau cynrychiolaeth o Dîm Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar, SALT, Ymwelwyr Iechyd Arbenigol, Seicolegwyr Addysg, Trydydd Sector a Gofal Plant. Mae cynllunio amlasiantaeth yn digwydd yn ystod y cyfarfodydd hyn i sicrhau bod plant yn cael mynediad amserol at ddarpariaeth briodol.
- Mae'r tîm bellach yn cynnig cyngor i holl ddarparwyr gofal plant ac Ymwelwyr Iechyd o fewn yr Awdurdod trwy wasanaeth ymgynghori dros y ffôn ac yn cwblhau ymweliadau uniongyrchol â darparwyr i'w cefnogi i ddatblygu darpariaethau cynhwysol yn ogystal â phecynnau ymyrraeth wedi'u targedu. Mae hyn yn galluogi pawb yn y sector gofal plant i gael mynediad at gyngor

cymorth a strategaethau i blant yn eu gofal sydd ag ADY, anawsterau dysgu ac/neu anableddau.

- Rydym hefyd wedi datblygu cyfres gadarn o gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cyflwyno i bob darparwr gofal plant, gan ganolbwyntio ar gynwysoldeb cynyddol a sicrhau bod gan ddarparwyr y sylfaen sgiliau angenrheidiol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion.
- Defnyddio arian grant i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth gyffredinol o leoliadau gofal plant trwy brynu adnoddau i hyrwyddo cynhwysiant.
- Defnyddio arian grant i ddatblygu mannau awyr agored hygyrch i ddarparwyr gofal plant.
- Prynu offer / adnoddau amgylcheddau cynhwysol a chyngor ategol ar gyfer yr holl ddarpariaeth gofal plant cofrestredig. Cynigiwyd dewis o ystod o becynnau adnoddau i leoliadau yn targedu maes datblygu penodol, a phrynwyd a darparwyd adnoddau; bu'r adborth yn gadarnhaol.
- Defnyddiwyd cyllid grant (CDF) i ddatblygu hygyrchedd darpariaeth awyr agored y darparwyr gofal plant, i gynnwys plentyn nad oedd yn gallu symud. Bu Gweithiwr Cefnogi a Chynhwysiant BC ADY ynghyd ag Athro Ymgynghorol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r lleoliad i nodi ffyrdd y gellid gwella'r amgylchedd awyr agored. Prynwyd lloriau meddal ac adnoddau dringo ar lefel y llawr i sicrhau bod y plentyn yn gallu cael mynediad at weithgareddau awyr agored ochr yn ochr â'i gyfoedion, tra hefyd yn datblygu sgiliau echddygol bras. Ers cyflwyno'r offer hwn a mwy o gyfleoedd i symud, mae'r plentyn wedi cymryd ei gamau cyntaf.

**Adnoddau cynhwysol**

"*Diolch yn fawr iawn am ein blwch adnoddau - mae wedi'i osod yn ei le ac yn rhedeg yn ein gofod tawel. Cafodd dderbyniad da gan ein plant"*



*"Dim ond gair i ddweud diolch yn fawr iawn am yr adnoddau amgylchedd cynhwysol anhygoel a anfonwyd atom ddydd Gwener. Mae'r plant wrth eu boddau gyda nhw. Mae'r babell synhwyraidd dywyll a'r goleuadau wedi cael eu defnyddio am gymaint o oriau heddiw, rwy'n meddwl efallai fy mod angen batris newydd yn barod!"*

**Darpariaeth awyr agored:**

*"Edrychwch pa mor wych mae hwn yn edrych, ac mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'r plentyn yn barod. Diolch am eich cefnogaeth i'w drefnu i ni"*

“

**Ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Parhau i weithio gyda darparwyr i gynyddu'r sylfaen sgiliau ar gyfer diwallu anghenion plant ag ADY, oedi mewn datblygiad ac/neu anableddau.
- Datblygu hyfforddiant wedi'i dargedu/ hyfforddiant anghenion penodol i adeiladu ar yr hyfforddiant cyffredinol a gynigir ar hyn o bryd.
- Ehangu nifer y lleoliadau rydym yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd, gan dargedu'r lleoliadau hynny sy'n anoddach eu cyrraedd.
- Cydweithio gyda SALT i gydgynhyrchu hyfforddiant ar gyfathrebu cynyddol ac amgen (AAC) ar gyfer darparwyr a rhieni.

**Gwaith cydbwysedd**

Cydnabyddir bod mwy o blant a phobl ifanc yn llai tebygol o ddefnyddio beic i deithio o amgylch ardaloedd lleol. Nid yw rhai plant yn fedrus wrth ddefnyddio beic pan ddarperir cyfleoedd i gael mynediad at gyrsiau hyfedredd beicio.

Dyma'r cyfleoedd sydd ar gael yn sgil cyflenwi’r Gronfa Datblygiad Plant a Grant Gordewdra’r HSPSS:

- Cydgysylltu ag Addysg i sicrhau bod holl staff meithrin a derbyn, gan gynnwys lleoliadau gofal plant, yn ymwybodol o'r hyfforddiant a'r manteision o dderbyn yr adnoddau ar gyfer y plant sydd yn eu gofal.
- Sefydlu adnoddau o faint addas i hyd at 5 o blant eu defnyddio ym mhob lleoliad.
- Cydgysylltu â Phobl Ifanc Egnïol i hyrwyddo darpariaeth a arweinir gan y gymuned.
- Darparu adnoddau i leoliadau ar ôl hyfforddi staff.

Cyllid Datblygiad Plant (CDF) – Hyfforddiant/Adnoddau Cydbwysedd

Mae CDF wedi galluogi lleoliadau gofal plant ac ysgolion i ddod at ei gilydd i gyflenwi'r rhaglen beiciau cydbwysedd. Bydd plant sy'n trosglwyddo o ofal plant i'r ysgol neu'n defnyddio cymysgedd o'r ddau yn ystod y dydd yn rhannu profiadau o ddefnyddio beiciau cydbwysedd. Mae plant wedi elwa o gryfhau eu cyhyrau craidd, sgiliau cydsymud a datblygu sgiliau i addasu i reidio gan addasu eu camau a hyd y pellter a deithiwyd.

Gyda beicio ar drai ymhlith plant a phobl ifanc, mae rhieni a staff yn cael eu hannog i ddeall pwysigrwydd beicio a defnyddio'r awyr agored yn amlach. Mae grwpiau cymunedol lleol hefyd wedi elwa, gyda thîm y Cynnig Pobl Ifanc Egnïol yn datblygu cyfleoedd i rieni plant yn y blynyddoedd cynnar gael profiad o ddefnyddio'r beiciau mewn amgylchedd diogel.

Dywedodd Ysgol Gynradd Treforys;
*"Roeddem yn hynod ddiolchgar a llawn cyffro o dderbyn ein beiciau cydbwysedd. Mae'r plant yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol babanod ac mae gan y mwyafrif ohonynt Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. O ganlyniad, roedd rhai o'r plant yn betrusgar ac yn amharod iawn i ganiatáu i aelod o staff osod yr helmed ar eu pennau. Felly, dros gwpl o sesiynau, rhoddwyd cyfle i'r plant archwilio'r helmedau, eu cyffwrdd/teimlo a chydio ynddynt, nes iddynt ddod i arfer â nhw. Ar ôl dipyn, llwyddwyd i roi'r helmedau ar bennau pob un o'r plant. Ar yr adeg hon, mae rhai o'r plant yn y dosbarth yn hyderus wrth ddefnyddio'r beic cydbwysedd ac mae eraill newydd ddechrau teimlo'n hyderus gydag oedolyn yn eu cefnogi. Rydym yn edrych ymlaen i weld yr holl blant yn cynyddu mewn hyder wrth ddilyn y cynllun. Diolch unwaith eto am yr adnoddau gwych a'r hyfforddiant rhagorol!"*

Dywedodd Gofalwr Plant yn Abertawe;
*"O bobl bach, dwi erioed wedi cynhyrfu gymaint wrth dderbyn offer! Mae'n wych. Mae wedi gwneud ein sesiynau Addysg Gorfforol yn gymaint o hwyl! Mae'r plant yn fy ngofal wedi mwynhau dysgu defnyddio'r beiciau cydbwysedd, dringo ar hyd y llwybr cerrig camu, a defnyddio'r holl offer gwych arall mewn cymaint o ffyrdd. Rydyn ni wedi cael rasys cydbwyso bagiau ffa, taflu cylchoedd ar gonau, cyrsiau rhwystrau, sefyll ar un droed, mae'r rhestr yn ddiddiwedd! Mae'r plant wedi cael llawer o hwyl yn dysgu a chadw'n heini. Rwyf wedi gwylio plentyn yn dysgu defnyddio beic cydbwysedd, yna o fewn ychydig fisoedd roedd ganddo gymaint o hyder nes iddo ddringo ar feic cyffredin a'i reidio yn syth. Dim problem o gwbl. Anhygoel! Mae'r adnoddau hyn wedi newid popeth. Yn wirioneddol ddiolchgar. Diolch!"*

**Bwriadau am y flwyddyn i ddod**

- Ailadrodd y ddarpariaeth hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer lleoliadau ac ysgolion newydd trwy CDF.

## Adolygiad Meddwl trwy Systemau Vanguard

Ymgysylltwyd â dros 40 o weithwyr proffesiynol i archwilio'r system blynyddoedd cynnar dros gyfnod o 6 diwrnod. Roedd y sesiynau hefyd yn cynnwys gwrando ar grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth i ddeall eu profiad bywyd go iawn, dilyn teithiau bywyd go iawn teuluoedd trwy wasanaethau bydwreigiaeth, Ymwelwyr Iechyd ac Addysg, a chael sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig'. Pawb gyda golwg ar ddeall anghenion teuluoedd yn well a sut orau y gall y system blynyddoedd cynnar drawsnewid i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r gwaith yn gydweithredol, integredig, ataliol, a gobeithir ei gydgynhyrchu. Gweledigaeth y grŵp trawsnewid yw:

**"***Gwasanaethau Gofal Plant, Chwarae a Chymorth i Deuluoedd yn cael eu hintegreiddio, a darparu llwybr di-dor sy'n gymesur ag anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd, o'u cenhedlu hyd at 7 oed."*

Yn dilyn yr argymhellion o'r gwaith hwn, cynhaliwyd adolygiad o'r pwynt mynediad ar gyfer yr holl wasanaethau blynyddoedd cynnar.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi y gall dangos gofal a meddwl am strategaethau gofal iechyd gael effaith ar leihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol sydd yn ei dro yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, fel y nodir yn y Ddeddf.

Yn 2021, cafodd Amcanion Llesiant y Byrddau Iechyd eu hadnewyddu. I gefnogi hyn, maent wedi ymrwymo i gydweithio â chymunedau a phartneriaid i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, gan adleisio ein hamcan llesiant lleol.

Er mwyn i staff y Bwrdd Iechyd fod yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion y Byrddau Iechyd, cydnabuwyd bod cysylltiadau, cyfathrebu clir ac ymgysylltu yn allweddol. O'r herwydd, neilltuwyd amser penodedig gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r cynllun hwn wedi ceisio cynyddu proffil cynaliadwyedd ar draws y Bwrdd Iechyd yn ogystal â rhannu prosiectau arloesol a newyddion da gyda phartneriaid. Yn ei dro, cefnogodd hyn well cydweithio i nodi a chyflenwi prosiectau a yrrir gan ein staff angerddol. Mae enghreifftiau yn cynnwys;

## Tlodi Gwelyau / Anghydraddoldeb Iechyd

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn amcangyfrif bod 1 o bob 3 phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae tlodi gwelyau yn derm sy'n cyfeirio at deuluoedd a phlant yn ein hardal sy'n cysgu ar loriau neu glustogau oherwydd nad oes ganddynt wely eu hunain. Roedd gan y Bwrdd Iechyd welyau dros ben yn yr ysbytai maes, a oedd yn ddelfrydol i'w defnyddio.

Bu gweithgor bach o staff o'r Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol ac elusennau yn arwain y gwaith ac ymatebodd Uwch Reolwyr y Bwrdd Iechyd drwy sicrhau eu bod yn cael cymeradwyaeth briodol i symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Nid oedd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i adnabod y plant mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac felly bu’n gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, a Chynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, a nododd weithwyr rheng flaen fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol, a gweithwyr digartrefedd a oedd yn gallu nodi'r rhai â'r angen mwyaf.

Cydlynodd y gweithgor y logisteg, gan ymgysylltu â phartneriaid ynglŷn â sut y byddem gyda’n gilydd yn dosbarthu’r gwelyau i’r rhai â’r angen mwyaf. Cytunwyd i lansio ymgyrch ar y fewnrwyd i ofyn i staff gyfrannu dillad gwely, gan ei bod yn debygol na fyddai pobl a oedd yn methu fforddio gwely yn gallu fforddio prynu dillad gwely ychwaith.

Gweithiodd y prosiect yn agos gyda Llywodraeth Cymru, a oedd yn gefnogol iawn. Roedd gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe gyfanswm o 595 o welyau brys ac roedd gan fyrddau iechyd eraill yng Nghymru hefyd niferoedd tebyg, felly byddai ailadrodd y prosiect ar draws Cymru gyfan yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau llawer mwy o bobl. Gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, rhoddwyd y gwelyau yn rhad ac am ddim i'r rhai â'r angen mwyaf yn ein cymunedau.

**Buddiannau’r prosiect**

Manteisio ar gyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau llawer o drigolion Bae Abertawe sy'n wynebu adfyd, a hefyd ffoaduriaid sy'n cyrraedd yma i gael noddfa.

Dangosodd ymchwil bod plant difreintiedig eisoes 18 mis y tu ôl i'w cyfoedion yn addysgol. Mae diffyg cwsg, oherwydd diffyg gwelyau, yn arwain at lefelau canolbwyntio gwael a chyrhaeddiad addysgol is, sydd yn y tymor hir ond yn ehangu’r bwlch anghydraddoldebau sy’n bodoli o fewn ein cymuned.

Rydym yn gwybod yn iawn bod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn rhwystr i roi’r dechrau gorau mewn bywyd i blant a’r cyfle i gyflawni eu potensial. Chwaraeodd y Bwrdd Iechyd ynghyd â phartneriaid ran mewn atal adfyd plentyndod a lliniaru ei effaith ochr yn ochr ag unigolion ac aelodau o’n cymunedau.

**Banc Llaeth**

Sefydlwyd banc llaeth fel rhan o’r hyb cyntaf yng Nghymru i helpu babanod sâl neu gynamserol a, thros amser, mamau sy’n wynebu anawsterau bwydo. Mae’r hyb banc llaeth newydd, sydd wedi’i leoli yn Ysbyty Singleton, Abertawe, yn cyflenwi llaeth dynol i fabanod sy’n derbyn gofal yn yr ysbyty, gyda llawer o’r llaeth yn cael ei gyfrannu gan famau Cymru.

Hyd yn hyn, roedd ysbytai yng Nghymru wedi derbyn llaeth yn uniongyrchol o fanciau llaeth yn Lloegr. Bydd cael hyb llaeth yn lleol yn galluogi i fwy o fenywod Cymru gyfrannu llaeth i helpu i gefnogi mamau a babanod sydd wir ei angen.

Gall llaeth a gaiff ei gyfrannu yn y modd hwn helpu i gefnogi babanod sâl neu gynamserol i fwydo, tyfu a datblygu a gall atal cymhlethdodau, tra hefyd yn cefnogi mamau sydd angen amser i sefydlu eu cyflenwad llaeth eu hunain.

Wrth i'r hyb llaeth ddechrau gweithredu i'w gapasiti llawn, bydd babanod ledled de Cymru yn gallu cael llaeth o'r hyb yn Ysbyty Singleton, gan y bydd yn cyflenwi'r llaeth a gyfrennir i fyrddau iechyd eraill yn Ne Cymru.




*Llun: Y rhewgelloedd yn yr hyb llaeth yn Ysbyty Singleton*

Mae pawb sy'n dymuno rhoi llaeth yn mynd trwy broses sgrinio, sy'n cynnwys holiaduron a phrofion gwaed i ganfod os oes ganddynt unrhyw heintiau. Yna maent yn darparu o leiaf dau litr o laeth dros 10 wythnos, sydd wedyn yn cael ei basteureiddio, cyn ei rewi a'i storio yn barod i'w roi i fabanod.

Cyn hyn, roedd Beiciau Gwaed Cymru, elusen sy'n darparu gwasanaeth negesydd am ddim i'r GIG, wedi bod yn cludo llaeth o Loegr i Ysbyty Singleton ar gyfer babanod mewn angen. Bydd yr elusen yn parhau i ddosbarthu'r cyflenwadau i Abertawe ac i bob un o ranbarthau byrddau iechyd Cymru i'w gwneud hi'n haws i famau a babanod dderbyn y llaeth pwysig hwn.

### Canolfan Iechyd

Cydweithrediad rhwng y Bwrdd Iechyd a Grŵp Tai Coastal i ddatblygu cyfleuster gofal sylfaenol sy'n gartref i feddygon teulu, iechyd cymunedol a gwasanaethau arbenigol mewn amgylchedd modern, pwrpasol. Mae'n ceisio cefnogi llesiant ac atal afiechyd yn yr ystyr ehangaf bosibl, gan ddwyn ynghyd ystod o wasanaethau iechyd a llesiant o dan yr un to, gan ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'r fenter hon yn ymgorffori egwyddorion economi sylfaenol.

**Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned: Treforys**

Mae mentrau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) yn bartneriaethau rhwng ffermwyr a defnyddwyr lle rhennir cyfrifoldebau, risgiau a'r hyn sy'n gwneud ffermio yn werth chweil. Daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gysylltiad ar ôl darganfod bod Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe yn chwilio am gyfleoedd i sefydlu CSAs pellach ar draws ardal ehangach o'r ddinas. Roedd y Bwrdd Iechyd yn berchen ar dir yn Ysbyty Treforys - roedd un rhan yn anaddas ar gyfer datblygu gofal iechyd yn y dyfodol, ond roedd yn ddelfrydol ar gyfer tyfu cnydau.



Y nod oedd datblygu'r safle i dyfu cnydau organig ar gyfer ein poblogaeth leol a fydd yn gwella eu hiechyd a'u llesiant, gan leihau'r bwlch anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli o fewn ein cymunedau.

Un o amcanion y prosiect yw i'r Bwrdd Iechyd gefnogi'r economi sylfaenol drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant buddiol. Yn ogystal, bydd gan y boblogaeth leol fynediad at lysiau organig a dyfir yn lleol a fydd yn helpu i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Bydd y CSA yn cynnig presgripsiynu cymdeithasol, cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant i'n cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r gymuned leol, gan wella iechyd meddwl a llesiant yn yr ystyr ehangaf. Cydweithir gyda'r Awdurdod Lleol ac ysgolion yr ardal fel rhan o'r fenter Ysgolion Iach, gan addysgu plant am fwyd ac o ble mae'n dod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe i weithio gyda nhw i werthuso llwyddiant y rhaglen.

**Tai a'r Blynyddoedd Cynnar**

Fel rhan o'r ymrwymiad a nodir yn y Strategaeth Rheoli Ystadau, mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i weithio gyda phartneriaid a'r Tîm Chwarae i gefnogi darparu cyfleusterau chwarae ychwanegol ar stadau tai cyngor i helpu i gynyddu'r cyfleoedd chwarae i blant lle bynnag y bo modd, gan gynnwys creu man chwarae newydd ym Mhenlan yn ystod 2021/22.

# Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda



**I wneud Abertawe'n lle gwych i fyw'n dda a heneiddio'n dda.**

**Arweinydd –** Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu gan y gweithgor Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a'i arwain gan Gyngor Abertawe.

**Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith**

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Pobl 50+ yn y Rhwydwaith Heneiddio'n Dda | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru | Cyngor Abertawe | Cymdeithasau Tai |
| Prifysgol Abertawe | Heddlu De Cymru | Y Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol |
| Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ag ysgolion a lleoliadau cymunedol | Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r Fforwm Rhieni a Gofalwyr | Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r Fforwm Cydgynhyrchu |

Mae cyfathrebu yn parhau trwy ein gwaith fforwm gyda dinasyddion a thrwy ein partneriaid Byw'n Dda Heneiddio'n Dda.

Mae cynrychiolwyr o'r 3 amcan BGC arall yn aelodau/cyfranogwyr o'r "Rhwydwaith Hawliau Plant" a'r "Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda" ac adolygwyd aelodaeth y ddau grŵp ym mis Gorffennaf 2021.

Ceir cysylltiad ag Amcan Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod dull a llwybr di-dor ar draws yr ystodau oedran, a gwnaed cysylltiadau gyda'r amcan Cymunedau Cryfach i ddeall y tebygrwydd rhwng y ddau amcan er mwyn osgoi dyblygu.

Wrth i ni i gyd fyfyrio ar ffocws yr amcanion wrth symud ymlaen, mae angen i ni wneud yn siŵr bod cysylltiadau cryf a dealltwriaeth rhwng yr amcanion gan eu bod yn gyson.

Mae meysydd ffocws gwreiddiol yr Amcan "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda" y BGC yn aros yr un fath a chânt eu hadolygu fel rhan o'r asesiad llesiant newydd:

- **Newid mewn Diwylliant -** dechrau trafodaeth ar draws cenedlaethau am yr hyn y mae'n ei olygu i fyw a heneiddio'n dda a datblygu ymgyrch yn seiliedig ar yr adborth.

- **Dulliau arloesol o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol -** Cefnogi Cymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia a gwneud y mwyaf o'r dulliau presennol ac archwilio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ofal diwedd oes

- **Dulliau cymunedol** - Archwilio ystod o fentrau i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a meithrin cydnerthedd personol ar draws BGC a'r sector gwirfoddol

- **Tai a thechnoleg arloesol -** Archwilio opsiynau ar gyfer pobl ag anghenion gofal ychwanegol sy'n eu helpu i aros yn annibynnol gartref.

- **Gwneud i bob cyswllt gyfrif -** Datblygu a rhannu negeseuon ac adnoddau ar y cyd sy'n cefnogi pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi.

Nod yr Amcan Byw'n Dda Heneiddio'n Dda yw gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw a heneiddio'n dda, lle mae pobl yn cael eu cefnogi i fod yn ddiogel, yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ddatblygu dulliau a gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth a chydnerthedd ar draws cymunedau, gan symud i ffwrdd oddi wrth y model cyflenwi gwasanaethau, a newid y berthynas rhwng y cyhoedd a gwasanaethau.

Mae'n bwysig ein bod yn gofyn ac yn deall beth sy'n bwysig i unigolion a beth fyddai'n helpu i adeiladu cymunedau hyderus, iach a chydnerth.

**Trosolwg o'r gwaith o fewn yr Amcan Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda:**

Mae cefnogi hawliau pobl yn ystod COVID 19 mor bwysig ag erioed. Dengys tystiolaeth sut mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol ac wedi effeithio ar hawliau, gyda dinasyddion yn cael eu gwthio i dlodi, anghydraddoldeb yn ehangu'n amlwg, ac iechyd meddwl sy'n gwaethygu yn enwedig i'r rhai sy'n agored i niwed.

Er mwyn gwella'n effeithiol ar ôl y pandemig, bu'n rhaid addasu sut yr ydym i gyd yn byw ac yn gweithio, gan bwysleisio pwysigrwydd hyd yn oed mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws pob sector i gefnogi pobl i barhau i gael mynediad at wasanaethau hanfodol a mynd i'r afael â materion llesiant yn ystod cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Gwnaed llawer o gynnydd yn erbyn llawer o'r 'camau' a amlinellir yn y Cynllun Llesiant, fel y dangosir isod.

**Newid mewn Diwylliant:**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaed gwaith sylweddol i archwilio sut y gallwn yn Abertawe ymgorffori dull parhaus o ymdrin â hawliau dynol ar draws cyfnodau bywyd, gan sicrhau bod pob dinesydd yn cael cyfle i gyrchu a mwynhau ei hawliau o'r eiliad y maent yn cael eu geni, gan fyw'n dda a heneiddio'n dda trwy gydol eu cwrs bywyd.

Fel rhan o gynlluniau i gefnogi'r adferiad ar ôl COVID, mae sylw wedi troi at gydgynhyrchu mecanweithiau cynhwysol, pwrpasol i ymgysylltu â dinasyddion o bob oed i sicrhau y gellir ymgysylltu'r rhai a fyddai, yn draddodiadol, yn cael eu hymyleiddio o gyfranogiad dinesig. Er enghraifft, cynhwysir y rhai sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig ac/neu anghenion ychwanegol, diffyg hyder, neu nad ydynt eisiau ymrwymo i swyddi etholedig ffurfiol ond yn yr un modd sydd â hawl i leisio barn mewn penderfyniadau, newidiadau mewn gwasanaeth a chynlluniau dinas.

Mae ymgysylltu a chyfranogiad wedi parhau i fod yn nodwedd ganolog o waith Abertawe i ymgorffori dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau. Mae defnyddio dulliau partneriaeth i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol, sefydlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a gwireddu hawliau i bobl 50+ fyw yn dda a heneiddio'n dda yn Abertawe oll wedi cyflwyno mecanweithiau sy'n galluogi rhoi gwrandawiad ystyrlon i bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau a wneir, gan helpu i yrru newid diwylliannol yn ei flaen.

**Ymgorffori Hawliau Dynol trwy Ddull "Y Ffordd Iawn":**

Mae gwaith wedi dechrau i fapio'r themâu a'r gwahaniaethau cyffredin yn y strategaeth Genedlaethol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn ogystal â dinasyddion 50+ oed er mwyn deall sut beth yw "Dinas i bawb". Mae hyn yn cynnwys cymryd themâu o adroddiad "Gadael neb ar ôl" y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer "Cymdeithas sy'n Heneiddio", galwad CCUHP am dystiolaeth, Arolwg Coronafeirws a Fi ac adborth gan ddinasyddion i sefydlu fframwaith cyffredin wedi'i danategu gan Hawliau Dynol.

Mae Cynllun Hawliau Plant Abertawe, a fabwysiadwyd yn 2014, wedi'i ailddatblygu a'i adnewyddu, gan sicrhau ei fod yn ategu'r 'Ffordd Iawn', dull egwyddorol sy'n cael ei wreiddio'n genedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Dull Seiliedig ar Hawliau i Blant, ac mae'n ystyried gwaith helaeth blaenorol gyda phlant, pobl ifanc ac ymarferwyr ar sut y gallai Cynllun newydd edrych.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer "Cymdeithas sy'n Heneiddio" hefyd yn tynnu sylw at ddull egwyddorol 'Y Ffordd Iawn' o ymdrin â hawliau fel fframwaith ar gyfer ymgorffori hawliau dynol wrth gefnogi pobl hŷn yng Nghymru. Archwiliwyd potensial Siarter ddrafft ar gyfer Dinasyddion 50+, a allai annog adrannau'r Cyngor i addo cyflawni'r tasgau diriaethol sydd eu hangen i ymgorffori arfer yn seiliedig ar hawliau yn y maes gwaith hwn.

Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i fapio 8 parth Dinas sy'n Ystyriol o Oed, gyda themâu allweddol 'Gadael Neb ar Ôl', y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n

Heneiddio yn erbyn 5 egwyddor Y Ffordd Iawn mewn cynllun gweithredu. Byddai hyn o gymorth wrth adrodd ar ein cynnydd ar bob egwyddor, felly rydym yn cydnabod sut mae cyflawni pob un yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Ddinasyddion 50+ gael mynediad at eu hawliau a'u mwynhau. Mae hefyd yn cynnig ffordd graff o ddod â llawer o gydrannau ynghyd o'r hyn yr ystyrir sy'n gyrru'r agenda Heneiddio'n Dda yn lleol ymlaen yn llwyddiannus.

**Cyfranogiad gyda Dinasyddion ar draws yr Ystod Oedran**

**Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc:**
Yn Abertawe, mae cyfleoedd ystyrlon a chynhwysol i blant a phobl ifanc gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn flaenoriaeth. Ers 2014, gelwir y mecanwaith sirol i sicrhau hyn yn Sgwrs Fawr, gan gynnig cyfleoedd i bron i 10,000 o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed ymgysylltu a chael eu clywed.

Roedd y Pandemig yn golygu bod rhaid meddwl sut a ble rydyn ni'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr amser newydd a digynsail hwn o weithio. Ymgymerwyd ag ymgysylltu â 328 o blant, pobl ifanc, teuluoedd, ymarferwyr a data rhwng Ebrill-Medi 2020 i ddeall sut beth fyddai ymgysylltiad da erbyn hyn. Gwnaed dau ddarn penodol o waith yn 2021/22 i weithredu ar yr adborth a gafwyd:

1. *Adolygu ac adnewyddu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe, gan gynnwys dulliau SMART a chadarn ar gyfer mesur a dangos ei effaith ar fywydau plant;*

Cydgynhyrchwyd Cynllun drafft a bu cyfnod o ymgynghori pellach yn ystod Mehefin-Awst 21. Cytunwyd ar bob egwyddor fel yr egwyddor iawn, gydag adborth cryf yn pwysleisio'r angen am ddangosyddion perfformiad cadarn, mesuradwy i'w cefnogi.

Ers lansio’r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc diwygiedig ar Ddiwrnod Cyffredinol y Plant ym mis Tachwedd 2021, bu'n flaenoriaeth gennym i weithio ar ddod â phobl ynghyd i bennu dangosyddion perfformiad ar gyfer sut i wneud hawliau’n realiti yn ymarferol, a sut i fesur hynny.

Daeth 30 aelod o Rwydwaith Hawliau Plant Abertawe ynghyd ym mis Ionawr 2022 i ddechrau’r broses o gydgynhyrchu, gan ddrafftio dangosyddion yn seiliedig ar 5 egwyddor ein dull cytunedig sy'n seiliedig ar hawliau. Mae dau weithgor wedi parhau â'r broses gynhyrchu (un sy'n canolbwyntio ar Gyfranogiad a Grymuso, ac un sy'n canolbwyntio ar Ymgorffori, Atebolrwydd a Chydraddoldeb). Ar yr un pryd, gwnaed gwaith i hwyluso sesiynau gyda 233 o blant a phobl ifanc o 11 ysgol i benderfynu pa gamau y dylai'r Cyngor eu cymryd yn eu barn nhw, a pha fesuriadau i'w defnyddio. Yn bennaf, dewisodd pob plentyn ganolbwyntio ar Gydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu neu Gyfranogiad fel eu hegwyddorion o ddewis. Mae’r gwaith hwn wedi’i ddefnyddio gan aelodau’r Rhwydwaith Hawliau Plant i lywio datblygiad dangosyddion perfformiad Cynllun Gweithredu CCUHP.

Hefyd, cyflwynwyd y wybodaeth ar ran y plant i ymgynghoriad y Ddinas Hawliau Dynol fel ffordd o hysbysu’r gwaith hwnnw.

2. *Datblygu ymhellach fecanweithiau addas i'r diben, ystyrlon a chynhwysol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc 0-18 oed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt:*

O ganlyniad i ymgynghori â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn 2020, gosodwyd y blaenoriaethau canlynol fel gwaith a fyddai'n cynnwys gwaith y 'fforwm sir gyfan' yn Abertawe:

- Cynnwys pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth
- Sicrhau cydraddoldeb LGBTQ+
- Gwrando ar lais casgliadol dysgwyr
- Amddiffyn diogelwch menywod ifanc mewn mannau cyhoeddus
- Diogelu'r amgylchedd a mannau gwyrdd
- Gwrando ar leisiau tawel
- Cefnogi plant anabl i gael eu clywed

Bu'n bwysig cydnabod mai dim ond un rhan o wrando yw'r mecanweithiau fforwm. Mae gwreiddio hawliau dynol plant fel rhan o'n hymrwymiad i CCUHP angen dull partneriaeth o ymgysylltu a chynnwys. Bu ymdrech adrannau i addasu a newid i barhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn sylweddol ac yn effeithiol.

**Cynnwys pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth:**

Dyfarnwyd tendr i MAD Abertawe sydd wedi gweithio gyda 30 o ddisgyblion uwchradd o YGG Bryn Tawe ac YGG Gwyr i ddatblygu fideo cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo pleidleisiau yn 16 oed, newidiadau yn y gyfraith sy'n galluogi pobl ifanc i bleidleisio, pleidleisio fel hawl ddemocrataidd a gwybodaeth am sut i gofrestru i bleidleisio. Mae 'Eich Pleidlais, Eich Dyfodol' yn cael ei ddefnyddio fel offeryn hyrwyddo yn y cyfnod cyn etholiadau lleol ac mae ar gael ar https://www.swanseamad.com/vote/.

Aethpwyd ati i recriwtio Llysgenhadon Pleidleisio yn 16 oed, ac mae 19 o lysgenhadon wedi'u recriwtio'n llwyddiannus o 10 ysgol uwchradd. Rôl y llysgenhadon fu hyrwyddo ac annog eu cyfoedion i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiadau sydd ar y gweill. Mae llysgenhadon wedi cael eu cefnogi mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid i hyrwyddo pleidleisiau yn 16 oed a chofrestru i bleidleisio. Mae'r prosiect Llysgenhadon Pleidleisio yn 16 oed yn brosiect cydweithredol rhwng y Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Partneriaeth a Chynnwys ac ysgolion uwchradd.

Datblygwyd pecyn adnoddau gyda phobl ifanc i gefnogi llysgenhadon i annog cofrestru i bleidleisio ymhlith eu cyfoedion, gan gynnwys posteri, deunydd hyrwyddo, cyfleoedd i gofrestru i bleidleisio yn ystod amser ysgol, sesiynau gwasanaeth, cynlluniau gwersi i ysgolion eu defnyddio, a bathodynnau 'mae eich pleidlais yn bwysig' i ddisgyblion. Rydym hefyd wedi cael bathodynnau pin 'llysgennad' a beiros ar gyfer ein llysgenhadon, a digon ohonynt i uwch swyddogion y cyngor allu eu gwisgo i hyrwyddo hawl pobl ifanc i bleidleisio yn yr etholiadau sydd ar y gweill.

Hefyd, dyluniwyd posteri newidiadau cofrestru a phleidleisio yn 16 oed i'w rhannu a'u hyrwyddo mewn lleoliadau canol dinas, ac adeiladau cymunedol. Mae 27 o sefydliadau

yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi cytuno i gymryd posteri a hyrwyddo'r newid yn y Gyfraith yn y Ddinas.








**Bwrdd Diogelu Iau Abertawe Castell-nedd Port Talbot: Sicrhau Cydraddoldeb LGBTQ+**

Bu 26 o bobl ifanc o Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc o Gastell-nedd Port Talbot fel aelodau o Fwrdd Diogelu Iau Bae'r Gorllewin i ddatblygu pecyn adnoddau LGBTQ+ ar gyfer ysgolion. Mae 'Equali-tea' yn becyn sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion LGBTQ+ a wynebir gan bobl ifanc yn lleol, yn seiliedig ar y materion a godwyd gan bobl ifanc eu hunain, ac mae'n cynnwys cwisiau hanes LGBTQ+, dechreuwyr sgyrsiau tebot, a phadiau sgriblo sy'n galluogi pobl ifanc i drafod materion LGBTQ+ a wynebir yn yr ysgol, yn y teulu ac yn y gymuned.

Mae pecynnau 'Equali-tea' wedi'u dosbarthu i bob ysgol uwchradd yn CNPT ac Abertawe ac mae'r Tîm Partneriaeth a Chynnwys wedi hwyluso addysgu'r pecyn mewn dwy Ysgol Uwchradd sydd wedi gofyn am gymorth. Mae hyn wedi golygu addysgu 'Equali-tea' i dros 180 o ddisgyblion yn y chwarter hwn.

Hefyd, mae'r Bwrdd Diogelu Iau sy'n cynnwys 23 o bobl ifanc wedi hwyluso 3 sesiwn ar y pecyn gydag uwch benderfynwyr – 1) gyda CMET yn Abertawe (yn enwedig gweithgor y Bwrdd sy'n edrych ar gydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu), 2) gyda Bwrdd Rhianta Corfforaethol CNPT, a 3) gyda Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin. Ystyriwyd pob sesiwn yn hynod lwyddiannus gan yr oedolion a gymerodd ran.

Mae angen sefydlu cynlluniau i ehangu'r defnydd o becyn 'Equali-tea' mewn ysgolion, e.e. ymwybyddiaeth ehangach mewn ysgolion uwchradd am y pecyn, ac o bosibl ei ymestyn i ysgolion cynradd (yn seiliedig ar geisiadau gan blant ysgol gynradd).

Arweiniodd estyniad o'r gwaith hwn at weithio gyda phobl ifanc a Fforwm LGBT Abertawe i ystyried ffyrdd o hyrwyddo'r Cyngor fel sefydliad Cynghreiriol. Cafwyd deunyddiau megis bathodynnau pin a bagiau cario i gynrychioli 'Ally-ship' y gellir eu dosbarthu i staff ac aelodau'r cyhoedd mewn digwyddiadau allgymorth. Mae'r gwaith hwn mewn partneriaeth â'n Cynghorydd Hyrwyddwr ac aelod o'r Cabinet perthnasol.










**Gwrando ar lais casgliadol dysgwyr**
Daeth Cymuned Ddysgu Broffesiynol Llais y Disgybl (o athrawon a disgyblion ysgolion uwchradd) ynghyd i weithio gyda disgyblion i ddatblygu ‘Maniffesto llais y disgybl’. Mae dysgwyr wedi bod yn gweithio'n galed i bennu materion sy'n bwysig iddyn nhw a chynhyrchu maniffesto i uwch benderfynwyr yn Abertawe ymateb iddo a gweithredu arno yn ystod y misoedd nesaf. Arweinir y gwaith hwn gan Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt a'i gefnogi gan y Tîm Partneriaeth a Chynnwys.

**Amddiffyn diogelwch menywod ifanc mewn mannau cyhoeddus**
Yn dilyn achosion Sarah Everard a Sabina Nessa, mae diogelwch menywod ifanc mewn mannau cyhoeddus wedi dod yn broblem sy'n dod i'r amlwg i bobl ifanc yn Abertawe.
Cymerodd 37 o bobl ifanc ran mewn sgyrsiau lleol a hwyluswyd gan Gyngor Abertawe, Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i archwilio sut mae pobl ifanc yn teimlo am ddiogelwch menywod ifanc yn lleol. Mae’r sgyrsiau hyn yn cynnwys deall y materion o safbwynt menywod ifanc, ond hefyd cynhaliwyd sesiynau yn benodol ar gyfer dynion ifanc fel rhan o Ddiwrnod y Rhuban Gwyn a’r ymgyrch ‘All Men Can’. Cyflwynwyd yr adborth i fforwm rhanbarthol, lle roedd pobl ifanc yn gallu trafod eu problemau gyda swyddogion fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Comisiynydd Plant, gyda’r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu a sicrhau newid.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, mae’r Tîm Partneriaeth a Chynnwys, mewn partneriaeth â Datblygu Chwaraeon, yn cydweithio i lansio’r sesiwn gyntaf ‘Ni Ferched’ sydd wedi’i hanelu’n benodol at ferched ifanc 14-18 oed. Mae'r sesiwn hon yn rhan o brosiect ehangach 'Ni Ferched' ond mae wedi'i neilltuo'n unigryw i ferched hŷn a bydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch personol. Bydd y sesiwn hanner diwrnod yn cael ei rhannu'n dair adran a bwriedir ei chynnal dros y Sulgwyn:

- Sesiwn blasu chwaraeon (yn seiliedig ar faterion a godwyd am gyfleoedd penodol menywod ifanc i wneud ymarfer corff);
- Sesiwn JUDO arbenigol (yn seiliedig ar gais am offer ar gyfer diogelwch personol a hunanamddiffyn), a;

- Sesiwn ymgynghori lle byddwn yn archwilio ymhellach ein canfyddiadau o'n gwaith diogelwch ar gyfer menywod ifanc i nodi'r camau nesaf. Er enghraifft, mae cyfle wedi codi i gysylltu â ParkLives i hwyluso sesiynau 'soffa i 5k' penodol i fenywod ifanc (yn debyg i'r teithiau cerdded iechyd) lle gall ParkLives/Datblygu Chwaraeon/Tîm Partneriaeth a Chynnwys hwyluso sesiynau rhedeg diogel ac ymroddedig i fenywod ifanc - gall yr ymgynghoriad roi gofod i weld a oes ei eisiau o hyd, ac os felly, ble a phryd.

**Clywed lleisiau plant a phobl ifanc anabl**

Mae prosiect peilot newydd wedi dechrau yn Ysgol Pen y Bryn lle mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant HMS ar yr hyn y mae'n ei olygu i ymgorffori dull egwyddorol o ymdrin â hawliau plant yn eu cwricwlwm newydd.

Dechreuodd y gwaith gyda disgyblion a staff i fapio'r arfer hawliau da presennol, a meysydd i'w datblygu, a bydd cynllun 5 pwynt ar gyfer gwreiddio hawliau yn cael ei gydgynhyrchu gan athrawon, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.

Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ddatblygu adnodd cenedlaethol sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni eu hymrwymiad i'r hawliau a amlinellir yn y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, h.y. i hybu gwybodaeth am CCUHP, yn ogystal â deall egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i gefnogi disgyblion ag ADY a/neu sy'n anabl. Mae'r gwaith hwn yn ddarn o waith partneriaeth gyda'r gwasanaeth Addysg, Partneriaeth a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Mae astudiaeth achos o'r prosiect hwn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i lywio pecyn cymorth ADY Cenedlaethol sy'n arddangos yr arferion gorau yn seiliedig ar hawliau ADY. Bydd hwn yn cael ei gynnal ar wefan Comisiynydd Plant Cymru.

**Gwaith i'r Dyfodol:**

Yn seiliedig ar gytundebau a wnaed yn y Cyngor Llawn wrth gymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc, mae'r gwaith canlynol yn parhau i fod heb ei gyflawni ac angen ei ddatblygu:

- Lleisiau tawel – mae angen gwaith i ddeall a dod â rhanddeiliaid ynghyd a all gefnogi datblygiad systemau i'r rhai sydd anoddaf i ymgysylltu â nhw, boed hynny oherwydd problem gallu neu fynediad i systemau cyfredol. Mae angen gwaith hefyd i ymestyn y mecanweithiau ymgysylltu presennol y tu hwnt i leoliad yr ysgol ac yn ôl i leoliadau cymunedol wrth iddynt ailagor a gwella ar ôl Covid-19.
- Gwrando ar blant anabl – mae angen gwaith i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddeall sut y gallwn wrando'n well ar lais plant anabl, mewn ffordd briodol ac ystyrlon. Cynhaliwyd sgyrsiau ad-hoc cychwynnol gyda Rhieni sy'n Ofalwyr ynghylch y potensial i ystyried gwybodaeth hygyrch fel man cychwyn, ond mae angen meddwl a datblygu hyn ymhellach.
- Argyfwng hinsawdd a natur – mae angen gwaith i adeiladu a datblygu blaenoriaethau gyda phlant a phobl ifanc ar eu dewis flaenoriaeth, yn ogystal â chysylltu â gwaith ehangach y Cyngor sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y Ddinas Hawliau Dynol:**
Cynigiwyd cymorth pwrpasol a phenodol i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gynnwys yn natblygiad gwaith Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol. Mae 138 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn sesiynau gydag aelod cabinet arweiniol y mentrau i ddylanwadu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwreiddio Hawliau Dynol ar draws y ddinas wrth symud ymlaen.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn Chwarae**
**Erthygl 31 CCUHP – Hawl i Orffwys, Hamdden a Chwarae:**
Mae'r hawliau sy'n ffurfio Erthygl 31 yn parhau i gael eu hystyried yn faes hollbwysig i'w ystyried yn Abertawe oherwydd rôl hanfodol chwarae yn natblygiad iach pob plentyn a pherson ifanc. Os rhywbeth, mae cyfleoedd i chwarae, i gwrdd â ffrindiau ac i gael yr amser i fod yn nhw eu hunain, ac ailddarganfod eu hunain, wedi bod yn bwysicach nag erioed dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Effeithiwyd ar lawer o gyfleoedd chwarae hanfodol gan y cyfyngiadau symud sy'n gysylltiedig â Covid, cadw pellter cymdeithasol a gostyngiad mewn rhyngweithio anffurfiol mewn ysgolion. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu chwarae a mynd i'r afael â'i ddigonolrwydd wedi bod yn awyddus i sicrhau bod yr effaith hon yn cael ei chydnabod a bod ymateb effeithiol yn cael ei roi ar waith.

Eleni, bu'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022. Roedd ymgynghori yn rhan hanfodol o'r broses hon, a roddodd gyfle i blant a phobl ifanc lunio dyfodol eu cyfleoedd chwarae yn Abertawe. Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Ymgysylltu â dros 200 o blant a phobl ifanc drwy ddefnyddio grwpiau ffocws, cyfarfod â chynghorau ysgol a sesiynau rhyngweithiol i glywed syniadau gwahanol.
- Ymgysylltu â grwpiau o bobl ifanc, fel clwb ieuenctid 'Good Vibes' LGBTQ+ YMCA
- Cynhaliwyd arolwg ar-lein gan fod rhai cyfyngiadau yn dal yn eu lle ar adeg yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb.
- Cynhaliwyd gweithdai digonolrwydd chwarae ar-lein lle gallai rhieni/gofalwyr ddod draw i rannu barn eu plentyn am chwarae os oedd gan eu plentyn angen ychwanegol. Roedd hyn yn cefnogi ymgysylltiad ychwanegol â phlant ag anghenion ychwanegol trwy grwpiau cynrychioliadol.
- Mae buddsoddiad y Cyngor yn ei feysydd chwarae yn bwnc yr oedd llawer yn hapus i'w ganmol, gan nodi ei fod wedi darparu gwell cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc ar draws Abertawe.

Mae Rhwydwaith Chwarae Abertawe wedi parhau i gyfarfod, er yn fwy anffurfiol ac yn rhithwir, i drafod ac ymateb i'r effaith ar gyfleoedd i chwarae. Mae hyn wedi sicrhau bod pob oed, angen, cefndir a diddordeb yn cael eu hystyried, o ran cynllunio cyfredol ac wrth ddatblygu cynllun gweithredu 3 blynedd ar gyfer Digonolrwydd Chwarae a fydd yn ystyried ac yn ceisio bodloni hawl pob plentyn a pherson ifanc i chwarae.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn cynhwysiant cymdeithasol:**
Cyn y cyfyngiadau symud, cyfarfu grŵp o 60 o bobl ifanc o bob rhan o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Phen-y-bont ar Ogwr, a oedd rhwng 11-18 oed, fel rhan o

raglen cyfranogiad ac ymgysylltu gwirfoddol o'r enw 'School Swap'. Daeth y grŵp at ei gilydd i drafod materion pwysig a rhannu eu profiadau personol, eu teimladau a'u hemosiynau ar bynciau megis hiliaeth, crefydd, diwylliant, a chefndiroedd cymdeithasol.

Nod 'Celf yn y Ddinas' yw annog grŵp amrywiol o bobl sy'n pontio'r cenedlaethau i gydweithio mewn lleoliad cymunedol i drafod materion sy'n effeithio arnynt yn y gymuned yn ymwneud â throseddau casineb/ digwyddiadau casineb (graffiti sarhaus yn bennaf). Mae'r grŵp yn cymryd rhan mewn trafodaethau wedi'u hwyluso sydd wedi arwain at weithdai a gefnogir gan artistiaid yn Fresh Creative. Nod y gweithiau celf hyn yw dathlu amrywiaeth ac annog pobl i fod yn barchus yn ein cymunedau. Mae gwerthusiadau, darnau o waith, dyfyniadau manwl, a gweithiau celf a gynhyrchwyd gan bobl ifanc yn ystod y gweithdai 'School Swap' wedi'u rhannu ag Artistiaid yn Fresh Creative Co a gafodd eu hysbrydoli i gynhyrchu dau furlun bywiog y mae'r cwmni adeiladu Bouygues UK wedi'u harddangos ar Stryd Rhydychen yn Abertawe. Y gobaith yw y bydd pobl yn gweld y murluniau hyn ac yn teimlo cysylltiad â'u hardal leol wrth i'r negeseuon hyrwyddo cymunedau heddychlon ac integredig.

**Cyllid i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc: Haf o Hwyl a Gaeaf o Lesiant:**
Darparodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn yn haf 2021 i awdurdodau lleol ddatblygu rhaglenni gweithgareddau rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi. Nod y rhaglen oedd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed a darparu cyfleoedd na fyddent yn eu cael heb y cymorth hwn. Roedd hyn mewn ymateb i blant a phobl ifanc fod wedi colli cymaint dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn Abertawe, dyrannwyd dros £400,000 i 83 o brosiectau gan yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddarparu rhaglen amrywiol o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, gweithgaredd corfforol, diwylliannol, addysgol, celf a chrefft, iechyd a llesiant emosiynol a darpariaeth ieuenctid, trwy proses grantiau bach. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar 10,000 o fynychwyr unigol i brosiectau gwaith ieuenctid, Plant a Theuluoedd, cynhwysiant, pyrth a darpariaeth gweithgaredd ysgol.
Oherwydd llwyddiant yr Haf o Hwyl, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ryddhau cyllid ar gyfer Gaeaf o Lesiant. Unwaith eto, defnyddiodd Abertawe broses grantiau bach i ddyrannu dros £500,000 i 93 o brosiectau. Mewn arolwg diwedd prosiect, lle ymatebodd 53 o'r 93 o brosiectau, adroddwyd eu bod wedi cyrraedd dros 8,200 o bobl (gyda chyfartaledd o 155 fesul prosiect), sy'n dangos bod cyfanswm cyrhaeddiad o 14,000 o unigolion wedi mynychu prosiectau a oedd yn derbyn cyllid. Ariannwyd 35 o ddarpariaethau newydd yn y rownd ariannu hon.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr adolygiad o Hybiau Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Ieuenctid:**
Fel rhan o ailstrwythuro gwasanaethau, cynhaliwyd adolygiad bach o wasanaethau ieuenctid. Fel rhan o hyn, ymgysylltwyd â phlant ar draws Abertawe a rhoddwyd cyfle iddynt roi adborth ar sut wasanaeth yr oeddent eisiau i'w gwasanaeth ieuenctid fod. Roedd yr ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys staff a rhanddeiliaid. O ganlyniad i hyn, cafwyd buddsoddiad pellach sylweddol yn y gwasanaeth ieuenctid. Roedd canfyddiadau cynnar/adborth gan bobl ifanc yn dangos eu bod eisiau mwy o ddarpariaeth. O ganlyniad i hyn, bydd yr holl weithwyr ieuenctid yn cael y cyfle i

gynyddu eu horiau o 9 yr wythnos i 15, bydd Swyddogion Datblygu’r Ganolfan Ieuenctid yn mynd yn llawn amser a phenodir rheolwr ieuenctid newydd i oruchwylio’r holl waith hwn.

**Gwrando ar bobl 50+ oed:**
Yn Abertawe, mae cyfleoedd ystyrlon a chynhwysol i bobl 50+ gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Roedd y Pandemig yn golygu bod rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i sut a ble roeddem yn ymgysylltu â’r cyhoedd yn y cyfnod gwaith newydd a digynsail hwn. Ymgymerwyd ag ymgysylltu â phobl 50+ oed ac ymarferwyr rhwng Gorffennaf a Medi 2021 er mwyn deall sut y gallent gyfranogi mewn modd ystyrlon ac ymdrin â'r blaenoriaethau oedd yn dod i’r amlwg.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol rhwng Awst a Medi 2021 mewn perthynas â “Gwrando ar Bobl 50+” yn Abertawe, er mwyn nodi rhwystrau i ymgysylltu, a'r mecanweithiau a ffefrir er mwyn i **bawb** gael llais ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, a’r blaenoriaethau a nodwyd i wneud Abertawe'r lle gorau i fyw a heneiddio'n dda ynddo. Yn ystod yr ymgynghoriad, cwblhaodd 236 o gyfranogwyr yr arolwg ar-lein a chymerodd 200+ o bobl 50+ oed ran mewn gweithgarwch anffurfiol a thrafodaethau ynghylch gwella cyfleoedd ymgysylltu i bobl 50+ mewn digwyddiadau cymunedol a sesiynau paned a sgwrs. Daeth canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r casgliad bod angen mecanweithiau anffurfiol ac amrywiol yn y gymuned i sicrhau dull cynhwysol sy'n diwallu anghenion yr unigolion sy'n cymryd rhan. Yn yr ymgynghoriad “Gwrando ar Bobl 50+” nododd cyfranogwyr hefyd mai’r materion allweddol yr hoffent weithio arnynt i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw yw:

1. Trafnidiaeth
2. Arwahanrwydd Cymdeithasol
3. Heneiddio Egnïol
4. Gwasanaethau a Chymorth
5. Cydraddoldeb Digidol
6. Gwybodaeth a Chyfathrebu
7. Gwella Abertawe

O ganlyniad i adborth gan y cyhoedd, cafodd gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb rheolaidd eu cynnal yn wythnosol ers mis Hydref 2021, i feithrin perthnasoedd, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu cyfleoedd i gael llais ar faterion sy’n effeithio ar fywydau pobl 50+ yn Abertawe.

**Recriwtio Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Pobl Hŷn:** Crëwyd a phenodwyd i’r swydd hon ym mis Gorffennaf 2021 gyda’r diben o ymgorffori Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a sicrhau bod mecanweithiau effeithiol a chynhwysol ar waith i alluogi cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl 50+ oed, ym mhob penderfyniad sy’n effeithio ar eu bywydau a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Mae’r swyddog wedi gwneud cynnydd aruthrol o ran creu cyfleoedd ymgysylltu wythnosol ac wedi hwyluso amrywiaeth o fecanweithiau i wasanaethau a sefydliadau gysylltu â’r gymuned i wella hygyrchedd gwasanaethau, mynd i’r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, a hwyluso mentrau cymunedol a gyfarwyddir gan aelodau’r gymuned i alluogi pobl i fyw eu bywydau gorau a heneiddio'n dda.

**Mecanweithiau ymgysylltu anffurfiol ar gyfer pobl 50+ Taith Gerdded Marina Wythnosol:**

Dechreuodd teithiau cerdded wythnosol y Marina i annog cyfleoedd ymgysylltu "Cerdded a Siarad" ar 4 Tachwedd 2021 a gydlynwyd gan "Dîm Partneriaeth a Chynnwys" Cyngor Abertawe gyda chefnogaeth nifer o bartneriaid a gwasanaethau.



Mae'r sesiynau cerdded a siarad yn croesawu cyfranogwyr 50+ o alluoedd cymysg. (Gŵr bonheddig 92 oed yw'r cyfranogwr hynaf hyd yma).

Mae nifer y cyfranogwyr wedi cynyddu o wythnos i wythnos ac mae sesiynau bellach yn darparu ar gyfer dros 60 o gyfranogwyr. Mae'r galw am sesiynau "siarad a cherdded" o'r fath wedi gweld cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan bartneriaid a nifer o Wasanaethau'r Cyngor i sicrhau cyfle diogel ac ystyrlon i bawb. Tra ar y daith gerdded ac yn y paned dilynol, mae cyfranogwyr yn gallu ymgysylltu â Swyddogion y Cyngor, Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partner ac ati er mwyn deall yn well a chael mynediad at wasanaethau a chymorth os oes angen.

**Te a Sgwrs Wythnosol:**

Dechreuodd y sesiynau "Te a Sgwrs" wythnosol am ddim ar ddydd Gwener 22 Hydref 2021 yn y Swigg yn Abertawe ac mae'n cynnig lle rheolaidd i gyfranogwyr wneud ffrindiau newydd, meithrin perthnasoedd, derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol/newidiadau gwasanaeth neu ddatblygiadau arfaethedig gyda chefnogaeth gan yr arweinwyr gwasanaeth neu sefydliadau cysylltiedig, a bod â'r gallu i godi anghenion cymorth a chael cymorth i gwblhau gwaith papur neu ffurflenni ar-lein trwy swyddogion y "Tîm Partneriaeth a Chynnwys" lle bo angen. (Sesiynau wythnosol gyda 40+ o gyfranogwyr)

Cynhelir sesiynau mewn partneriaeth ag Action For Elders, Freedom Leisure, Cymdeithas Tsieineaidd Cymru a Chymdeithas Tai Caredig, ac ati.










**Ymgysylltu ag LGBT+ 50+:**
Gweithiodd y Tîm Partneriaeth a Chynnwys gyda chydweithwyr Mynediad i Wasanaethau i hwyluso seminar “Diwrnod Cofio Trawsrywiol” lle’r oedd 42 o fynychwyr a chyfres o siaradwyr gwadd.

Bu cyfarfodydd Trawsrywiol Misol yn rhedeg yng Nghlwb Rygbi Glais mewn partneriaeth â Tawe Butterflies lle mae 40+ o aelodau yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd. Mae amrywiaeth o fentrau a phrosiectau yn cael eu datblygu.

Ar y cyd ag Re-engage, mae'r “Tîm Partneriaeth a Chynnwys” yng Nghyngor Abertawe yn hwyluso sesiwn “Te a Sgwrsio” LGBTQ 50+ wythnosol yng Nghaffi'r Arfordir ym Marina Abertawe, a ddechreuodd ar Chwefror 21 ac sy'n rhoi cyfle i gyfranogwyr gael lle rheolaidd i gwrdd â ffrindiau newydd, derbyn gwybodaeth am wasanaethau, y gweithgareddau a chymorth sydd ar gael, a chymryd rhan mewn lleisio eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Ymgysylltu â BAME 50+:**

Digwyddiad Nadolig Swan Garden Rhagfyr 2021 – daeth 45 o bobl i ddigwyddiad gyda'r sefydliad partner Caredig, Action for Elders a Chyngor Abertawe "Tîm Partneriaeth a Chynnwys".

**Digwyddiadau Cymunedol a Gweithgareddau i Bobl 50+:**

Mae digwyddiadau a gafwyd yn cynnwys Cinio Nadolig yn Neuadd Brangwyn ar gyfer 270 o aelodau'r cyhoedd ynghyd â 13 o sefydliadau partner, taith panto Nadolig, cymorth cyntaf cymunedol a hyfforddiant defib, **digwyddiad amlddiwylliannol** gydag aelodau o'r Gymuned Affricanaidd yn yr Hyb Aml-ddiwylliannol.



**Cwch Copper Jack -** Cafwyd deg taith cwch am ddim ers mis Medi 2021 gyda phobl 50+ oed ac mae pob taith wedi cyrraedd ei chapasiti o 40 o gyfranogwyr ar bob taith. Mae'r cwch yn gadael y Marina ger y Swigg ac yn teithio i fyny'r afon Tawe tuag at yr Hafod gyda sgwrs hanes tywys a digon o gyfle i hel atgofion dros luniaeth ar y cwch.



**Partneriaeth Rheilffordd Calon Cymru ar y Cyd â Thrafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd Cymunedol -** Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliwyd taith drenau arbrofol a drefnwyd i 22 o fynychwyr, wedi ei threfnu ar y cyd gan "Dîm Partneriaeth a Chynnwys" Cyngor Abertawe, Trafnidiaeth Cymru a Community Rail ym mis Rhagfyr 2021. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac mae cynlluniau yn eu lle i symud y prosiect hwn ymlaen yn 2022, gydag amrywiaeth o deithiau ar gael, a lluniaeth a theithiau tywys wedi'u cynnwys yn y gyrchfan derfynol, yn y gobaith y bydd y cynlluniau peilot hyn yn annog mwy o ddefnydd o deithio ar drên gan bobl 50+ oed

**Gweithdai Caligraffeg Tsieineaidd**




**Cronfa Gaeaf o Lesiant i Bobl 50+:**

Cydlynodd "Tîm Partneriaeth a Chomisiynu" Cyngor Abertawe gronfa beilot "Gaeaf o Lesiant" ar gyfer pobl 50+, lle gallai prosiectau cymunedol wneud cais am hyd at £10,000 i ddarparu gweithgareddau, gweithdai neu ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar lesiant, mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, ac annog oedolion hŷn 50+ oed i ail-ymgysylltu â gweithgaredd cymunedol ar ôl Covid. Sicrhawyd bod y gronfa ar gael fel rhan o'n "Grant Adfer Gofal Cymdeithasol" a

lansiwyd proses ymgeisio ym mis Ionawr 2022 gyda chyllid ar gael i dalu am weithgareddau drwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth 2022.
Derbyniwyd 56 o geisiadau am gyfanswm o £259,000. Cynhaliwyd panel ariannu i asesu cymhwysedd, a rhoddwyd cyfanswm cyllid WOW 50+ o £189,000 i grwpiau cymunedol, sefydliadau a gwasanaethau ar draws Abertawe. Roedd yr arian yn cwmpasu sbectrwm eang o weithgareddau a oedd yn cynnwys chwaraeon a gweithgaredd corfforol, celf a chrefft, digwyddiadau cymunedol, prosiectau peilot, boreau coffi, ioga, tai chi, adweitheg a phrynu offer ac ati. Mae ymgeiswyr wrthi'n cwblhau gwerthusiadau a chafwyd adborth cadarnhaol drwy gydol y broses.

**Rhwydwaith Gwybodaeth Heneiddio'n Dda:** Trwy'r Rhwydwaith Gwybodaeth Heneiddio'n Dda, mae Tîm Partneriaethau a Chynnwys Cyngor Abertawe yn parhau i ddarparu gwybodaeth i danysgrifwyr (Pobl 50+, gwasanaethau a sefydliadau partner ac ati) yn rheolaidd trwy gylchlythyrau a negeseuon e-bost i'w diweddaru. Anfonir yr e-byst trwy Mailchimp. Mae cael y rhestr bostio ar Mailchimp yn caniatáu i danysgrifwyr gael mynediad at eu gwybodaeth gyswllt a'i diweddaru, neu ddad-danysgrifio os dymunant. Mae aelodaeth ar y Rhwydwaith Gwybodaeth Heneiddio'n Dda yn parhau i dyfu gydag ymgysylltiad wyneb yn wyneb a bu'n fuddiol iawn wrth gyfathrebu gwybodaeth am “Beth Sy'n Digwydd” a chyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau partner a gwasanaethau yn y gymuned.


Mae’r e-byst diweddaru yn parhau i gynnwys amrywiaeth o wybodaeth megis dolenni gwybodaeth yn ymwneud â’r Coronafeirws, gwybodaeth am wasanaethau cymorth, cyrsiau ar-lein a gweithgareddau/ grwpiau ar-lein (gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff) a dolenni arolwg ar gyfer cyfleoedd ymgynghori, er enghraifft. Nawr bod y cyfyngiadau pandemig wedi’u lleddfu, mae’r angen i gyfleu cyfleoedd i fynd yn ôl allan i'r gymuned ac ymgysylltu â gwasanaethau wyneb yn wyneb yn hynod bwysig. Caiff y wybodaeth hon ei chyfleu ar-lein ond hefyd mae ar gael ar ffurf copi caled drwy bartneriaid ac mewn adeiladau cymunedol megis llyfrgelloedd, meddygfeydd ac archfarchnadoedd.

**Ailsefydlu Grŵp Llywio Heneiddio’n Dda:**
Ail-lansiwyd y Grŵp Llywio Heneiddio’n Dda ym mis Gorffennaf 2021 i ymateb i’r Strategaeth Cymdeithas sy’n Heneiddio’n Dda Llywodraeth Cymru, ac fe'i lansiwyd yn ffurfiol ym mis Hydref 2021. Gwnaed gwaith i ehangu ei aelodaeth i gynnwys grwpiau cymunedol ac unigolion, cynrychiolaeth gwasanaethau ar draws cyfarwyddiaethau’r Cyngor, cynrychiolaeth gan holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymorth, fel y bo'n briodol.

Mae’r Grŵp Llywio Heneiddio’n Dda yn gweithio i ddatblygu’r adborth o’r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar a bydd yn gweithio mewn partneriaeth i wella gwasanaethau, cynyddu cyfranogiad cymdeithasol, cael effaith gadarnhaol ar arwahanrwydd cymdeithasol, gwella cyfathrebu a gwybodaeth a chydgysylltu nifer o fecanweithiau i glywed llais pobl 50+ yn Abertawe. Bydd gwaith y Grŵp Llywio Heneiddio’n Dda yn ffurfio “Strategaeth Cymdeithas sy’n Heneiddio’n Dda ar gyfer Abertawe" ac yn cyfrannu at ymrwymiad y BGC i weithio tuag at gydnabyddiaeth “Dinas sy’n Gyfeillgar i Oed”. Mae'r grwpiau tasg cyfredol yn cynnwys:

- Rhannu data ar draws gwasanaethau a phartneriaethau i lywio datblygiad y strategaeth
- Gwella Gwybodaeth a Chyfathrebu i bobl 50+ (Ar-lein a chopi caled)
- Gwasanaethau a Chymorth i Gasglwyr (Hoarders)

**Digwyddiad Rhwydweithio Heneiddio’n Dda:**
Cydlynodd Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Pobl Hŷn Cyngor Abertawe “Ddigwyddiad Rhwydweithio Heneiddio'n Dda”. Daeth y digwyddiad â 43 o sefydliadau, gwasanaethau a grwpiau cymunedol sy'n aelodau o “Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda” ynghyd, a chynhaliwyd stondinau gwybodaeth drwy gydol y dydd. Darparodd Freedom Leisure hefyd ragflas chwaraeon a hamdden o’u “Rhaglen Oedolion Hŷn Egnïol”. Hyrwyddwyd y digwyddiad yn eang i’r cyhoedd fel cyfle i ailgysylltu â gwasanaethau ar ôl Covid ac ymwelodd cannoedd o gyfranogwyr â'r digwyddiad drwy gydol y dydd.




**“Dinasoedd sy’n Gyfeillgar i Oed” Sefydliadau Iechyd y Byd:** Ym mis Tachwedd 2020, cyfarfu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Abertawe â’r Comisiynydd Pobl Hŷn, lle’r ymrwymodd BGC Abertawe i weithio tuag at statws “Dinas sy’n Gyfeillgar i Oed”.

Mae’r Grŵp Llywio Heneiddio’n Dda yn parhau i fapio angen wedi’i lywio gan bobl leol, y ddarpariaeth bresennol a chyfleoedd i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu “Cymdeithas sy’n Heneiddio’n Dda” Abertawe gan ddefnyddio dull egwyddorol “Y Ffordd Iawn” o ymdrin â hawliau a’r wyth parth ym meini prawf “Dinas sy’n Gyfeillgar i Oed ”, fel fframwaith i gydgysylltu gwaith ar draws y BGC a sicrhau bod gweithredu a mesur effaith yn gyraeddadwy er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae’r strategaeth a’r cynllun gweithredu yn ei gael ar fywydau beunyddiol pobl 50+ oed.

**Dulliau gweithredu cymunedol – Archwilio amrywiaeth o fentrau i ymdrin ag arwahanrwydd cymdeithasol a meithrin gwytnwch personol ar draws BGC a'r sector gwirfoddol**

**Tîm Cydlynu Ardaloedd Lleol (Tîm LAC):**
Mae'r Tîm Cydlynu Ardaloedd Lleol yn credu bod 'pawb yn byw mewn cymunedau croesawgar sy'n darparu cyfeillgarwch, cydgymorth, tegwch a chyfleoedd i bawb'. Gellir cyflwyno'r Tîm LAC i unrhyw un, am unrhyw reswm a bydd yn cerdded ochr yn ochr â phobl wrth iddynt nodi a symud tuag at eu fersiwn nhw o fywyd da. Mae'r Tîm LAC wedi'i wreiddio mewn cymunedau fel un pwynt cyswllt hygyrch ac felly maent mewn sefyllfa i wrando ar bobl yn y gymuned os ydynt yn nodi bylchau neu'n mynegi diddordeb mewn sefydlu adnodd cymunedol. Dros y flwyddyn ddiwethaf a thrwy gydol y pandemig, un o gryfderau mawr y Tîm Cydgysylltu Ardaloedd Lleol oedd y cysylltiadau a'r gweledеdd a ddatblygwyd mewn cymunedau yn Abertawe. Fel arfer, byddai'r tîm yn meithrin perthynas o fewn y gymuned, yn ogystal â chyda hyrwyddwyr cymunedol allweddol, y sector statudol, y sector busnes a'r trydydd sector.

Er bod y cyfyngiadau pandemig yn dal mewn grym, parhaodd y Tîm LAC i gyfathrebu â phobl allweddol a allai ddarparu cymorth i'r rhai fyddai efallai'n wynebu trafferthion. Bu'r rhwydwaith o hyrwyddwyr stryd anffurfiol/cyfeillion, a oedd yn ymdrin â cheisiadau am gymorth a chefnogaeth. (e.e. cymorth siopa, danfon parseli bwyd, codi presgripsiwn neu alwadau lles) yn amhrisiadwy, ac mae'n bwysig annog y cysylltiadau hyn i barhau. Unwaith y codwyd y cyfyngiadau, rhoddwyd anogaeth gan y tîm i grwpiau a gweithgareddau lleol ailsefydlu eu hunain a chyfarfod dan do eto, yn hyderus ac yn ddiogel.

Yn ystod y cyfnod clo, roedd y rhan fwyaf o'r cyfathrebu â phobl wedi bod ar-lein neu dros y ffôn gydag ymweliadau awyr agored o bell, dim ond pan oedd hynny'n hanfodol. Roedd hyn weithiau yn effeithio ar y gallu i adeiladu perthynas tymor hir gyda phobl ond mae'r tîm wedi gallu dechrau cyfarfod ag unigolion y tu allan ac mewn trydydd gofod, ac mae'r gallu i gwrdd wyneb yn wyneb wedi gwella cysylltiadau'n sylweddol. Hefyd mae'n tynnu sylw at yr heriau iechyd meddwl niferus a wynebir gan nifer fawr o bobl yn dilyn diwedd y cyfyngiadau ar symud.

Mae'r tîm yn parhau i adrodd ar eu canlyniadau trwy ysgrifennu straeon a rhannu'r rhain gyda chydweithwyr a phartneriaid eraill. Mae'r straeon yn dystiolaeth wirioneddol o effaith y berthynas rhwng y LAC a'r unigolyn, ond maent hefyd yn dathlu'r cynnydd a wnaed gan yr unigolyn, bron bob amser heb ddibynnu ar wasanaethau ffurfiol.

**Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

**Gwasanaethau Dydd Mewnol Pobl Hŷn:**
Mae dau Wasanaeth Dydd Pobl Hŷn Mewnol a dau Wasanaeth Dydd Pobl Hŷn Allanol bellach yn weithredol eto ac yn cynnig gwasanaeth 4 diwrnod/5 diwrnod yr wythnos. Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi dychwelyd ac mae atgyfeiriadau newydd yn dod drwodd. Mae cyfarfod o weithwyr proffesiynol yn ystyried pob achos yn unigol i argymell a chytuno ar y gwasanaeth mwyaf diogel a mwyaf priodol i bob person.

Mae’r cynllun trafnidiaeth gymunedol a reolir gan y Gwasanaeth Dydd Mewnol yn cefnogi gofalwyr, gan barhau i gynnig siopa, casglu presgripsiwn a galluogi pobl i gael eu pigiad atgyfnerthu Covid. Mae hyn yn cefnogi pobl i ymdopi gartref ac mae'n gysylltiedig â Chydlynu Ardaloedd Lleol i gefnogi'r gymuned hefyd, lle mae llawer o drigolion lleol wedi ymuno i helpu. Cred llawer o ofalwyr fod hwn yn wasanaeth hanfodol.

**Gwasanaethau Dydd: Oedolion ag Anableddau Dysgu**
Mae gwasanaethau dydd i bobl ag Anableddau Dysgu i gyd yn gweithredu ac yn symud yn ôl i gapasiti cyn-covid fesul cam ac ar sail asesiad risg. Mae staff yn parhau i gadw mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd ac wedi ymateb i geisiadau am gymorth a chysylltu â'r Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu. Yn ogystal â darparu amrywiaeth o weithgareddau a chymorth datblygu a chymdeithasol, mae’r gwasanaethau dydd yn darparu gwasanaeth seibiant dydd sydd fawr ei angen, ac yn cefnogi llesiant pawb.

Mae pecynnau gofal cartref, taliadau uniongyrchol a gwasanaeth cymorth a gomisiynir gan Ategi yn parhau i gael eu defnyddio fel cymorth dydd amgen. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Hyblyg bellach wedi dychwelyd i gefnogi defnyddwyr sy'n byw'n annibynnol yn y gymuned. Yn ogystal â chymorth ar gyfer byw bob dydd, a chyfeirio defnyddwyr at ystod o gymorth, crëwyd swigod cymdeithasol i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.

**Cytundeb Compact y Trydydd Sector**
Mae Cyngor Abertawe yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector trwy ein Cytundeb Compact sy'n adlewyrchu egwyddorion cydweithio rhwng Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a'r Trydydd Sector ehangach i ddarparu fframwaith cadarn ac ymarferol ar gyfer deialog barhaus rhwng y Partneriaid:
Comisiynir nifer o bartneriaid Trydydd Sector ar hyn o bryd drwy’r grant Plant a Chymunedau, gan gynnwys:

- Darparwyr Gofal Plant a Chwarae (grantiau Chwarae a Gofal Plant)
- Canolfannau Plant
- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- Gweithredu dros Blant – Stepping Stones
- SNAP
- Buddies
- Tŷ T.O.P.I.C.
- Darparwyr Sgiliau Cyflogaeth
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe

Drwy gydol y broses gomisiynu, mae rhanddeiliaid, gan gynnwys partneriaid a thrigolion, yn cymryd rhan yn yr adolygiadau i lywio a chydgynhyrchu darpariaeth gwasanaeth. Rydym yn parhau i ymdrechu i wella hyn, gan wreiddio cydgynhyrchu a llais y trydydd sector ymhellach yn ein cymunedau.

Mae perthynas gref rhwng y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector yn Abertawe ac mae hyn yn sicrhau eu bod wedi'u halinio yng nghamau cynnar cynllunio a darparu

gwasanaethau. Cyflawnir hyn mewn nifer o ffyrdd fel yr amlinellwyd uchod, ond maent hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant ar y cyd mewn cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol, er enghraifft i gynnal a datblygu dysgu ac arferion a rennir.

**Cronfa unigrwydd ac arwahanrwydd – wedi'i hwyluso gan SCVS**

Dyrannwyd cyllid blwyddyn 1 yn ei gyfanrwydd i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe y bu Cyngor Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth ag ef i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Trwy'r cyllid hwn mae'r bartneriaeth wedi cefnogi sefydliadau lleol i barhau i gynnig gwasanaethau hanfodol i'r cymunedau y maent yn eu cefnogi, a fydd yn eu galluogi i arwain, rheoli a datblygu gwaith i ddiwallu anghenion cymunedol presennol a pharhaus.

Bu rhaid i sefydliadau addasu a newid dros yr 20 mis diwethaf yn ogystal â datblygu gwasanaethau newydd sy’n targedu’n benodol y rhai sy’n profi arwahanrwydd emosiynol a chymdeithasol a llesiant gwael o ganlyniad i’w hamgylchiadau. Roedd ychwanegu capasiti ychwanegol yn galluogi sefydliadau i geisio cyllid ychwanegol i barhau â’u gweithgareddau i’r dyfodol, gan gydnabod ac addasu i anghenion y dyfodol.

Mae’r sefydliadau a gaiff gymorth o’r gronfa hon yn cefnogi cymunedau arbennig o agored i niwed ac ynysig, ac ar draws ystod o ffactorau sy’n effeithio ar arwahanrwydd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i alluogi pobl i ddod at ei gilydd (yn rhithiol neu'n bersonol) a mynd i’r afael â rhwystrau megis diffyg trafnidiaeth. Derbynwyr y gronfa hon yn y flwyddyn gyntaf (hyd fis Mawrth) oedd:

- Age Cymru Bae Abertawe
- Gwasanaethau Dydd Dementia Forget-Me-Not
- SNAP
- SBASS, (cefnogaeth ceiswyr lloches Bae Abertawe)
- Partneriaeth Pontarddulais
- Asdes, (Cymorth Sbectrwm Awtistig)
- Mind, (Cymorth iechyd meddwl)
- Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru.

**Rhwydwaith Cefnogi Teuluoedd**

Yn 21/22, parhaodd y Rhwydwaith Cefnogi Teuluoedd i gyfarfod i gyfathrebu a thrafod materion sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae gan y grŵp aelodaeth o dros 50 o sefydliadau ac adrannau a dyma'r unig fforwm o'i fath lle mae gwasanaethau'n cyfarfod mewn ffordd gydgysylltiedig.

Mae rhai o ganlyniadau’r grŵp a gynhwyswyd dros y flwyddyn flaenorol yn cynnwys:

- Trafod nifer y grantiau ad hoc sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a sut orau i'w dyrannu
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wasanaethau cymorth i deuluoedd a newid canllawiau.
- Cyfuno adnoddau lle bo'n briodol.

- Adnabod anghenion sy'n dod i'r amlwg a sut i fynd i'r afael â nhw.
- Edrych ar atgyfeiriadau a chapasiti ac a allwn effeithio ar restrau aros.

**Tai a thechnoleg arloesol – Archwilio opsiynau ar gyfer pobl ag anghenion gofal ychwanegol sy'n eu helpu i aros yn annibynnol gartref**
Cynhelir adolygiad o'r maes hwn yn 22/23.

**Gwasanaeth Tai**

- Cynhaliwyd adolygiad o'r Gwasanaeth Llety Gwarchod a gweithredwyd ymarfer ail-frandio i gynyddu'r galw. Cyfeirir ato bellach fel Gwasanaeth Byw'n Annibynnol ac mae wardeniaid lloches wedi'u hail-enwi yn Swyddogion Byw'n Annibynnol.
- Mae'r systemau galwadau brys o fewn Cynlluniau Byw'n Annibynnol Stoc Tai'r Cyngor (Llety Gwarchod) yn y broses o gael eu huwchraddio i systemau digidol, a fydd yn rhoi cyfleoedd newydd i gyflwyno cymhorthion digidol 'ychwanegol' y gellir eu cyflenwi i gynorthwyo tenantiaid, a fydd yn ei dro yn helpu i wella eu gallu i fyw'n annibynnol yn hirach a sicrhau bod eu systemau'n addas i'r diben ar gyfer y dyfodol.
- Mae cymorth Swyddog Byw'n Annibynnol (wardeniaid lloches) wedi'i ymestyn i ddarparu ymweliadau cartref i denantiaid hŷn sy'n byw mewn tai anghenion cyffredinol i hybu a chefnogi annibyniaeth.

**Llwyddiannau**

- Cynnwys dinasyddion yn dda o fewn yr amcan hwn ar draws yr ystod oedran
- Adolygu mecanweithiau ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau bod cyfleoedd cynhwysol a hygyrch yn cael eu hwyluso i bobl gael dweud eu dweud a dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Cefnogaeth dda gan y Bartneriaeth i'r amcan.
- Mae llawer iawn o waith yn y maes hwn eisoes ar y gweill ac wedi parhau er gwaethaf y pandemig.
- Ehangu'r sylfaen wybodaeth trwy gyfranogiad presennol hyd at bartneriaid ehangach.

**Heriau/ Rhwystrau**

- Methiant i gydgysylltu'r holl waith presennol i sicrhau bod Amcan Byw'n Dda Heneiddio'n Dda yn ychwanegu gwerth, ac nad yw'n dyblygu busnes fel arfer
- Heb y bobl iawn o amgylch y bwrdd i weithredu a chyflawni canlyniadau
- Sut i ehangu lens ac ystod oedran yr amcan hwn.

**Blaenoriaethau wrth symud ymlaen**

- Sicrhau y defnyddir dull partneriaeth i annog cyfranogiad ehangach a chyflawniad y blaenoriaethau ar draws y BGC ac ar bob lefel.
- Sefydlu cynllun ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd

# Gweithio gyda Natur



**I wella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hôl troed carbon.**

**Arweinydd –** Cydlynir y gwaith hwn gan y Tasglu Gweithio gyda Natur, a'i arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Fforwm Amgylcheddol Abertawe (SEF).

**Partneriaid / Rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Fforwm Amgylcheddol Abertawe | Cyngor Abertawe |
| Prifysgol Abertawe | Partneriaeth Natur Leol Abertawe | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Rhwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel | Canolfan yr Amgylchedd |
| Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe | Pobl | 4theRegion |
| Bwyd Abertawe | | |

**Trosolwg o'r gwaith o fewn Gweithio gyda Natur**

Mae'r Tasglu Gweithio Gyda Natur yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o sawl sefydliad BGC ac eraill sy'n cefnogi gweithredoedd o dan yr amcan Gweithio gyda Natur. Effeithiodd cyfyngiadau parhaus y pandemig ar y Tasglu ond llwyddodd i gwrdd ychydig o weithiau ar-lein yn ystod 2021/22. Llwyddwyd i ailafael mewn rhai gweithgareddau yn gysylltiedig â blaenoriaethau Gweithio gyda Natur a gafodd eu gohirio neu'u hoedi o ganlyniad i bandemig Covid yn y flwyddyn flaenorol, a bwrw ymlaen â nhw.

**Sut ystyriwyd y 5 Ffordd o Weithio wrth gyflawni amcanion Gweithio Gyda Natur**




Oherwydd natur yr amcan llesiant penodol hwn, mewn llawer o achosion, mae'r camau a gymerwyd bellach yn cyflawni buddion hirdymor, yn enwedig o ran yr argyfyngau natur a hinsawdd. Er enghraifft, bydd plannu coed nawr neu gymryd camau i leihau carbon yn arwain at fwy o fuddion a buddion lluosog dros sawl degawd wrth i goed aeddfedu a'n bod yn cyflawni targedau sero net. Ond mae'r camau hyn hefyd yn ystyried ac yn diwallu anghenion presennol fel mynediad gwell at fannau gwyrdd a naturiol, opsiynau teithio llesol a chynaliadwy ac ansawdd aer gwell sydd hefyd, dros gyfnod, yn cynhyrchu deilliannau iechyd cadarnhaol. Mae gweithio cydgysylltiedig rhwng partneriaid WWN ar draws ein hamcanion ar y cyd hefyd yn helpu sicrhau llwyddiannau hirdymor.




Mae natur yn dirywio, ac mae'n hanfodol ein bod yn deall achosion sylfaenol yr argyfwng hwn, ac yn mynd i'r afael â nhw. Dyma'n union beth mae'r amcan Adfer Natur yn ei wneud trwy weithio gyda phartneriaid i asesu gwydnwch ecosystem wedi'i seilio ar amrywiaeth, graddau a chyflwr cynefinoedd allweddol, a mapio cyfleoedd i atal mwy o golledion a sicrhau eu bod wedi'u cysylltu'n well ledled y sir, yn enwedig o gwmpas ardaloedd trefol. Bydd y gwaith hwn yn llywio penderfyniadau cynllunio hefyd. Enghraifft arall yw prosiect Achub Gwenoliaid Abertawe, sy'n cymryd camau ymarferol trwy osod blychau nythu o gwmpas canol y ddinas i gynyddu cyfleoedd bridio a nythu ar gyfer yr adar hyn i atal y rhywogaeth adar mudol rhag dirywio ymhellach, a monitro poblogaethau lleol.




Mae'r BGC yn hyrwyddo a chryfhau gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, sy'n angenrheidiol i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu hintegreiddio. Mae adfywiad parhaus canol y ddinas yn enghraifft dda o hyn lle mae amcan Seilwaith Gwyrdd WWN wedi cael ei integreiddio mewn cynlluniau datblygu allweddol a phroffil uchel, gan gynnwys y parc arfordirol yn yr arena newydd – to gwyrdd mwyaf Cymru. Yn ychwanegol, mae'r siarter Hinsawdd a Natur yn dwyn sefydliadau ar draws sectorau ynghyd ac yn rhoi ffocws ar, a helpu hwyluso, integreiddio cynlluniau a chamau carbon sero net. Bydd gwneud hynny hefyd yn golygu y gellir nodi synergedd a phrosiectau neu fentrau ar y cyd.




Mae cydweithio yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur – bodloni targedau sero net a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Mae gan y Tasglu Gweithio Gyda Natur aelodaeth amrywiol sydd i gyd yn llywio'r modd y caiff amcanion eu cyflawni. Er enghraifft, lluniwyd Siarter Teithio Llesol Bae Abertawe ar y cyd gan amrywiaeth o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys prifysgolion, cymdeithasau tai, CNC, ac awdurdodau lleol ledled Abertawe ond nid Castell-nedd Port Talbot.

Yn union fel mae angen cydweithio ar draws y sector, mae angen cynnwys pobl leol fel bod yr hyn rydym ni'n ei gyflwyno yn cael ei ffurfio gan unigolion a chymunedau, ac yn ystyrlon iddynt. O dan y flaenoriaeth Gweithio Gyda Natur, enghraifft wych o Gynnwys yw'r dull yn canolbwyntio ar y gymuned a ddefnyddir gan Pobl wrth ddatblygu a chyflwyno eu Huwchgynllun Penderi. Hefyd, siaradodd strategaeth GI canol y ddinas â nifer fawr o bobl, gan gynnwys plant, i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer #naturynyddinas. Defnyddir y dull hwn ar hyn o bryd i lywio'r strategaeth GI ledled y sir.

**Uchafbwyntiau gweithgareddau yn ystod 2021-22**

Un o'r ffocysau allweddol yn ystod y flwyddyn oedd gweithio ar yr Asesiad Llesiant gyda'r partneriaid arweiniol – CNC a SEF – yn cymryd cyfrifoldeb am lunio'r bennod ar ddimensiwn yr amgylchedd a chymryd rhan yn y tîm golygyddol cyffredinol. Cyfrannodd sawl un o bartneriaid eraill CNC at hyn trwy ddarparu data a gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad.

Er gwanwyn 2021, mae'r Tasglu wedi canolbwyntio ar set fireiniedig o flaenoriaethau a ystyriodd effeithiau Covid a'r potensial am Adferiad Gwyrdd.

- **Seilwaith Gwyrdd (GI)** (e.e. datblygu strategaeth ledled y sir a sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith).
- **Plannu Coed** (e.e. nodi tir y gellir ei ddefnyddio a chefnogi cynlluniau a arweinir gan y gymuned).
- **Mannau Gwyrdd** (e.e. cefnogi defnydd cymunedol o fannau gwyrdd ac ymwneud â hwy).
- **Adferiad Natur** (e.e. cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol a chefnogi prosiectau peillwyr).
- **Lleihau Carbon ac Addasu Hinsawdd** (e.e. cefnogi gwaith ar gynlluniau hinsawdd).
- **Trafnidiaeth a Theithio Llesol** (e.e. datblygu siarter teithio llesol a threfnu digwyddiad fforwm trafnidiaeth).
- **Ymgysylltu â'r Gymuned** (e.e. datblygu adnodd ar-lein o dempledi prosiect y gellir eu dyblygu ar gyfer adfer natur a hinsawdd a rhaglen o weminarau cyhoeddus).

Hefyd, yn 2021, mabwysiadodd Tasglu WWN brosiect enghreifftiol Penderi i arsylwi a chefnogi. Dyma rai uchafbwyntiau o ran datblygiadau yn y cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Llwyddodd Pobl i sicrhau £220k trwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol mewn partneriaeth â Chanolfan yr Amgylchedd, Room2Grow a Fferm Gymunedol Abertawe. Bydd y cyllid yn cefnogi gosod enghreifftiau o Seilwaith Gwyrdd yn y tŷ cymunedol 104, sgyrsiau cymunedol ehangach am welliannau i fannau gwyrdd, hyfforddiant GI ac opsiynau ar gyfer tyfu bwyd mewn gerddi lleol,

ymgysylltu â'r ysgolion, y gymuned a busnesau lleol yn sgwrsio am wella mannau gwyrdd a swyddi gwyrdd.

- Meithrinfa Coed Afalau Penderi – trwy weithio gyda Phrosiect Orchard a Fferm Gymunedol Abertawe, trawsblannwyd 20 o goed afalau, a byddant yn derbyn gofal ar y Fferm am y 2 flynedd nesaf i'w plannu ym Mhenderi.
- Comisiynwyd Green Infrastructure Consultancy gan Pobl i fapio cyfleoedd am welliannau GI ar draws Penderi.
- Plannwyd 650m$^2$ o fawn blodau gwyllt ar draws 15 safle ym Mhenderi ym mis Hydref heb ddefnyddio plaladdwyr na phlastig.
- Mae gwaith wedi dechrau i ôl-osod panel solar a batris ar draws cartrefi Pobl ym Mhenderi.

Mae'r adrannau canlynol yn cymryd pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn eu tro ac yn amlinellu peth o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## SEILWAITH GWYRDD (GI)

### Seilwaith Gwyrdd Trefol

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, mae Cyngor Abertawe a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i roi'r cynllun gweithredu ar waith ar gyfer Strategaeth GI canol y ddinas, sef *Ardal Canol Abertawe: Adfywio Ein Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt*. Mae cyflawni hyn wedi disgyn i 2 brif gategori unigryw, sef:

1. Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau,
2. Cynlluniau gosod GI.

## Datblygu gwybodaeth a sgiliau (Ebrill 2021 – Mawrth 2022)

Cafodd gweithgareddau eu rhwystro gan effaith cyfyngiadau Covid yn ystod 2021, ac felly, mae'r ffocws wedi bod ar nodi cyfleoedd ar gyfer (a) rhwydweithio rhithwir yn ystod y pandemig a (b) cyflwyno datblygiad gwybodaeth a sgiliau wyneb yn wyneb ar ôl cyfyngiadau Covid, yn ogystal â chreu deunydd i gefnogi datblygu gwybodaeth.

**Hyfforddiant gwybodaeth a sgiliau** – Gwnaed dau gynnig llwyddiannus i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i'w cyflawni yn ystod 2022, a fydd yn cydgysylltu ac yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu'r economi GI leol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

1. Datblygu'r economi GI leol – cyflwynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Urban Foundry a Thîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe. Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

   - Darparu hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol ar GI i fusnesau lleol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn y gadwyn gyflenwi leol. Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno dros yr haf a dechrau hydref 2022.
   - Cwmpasu dichonoldeb a chyfle ar gyfer datblygu modiwlau hyfforddiant GI, gan gynnwys prentisiaethau, fel rhan o addysg ffurfiol yn lleol, gan gynnwys y potensial ar gyfer cynlluniau bwrsari.

- Marchnata datblygiad i ysgogi diddordeb masnachol lleol mewn atebion GI.

2. Cynllun Adfywio Gwyrdd Penderi – cyflwynir gan grŵp Pobl mewn partneriaeth â Chanolfan yr Amgylchedd Abertawe, Room to Grow, Fferm Gymunedol Abertawe, Tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe, a ReThink. Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Adfywio Tŷ Cymunedol 104 fel man amlswyddogaethol i fyw, gweithio a chwarae, i gynnwys gosodiadau GI fel man arddangos sydd wrth wraidd y gymuned (Pobl a Green Infrastructure Consultancy).
- Datblygu dealltwriaeth o sut mae'r gymuned yn teimlo am fannau gwyrdd lleol a datblygu cynllun gyda nhw ar sut i wella'r mannau hynny i ddiwallu eu hanghenion yn unol â ffyrdd o weithio wedi'u seilio ar asedau (Canolfan yr Amgylchedd Abertawe a Pobl).
- Cyflwyno sesiynau sgiliau ar gyfer aelodau o'r gymuned a busnesau lleol mewn sgiliau a thechnoleg wyrdd (Canolfan yr Amgylchedd Abertawe, Pobl a Room to Grow).
- Ategu mapio GI presennol â mapiau coed a mapiau cadernid ecolegol a nodi mannau ar gyfer plannu coed (Tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe).
- Datblygu porth sgiliau GI ar-lein ar gyfer yr ardal (Room to Grow).
- Meithrin ymgysylltiad a brwdfrydedd ymhlith y gymuned am fannau gwyrdd, bioamrywiaeth a natur (Fferm Gymunedol Abertawe a Thîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe).

**Taflenni Gwybodaeth –** Mae taflenni gwybodaeth yn benodol i deipoleg – h.y. toeon gwyrdd / waliau gwyrdd / gerddi glaw, ac wedi'u dylunio i roi trosolwg o'r deipoleg i unigolion proffesiynol, 5 egwyddor GI, yr offeryn ffactor Man Gwyrdd, a chyfeirio at fwy o wybodaeth a dogfennau technegol. Byddant ar gael yma: [Ardal Canol Abertawe: Adfywio Ein Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt - Abertawe]

**Cynhadledd Canol Dinas Abertawe –** 17 Mawrth 2022, Arena Abertawe. Ymgysylltiad cymunedol a darparu gwybodaeth am y strategaeth a'i nodau, a chyngor ymarferol am fanteision GI ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a gwella llesiant yng nghanol y ddinas.

**Cynllun Gweithredu –** Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion strategol yn y strategaeth GI Ganolog. Mae cyflawni'n parhau tra bydd drafft y cynllun gweithredu wrthi'n cael ei fabwysiadu.



*#naturynyddinas – trafod beth mae natur yn y ddinas yn ei olygu*

## Cynlluniau Gosod GI (Ebrill 2021 – Mawrth 2022)



*Wal werdd Stryd y Pier ble plannwyd rhywogaethau a pheillwyr cynhenid. Cydnabyddiaeth: Canolfan yr Amgylchedd Abertawe*

Roedd **Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, *'Natur y Ddinas'*, Llywodraeth Cymru** yn golygu bod modd cyflwyno nifer o gynlluniau *Natur y Ddinas* i gynyddu bioamrywiaeth yng nghanol y ddinas. Bydd hyn yn cyfrannu at weithredu amcanion strategol y strategaeth *Ardal Canol Abertawe: Adfywio Ein Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt* i ddarparu amgylchedd cyfoethog o ran natur o ansawdd uchel sy'n creu dinas sy'n gyrchfan unigryw ac yn wydn i'r effeithiau os bydd newid hinsawdd, er mwyn meithrin gwybodaeth a sgiliau yn lleol a sicrhau ymglymiad rhanddeiliaid a'r gymuned mewn dylunio a chynnal GI. Hefyd, cyfrannodd y cynlluniau yn uniongyrchol at y strategaethau yn dilyn Dangosyddion Perfformiad (DP): i gynyddu bioamrywiaeth, GI tiriogaethol, brigdwf.

Mae cynlluniau'n cynnwys creu wal werdd, parc bach ecoleg dros dro, cynllun plannu bioamrywiol, cysgodfannau bin â tho gwyrdd, ac ailblannu pyllau glaw sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys rhywogaethau cynhenid, neu'r rheiny â buddion profedig i beillwyr cynhenid, ac yn ffurfio rhan o wythïen werdd canol y ddinas a phriffyrdd pryfed, sy'n dathlu ecoleg naturiol gyfoethog ac amrywiol Abertawe, ac yn amlygu buddion atebion wedi'u seilio ar natur. Cyflwynwyd y cynlluniau mewn partneriaeth â Chanolfan yr Amgylchedd Abertawe, grŵp Pobl, Ways for Working, Celtic Wildflowers, Coeden Fach, Plantasia, Urban Foundry, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Abertawe.



*Parc Arfordirol Bae Copr o'r awyr*

**Parc Arfordirol Bae Copr –** y parc arfordirol 1.1 erw a agorwyd yn ddiweddar yw'r parc newydd cyntaf yng nghanol y ddinas ers oes Fictoria, ac mae'n un o doeon gwyrdd mwyaf Cymru. Mae'r parc yn cynnwys peillwyr a wal fyw sy'n darparu lliw a gwerth amwynder trwy gydol y flwyddyn, mae'n cynnig lloches a bwyd i adar a phryfed, yn amsugno llygredd a dŵr wyneb, ac yn darparu man i oeri yn yr haf.




*Cymdeithas Dai Coastal 85-86 Ffordd y Brenin – wal werdd. Cydnabyddiaeth: Cymdeithas Dai Coastal*

**Cymdeithas Dai Coastal 85 – 86 Ffordd y Brenin** – Cafodd y wal werdd ei dylunio a'i gosod gan Scotscape, gan ddefnyddio Grant Seilwaith Gwyrdd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Roedd y wal werdd yn rhan o'r adnewyddu gan Gymdeithas Dai Coastal. Mae'r cydau plannu a phridd anadladwy yn hidlo gronynnau ac mae llystyfiant yn darparu bwyd a lloches ar gyfer adar a phryfed ynghyd â gwerth amwynder.

## Rhaglenni ac adnoddau GI parhaus ar gyfer 2022/23

**Uwchgynllun Penderi** – Datblygwyd yr uwchgynllun dros 5 mlynedd gydag 14 partner ac ymgynghori cymunedol. Mae'n canolbwyntio ar 7 uchelgais graidd dros yr 15 i 20 mlynedd nesaf; Seilwaith Glas a Gwyrdd Integredig, Cymdogaethau Cysylltiedig Hygyrch, Cartrefi o Ansawdd Uchel, Darpariaeth Cyfleusterau Cymunedol, Cymunedau Gweithredol a Chyfranogol, Effeithlonrwydd Ynni, Cartrefi sy'n Wydn yn Economaidd. Mae pob uchelgais yn gysylltiedig â'i gilydd.





*Uwchgynllun Penderi. Cydnabyddiaeth: grŵp Pobl*

Sefydlwyd is-grŵp Seilwaith Gwyrdd yn 2021 gyda 26 o asiantaethau / adrannau, gan gynnwys cynrychiolwyr o BGC / WWN. Mae'r grŵp hwn wedi dylanwadu ar y canlynol:

Cefnogi Canolfan Galw Heibio Blaenymaes i wneud cais am gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru i adeiladu cysgodfan to gwyrdd yn yr ardd a denu dros 100 o bobl leol i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn eu mannau gwyrdd lleol.

- Mapio gwaelodlin GI ym Mhenderi a rhestr o gyfleoedd ar gyfer gwelliannau GI ar draws Penderi.
- Plannu 650m2 o fawn blodau gwyllt heb ddefnyddio plaladdwyr na phlastig ar draws 15 safle ym Mhenderi.
- Meithrinfa Coed Afalau Penderi – trwy weithio gyda Phrosiect Orchard a'r fferm, trawsblannwyd 20 o goed afalau, a byddant yn derbyn gofal ar y fferm am y 2 flynedd nesaf i'w plannu



*#Naturynfynghynefin*

**Strategaeth Ledled y Sir –** Dechreuodd y broses ymgysylltu ar gyfer y strategaeth ledled y sir, dan arweiniad y Cyngor a CNC, ym mis Chwefror 2020, ond bu'n rhaid ei gohirio oherwydd Covid. Ail-lansiwyd y broses yng Nghynhadledd Canol Dinas Abertawe ym mis Mawrth 2002 a bydd yn parhau trwy gydol yr haf a dechrau'r hydref. Bydd y gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio ar yr hyn mae natur yn ei olygu i ddinasyddion Abertawe gan ddefnyddio'r hashnod #NatureInMyPlace / #Naturynfynghynefin. Bydd y Strategaeth yn cael ei chefnogi gan Bolisi Cynllunio er mwyn gallu integreiddio GI i ddatblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

**Swyddog GI Cyfoeth Naturiol Cymru –** trwy ei raglen Dalgylch â Chyfleoedd, llwyddodd Cyfoeth Naturiol Cymru i greu ac ariannu rôl Uwch Swyddog GI dynodedig, sy'n cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, gan gydweithio â phartneriaid ar brosiectau allweddol a chyflwyno cynlluniau GI uchelgeisiol. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi helpu GI prif ffrwd yn gyflym ac yn effeithlon ar lefel leol a rhanbarthol dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd cais i LlC i ymestyn y swydd hon am 3 blynedd (2022-2025) ac ehangu'r cylch gwaith i gwmpasu rhanbarth y De Orllewin tra'n parhau i gefnogi mentrau strategol yn Abertawe.

**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – De Orllewin Cymru** – Prosiect rhanbarthol sy'n cyflwyno dull newydd, arloesol a chydweithredol o ddylunio a gweithredu GI ac adfer natur ledled Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gaerfyrddin, er budd cymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol. Nod y prosiect yw defnyddio dull strategol o gynnal, ymestyn a chreu GI er budd pobl, yr economi a bywyd gwyllt trwy gyd-ddylunio a chyd-gyflwyno GI mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion lleol, yn meithrin gwydnwch ecosystem, yn gwella bioamrywiaeth ac yn cynyddu llesiant.

Mae'r rhaglen, a gynhelir tan fis Mehefin 2023, yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cynnal a gwella GI, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystem a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- cydweithio i ddylunio a pheilota dulliau newydd wedi'u seilio ar le i gyflawni GI;
- defnyddio'r data gorau sydd ar gael, modelau ac arbenigedd technegol, defnyddio dull wedi'i seilio ar dystiolaeth o nodi cyfleoedd ac atebion dylunio arloesol, i gyflawni gwelliannau GI ledled yr ardal;
- gweithio gyda chymunedau lleol i ddylunio, cynnal a gwella GI, a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi;
- galluogi cymunedau i uchafu, ac elwa'n llawn, ar y gwasanaethau niferus a ddarperir gan gyfleoedd GI, gan gynnwys iechyd a llesiant.

## Plannu coed

### Canllawiau ar gyfer gweithgareddau plannu coed

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ym mis Hydref 2021, mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer coed, coetiroedd a pherthi. Mae'n rhoi gwybodaeth sylfaenol am sut yr ymdrinnir â'r holl goed, perthi, a choetiroedd yn y system gynllunio, nid yn unig i'r rheiny sy'n cael eu gwarchod, gan ddarparu cyngor clir a chyson ar gyfer datblygwyr. https://swansea.gov.uk/treespg

### Rhoi'r Goeden Gywir yn y Lle Cywir

Paratowyd rhestr wirio i sicrhau bod unrhyw goed sy'n cael eu plannu yn y dyfodol yn bodloni ystod o feini prawf i sicrhau bod y goeden gywir yn cael ei phlannu yn y lle cywir am y rheswm cywir.
Mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio a diweddaru'r cyflenwad presennol o goed i nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfle addas i blannu coed, perthi a choetiroedd newydd.

### Plannu coed a choetiroedd

Yn ystod 2021/22, roedd y Cyngor yn gyfrifol am blannu oddeutu 1000 o goed safonol a 5600 o goed chwip. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r dirwedd o fewn canol Abertawe, yn cynnwys rhodfeydd trawiadol o goed ar hyd priffyrdd allweddol (yn enwedig Stryd y Berllan a Ffordd y Brenin) a llwybrau teithio llesol, yn ogystal â chynyddu gorchudd coed yn ardaloedd tai a pharciau trefol y Cyngor, ac o'u cwmpas.

Hefyd, cydnabuwyd bod Abertawe yn un Ddinas Hyrwyddo Canopi Gwyrdd y Frenhines o ganlyniad i gynlluniau plannu coed ledled y ddinas. I nodi'r cyflawniad, ymwelodd Ei Huchelder Brenhinol Iarlles Wessex â'r ddinas i blannu Coeden Jiwbilî ym mharc arfordirol yr Arena a agorwyd yn ddiweddar.

The Kingsway goes green as Swansea points to the future - YouTube



**Plannu coed fel rhan o welliant ehangach i'r amgylchedd allanol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

Hyd yma, mae 440 o goed mawr wedi cael eu plannu ar strydoedd, ac mae nifer o ardaloedd mannau agored gwyrdd mwy wedi cael eu nodi ar gyfer mwy o blannu a gwelliannau o fewn ystadau tai'r Cyngor ledled y sir. Mae hyn yn rhan o raglen sy'n ceisio gwella'r amgylchedd ffisegol a'r ymdeimlad o lesiant o fewn y cymunedau hyn, ac yn yr ardal gyfagos a lleoliad cartrefi pobl.

**Plannu coed ar hyd llwybrau Teithio Llesol**

Mae llwybrau Teithio Llesol wedi'u dylunio i gysylltu trigolion, ysgolion a busnesau lleol gyda'r rhwydwaith cerdded a seiclo ehangach, gan annog mwy o deithio llesol a gwella seilwaith gwyrdd. Hyd yma, mae dros 109 o goed mawr / lled-aeddfed, a thros 1000 o goed chwip / coed a drawsblannwyd wedi cael eu plannu ar hyd y llwybrau, ac mae cynlluniau i blannu mwy o goed ar gyfer 2022/23.

**Coed Cwm Penllergare**

Galluogodd grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LP4N) Llywodraeth Cymru i Blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol (PAWS) gael ei hadfer o fewn Coed Cwm Penllergare, sy'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur ac yn Safle Bywyd Gwyllt Cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys gwaredu Rhododendron a Llarwydd goresgynnol ac ailblannu rhywogaethau coetir cynhenid.

**Prosiect Perllannau Cymunedol Abertawe a Meithrinfa Coed Cymunedol Coeden Fach**

Hefyd, galluogodd grant LP4N Llywodraeth Cymru i'r Cyngor gefnogi menter newydd i greu 5 perllan gymunedol newydd y llynedd, a chefnogi ein meithrinfa coed cymunedol lleol trwy ddarparu safle newydd yn un o barciau'r Cyngor a chydweithio â nhw i gefnogi cynlluniau tyfu a phlannu coed cymunedol.

**Trees for Cities**

Er 2019, mae Cyngor Abertawe wedi cydweithio â Trees for Cities i blannu Coetiroedd cymunedol cynhenid newydd yn ninas Abertawe. Rydym wrthi'n nodi safleoedd addas ar gyfer plannu eleni ar hyn o bryd.

**Cymdeithas Goed Prifysgol Abertawe**

Bu gwirfoddolwyr o Gymdeithas Goed Prifysgol Abertawe yn plannu coed ar sawl safle, yn cynnwys Ashlands a'r cae tair cornel yn yr Ucheldir.







**<u>Adfer Natur</u>**

**Datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol**

Ar y cyd ag aelodau o'r Bartneriaeth Natur Leol, mae gwaith wedi dechrau i adolygu a diweddaru'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol presennol, a fydd wedyn yn cael ei adnabod fel y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGAN).

**Adran 6 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Cyngor Abertawe.**

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar y tair blynedd gyntaf (2019-2021) i Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2022-23 wrthi'n cael ei ddatblygu ar ôl penodi Swyddog Bioamrywiaeth rhan-amser.

**Datgan Argyfwng Natur**

Ar ôl datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019, dywedodd y Cyngor fod Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2020. Ers hynny, a gyda chymorth gan bartneriaid allweddol y BGC / WWN, bu'n galonogol gweld sefydliadau ac unigolion lleol yn cofrestru i Siarter ac/neu Adduned y Cyngor ar gyfer Newid Hinsawdd ac Adfer Natur.

**Mapio Cadernid Ecolegol**

Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus gyda SEWBREC (Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru) i fapio cadernid ecolegol o fewn ardal dargedig o Abertawe, fe'u comisiynwyd i gynnal asesiad cadernid ecolegol o'r Sir gyfan. Lluniwyd 'map gwres' yn dangos ardaloedd cadernid ecolegol uchel ac isel. Bydd y wybodaeth hon yn helpu llywio penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â defnyddio tir, rheoli tir a

gwaith cynllunio, yn ogystal â darparu tystiolaeth werthfawr i ategu'r Strategaeth GI Ledled y Sir a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol.

**Adnoddau cynyddol ar gyfer cynnal a gwella Bioamrywiaeth ac Adfer Natur**
Mae cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LNP, LP4N ac ENRAW) ynghyd â chyllid craidd gan Gyngor Abertawe wedi galluogi penodi staff ychwanegol o fewn Tîm Cadwraeth Natur y Cyngor.

Yn ychwanegol, sicrhaodd y Tîm Cadwraeth Natur dros £750,000 trwy LP4N Llywodraeth Cymru, BERF a CNC ar gyfer ystod eang o brosiectau a mentrau Adfer Natur a GI yn ystod 2021/22, gan gynnwys Natur y Ddinas (ymdrinnir â hyn o dan yr Adran GI), Coed Cwm Penllegare (ymdrinnir â hyn o dan yr Adran Plannu Coed), a Rhwydwaith Natur Abertawe, a alluogodd i welliannau sylweddol gael eu gwneud i safleoedd bywyd gwyllt lleol a chyflawnwyd ymyriadau seilwaith gwyrdd – roedd y rhain yn cynnwys plannu coed mewn 4 ysgol a safleoedd eraill, yn cynnwys Dynfant, Tir John, Treforys, Coridor Tawe a Leadfield; creu 6 pherllan gymunedol, sefydlogi'r twyni tywod ym Mae Abertawe a rheoli prysgwydd ar wlyptir Gwarchodfa Natur Bro Tawe, yn ogystal â chamau ar gyfer peillwyr.

Mae dull y Cyngor i reoli eu mannau gwyrdd wedi cymryd cam enfawr ymlaen, gwnaed llawer o waith i dreialu methodoleg torri a chasglu, prynu offer er mwyn gallu creu dolydd blodau gwyllt, plannu blodau gwyllt cynhenid ar hyd coridor peillwyr Y Mwmbwls i Fargam, a darparu arwyddion ychwanegol i godi ymwybyddiaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud. Hefyd, rydym ni wedi cefnogi'r prosiect mannau gwyrdd cymunedol i gyflwyno nifer o welliannau bioamrywiaeth, yn bennaf o fewn ardal ddinesig Abertawe.






**Pyllau Glaw Plantasia**

Mae Plantasia yn sŵ trofannol / tŷ gwydr yng nghanol y ddinas. Caiff dŵr ffo glaw o'i do ei gasglu mewn pyllau glaw o gwmpas gwaelod yr adeilad. Mae'r prosiect hwn wedi gwella'r amrywiaeth o blanhigion yn y pyllau gan ddefnyddio planhigion wedi'u tyfu'n lleol i gynyddu bioamrywiaeth.

**Prosiect Gwenoliaid Abertawe** – prynwyd 100 o flychau gwenoliaid a 25 o systemau Micro i Alw Gwenoliaid er mwyn annog gwenoliaid i ganol y ddinas a chynyddu cyfleoedd nythu allweddol ar gyfer y rhywogaeth hon sy'n dirywio. Mae poblogaethau gwenoliaid wedi dirywio 72% yng Nghymru er 1995. Sefydlwyd prosiect Achub Gwenoliaid Abertawe sy'n cynnwys partneriaid o'r BGC, Cymdeithas Adareg Gŵyr, a llawer o wirfoddolwyr, i godi ymwybyddiaeth am boblogaethau ledled y sir, a helpu eu hadfer.



**Llywodraethu**

O fewn y Cyngor, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Hinsawdd a Natur, gyda chynrychiolaeth o swyddogion ar draws yr Awdurdod, i sicrhau fframwaith llywodraethu effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag adfer natur a newid hinsawdd. Mae'r Bwrdd yn adrodd i'r Grŵp Llywio Hinsawdd a Natur, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Bioamrywiaeth. Mae'r strwythur hwn yn helpu sicrhau bod cyfathrebu a chydweithio da hefyd i integreiddio bioamrywiaeth mewn cynlluniau a phrosiectau allweddol ar draws y Cyngor.

**Partneriaeth Natur Leol Abertawe (PNL)**

Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi'r PNL, sy'n cwrdd bob chwarter. Yn ddiweddar, mae wedi penodi dau Gydlynydd Partneriaeth Natur Leol rhan-amser. Mae Covid-19 wedi cyfyngu'n ddifrifol ar gyfarfodydd a gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf, ond wedi galluogi cynulleidfa ehangach i gymryd rhan trwy gyfarfodydd rhithwir. Cyfrannodd y Bartneriaeth Natur Leol at weithgareddau Wythnos Natur Cymru ym mis Mehefin 2021.

**<u>Mannau Gwyrdd</u>**

Un o'r prif fecanweithiau cyflwyno ar gyfer y thema flaenoriaeth hon yw Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe - prosiect partneriaeth a reolir gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe gyda grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Abertawe, CNC, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, a Chanolfan yr Amgylchedd. Mae'r prosiect yn helpu dinasyddion a chymunedau i gymryd mwy o ran mewn rheoli a defnyddio mannau gwyrdd lleol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ystod argyfwng Covid, mae mannau gwyrdd lleol wedi cynyddu, ac adlewyrchir hyn yn y galw cynyddol am gymorth gan y Prosiect Mannau Gwyrdd, a mentrau a sefydliadau eraill tebyg.



Mae nifer enfawr o fentrau newydd a sefydledig ar safleoedd ledled y Sir yn elwa ar y Swyddog Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol wedi'i gontractio gan SEF sy'n darparu cymorth ar ffurf cyngor ar reoli safle, tyfu, ymgysylltiad cymunedol, cyllid, ac ati, neu gallai gynnwys gwaith ymarferol trwy ddatblygu safle, hyfforddiant neu drafod cytundebau gyda pherchnogion tir. O ganlyniad, mae mwy o unigolion a grwpiau cymunedol wedi magu hyder, dealltwriaeth a sgiliau i sefydlu neu ddatblygu mentrau yn eu mannau gwyrdd lleol. Yn 2021/22, cynorthwywyd dros 40 o wahanol brosiectau gan roi cymorth helaeth i Ardd Gymunedol Clydach a'r prosiect tyfu yng Nghraig Cefn Parc.



Mae'r prosiect wedi cefnogi sawl prosiect partneriaeth hefyd, fel sesiynau plannu coed, ac yn annog neu'n hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau i gefnogi gwella mannau gwyrdd a thyfu cymunedol. Er enghraifft, nodi cyfleoedd ar gyfer defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru a sicrhawyd gan Gyngor Abertawe a chefnogi grwpiau cymunedol lleol i fanteisio ar hyn yn llwyddiannus.



**Tai a Gweithio gyda natur**

- Mae blodau gwyllt a choed yn parhau i gael eu plannu ar ystadau tai cyngor fel rhan o Gynlluniau Gwella Ardal, gan gyfrannu at gynyddu bioamrywiaeth mewn ardaloedd lleol
- Mae cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yn eiddo'r Cyngor wedi arwain at welliannau sylweddol yn effeithlonrwydd ynni eiddo'r Cyngor yn 2021/22 i sgôr SAP gyfartalog o 69 (Band C), gan gyfrannu at leihau tlodi tanwydd ymhlith tenantiaid y Cyngor a chyfrannu at dargedau lleihau carbon.
- Mae'r Gwasanaeth Byw yn Annibynnol wedi gwneud cais llwyddiannus am grantiau o gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus i greu ardaloedd tyfu cymunol mewn pedwar cyfadeilad. Darperir cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau grŵp i fynd i'r afael ag achosion o deimlo'n ynysig ac unigrwydd a gwella bioamrywiaeth yn yr ardaloedd.

**<u>Lleihau carbon ac addasu hinsawdd</u>**

Mae Rhwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel yn parhau i fod yn gyfrwng allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng sefydliadau ledled Abertawe a'r rhanbarth ehangach. Yn sgil cyfyngiadau parhaus yn gysylltiedig â Covid, roedd yn anodd trefnu digwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb ac ymweliadau â safleoedd yn ystod 2021/22, ond cynhaliwyd tair gweminar ar-lein:

- **Mai 2021: Cynaliadwyedd a Llesiant gyda Hoare Lea**
  Rhannodd y cwmni peirianneg adeiladu rhyngwladol arobryn, Hoare Lea, eu taith cynaliadwyedd a rhoi cyflwyniad ar adeiladau iach a chynllun ardystio rhyngwladol WELL. Mae'r cwmni hwn yn cefnogi datblygiad Byw i Garu Natur Abertawe.
- **Mehefin 2021: Gyrru Economi Plastigau Gylchol yng Nghymru**
  Roedd y weminar hon yn cynnwys dau gyflwyniad gan WRAP – cyflwynodd y weminar gyntaf waith WRAP, a chanolbwyntiodd yr ail weminar ar yr economi plastigau gylchol yng Nghymru. Dilynwyd y rhain gan gyflwyniad astudiaeth achos ar Smile Plastics gan ei sylfaenydd.
- **Tachwedd 2021: Llwybrau at Sero Net: Cyngor Sir Gâr**
  Edrychodd y sesiwn hon ar strategaeth ddatgarboneiddio Sir Gaerfyrddin i fodloni targed carbon sero net 2030 a'r cymorth a ddarperir gan arbenigwyr rheoli ynni Ameresco.

Bwriadwyd mai'r drydedd gweminar fyddai'r weminar gyntaf o blith cyfres yn canolbwyntio ar gynlluniau datgarboneiddio partneriaeth allweddol y sector cyhoeddus ledled y rhanbarth, ac roedd sesiwn bellach yn canolbwyntio ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi'i threfnu i ddechrau ar gyfer mis Mawrth 2022, ond fe'i gohiriwyd tan fis Mai.

Dechreuodd cynrychiolwyr o Gyngor Abertawe a Fforwm Amgylcheddol Abertawe, gan gynnwys CNC a Phrifysgol Abertawe, gwrdd yn rheolaidd eleni i drafod egwyddorion ar y cyd i gefnogi ymrwymiad y Cyngor tuag at wneud Dinas a Sir Abertawe yn 'Sero Net' erbyn 2050. Cytunwyd y dylai meysydd blaenoriaeth gynnwys trafnidiaeth a theithio, systemau ynni, gwydnwch bwyd ac adfer natur - sy'n adlewyrchu canfyddiadau allweddol o Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (2020) CNC. Ail-lansiodd Cyngor Abertawe ei Siarter Hinsawdd a Natur a wal adduned ar-lein, a chynhaliodd ddigwyddiad rhanbarthol carbon sero net yn Neuadd Brangwyn (ac ar-lein) hefyd, ym mis Medi 2021, ar y cyd â Planet Mark fel rhan o daith Bws y Frwydr Garbon. Arweiniodd y 4 aelod statudol o'r BGC **y ffordd, gan mai hwn oedd y sefydliad cyntaf i gofrestru â'r Siarter**.




Comisiynwyd Canolfan yr Amgylchedd gan Gyngor Abertawe i sefydlu Hwb Ynni yng nghanol y ddinas i ddarparu cyngor a gwybodaeth am arbed ynni i'r cyhoedd. Sefydlwyd y ganolfan hon dros dro, ac mae cynlluniau i deithio â'r hwb yn 2022-23 i adeiladau a phrosiectau cymunedol mewn rhannau amrywiol o Abertawe.

Daeth nifer o gyrff ymgyrchu amgylcheddol yn Abertawe ynghyd yn 2021 i gydweithio a threfnu gweithredu ar y cyd cyn, ac yn ystod, COP26. Rhoddodd Canolfan yr Amgylchedd a Fforwm Amgylcheddol Abertawe gymorth i'r glymblaid newydd hon o grwpiau a arweiniodd at ddigwyddiad protest mawr yn Sgwâr y Castell i godi ymwybyddiaeth am yr argyfyngau hinsawdd a natur. Yn dilyn hyn, roedd awydd i gydweithio'n barhaus, a ffurfiwyd partneriaeth newydd o'r enw Rhwydwaith Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd Abertawe. Ei nod yw galluogi cyfnewid gwybodaeth a threfnu digwyddiadau a gweithgareddau.

Mae grŵp cydweithredol arall wedi uno hefyd, gyda ffocws ar drawsnewid y systemau bwyd yn Abertawe. Mae partneriaeth newydd a oedd yn dod ag unigolion â diddordeb at ei gilydd i gyfarfodydd rheolaidd ar thema gwydnwch bwyd i ddechrau, sef Bwyd Abertawe, wedi hen ennill ei phlwyf erbyn hyn. Y nod yw y bydd Abertawe yn ymuno â'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Bu Fforwm Amgylcheddol Abertawe yn cydweithio â 4theRegion a phartneriaid eraill i drefnu cynhadledd fwyd ranbarthol, Bwyd i'r Rhanbarth (Food for the Region), ym mis Hydref 2021. Dilynwyd hyn gan

ddigwyddiad Fforwm Bwyd Abertawe, wedi'i arwain gan bartneriaid Bwyd Abertawe ar ddiwedd mis Mawrth 2022.







## Trafnidiaeth a Theithio Llesol

Yn dilyn y gynhadledd ar drafnidiaeth ranbarthol a gynhaliwyd ar ddechrau 2021, mae ychydig o fentrau partneriaeth yn gysylltiedig â thrafnidiaeth wedi datblygu.

**Atebion Trafnidiaeth Gynaliadwy dan arweiniad y Gymuned**

Ym mis Mai 2021, arweiniwyd cais partneriaeth gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe am Gronfa Adfywio Cymunedol, gyda chymorth gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe a 4theRegion. Roedd y cais llwyddiannus ar gyfer prosiect amlweddog o'r enw Atebion Trafnidiaeth Gynaliadwy dan arweiniad y Gymuned: Buddsoddi mewn Cymunedau a Lle. Cynigiodd hyn raglen o weithgareddau i gryfhau trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn Abertawe, gyda ffocws ar yr hyn y gall cymunedau ei wneud drostyn nhw eu hunain. Dechreuodd gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned yn gysylltiedig â'r prosiect ym mis Ionawr 2022 gyda brandio prosiect 'Mynd o Gwmpas Abertawe'.




Mae pedair prif elfen i'r prosiect, sef:

1. Cynnal asesiad o anghenion trafnidiaeth a theithio cymunedol ac adolygiad o ddarpariaeth bresennol (gan gynnwys ymgynghoriad cymunedol trwy arolygon a grwpiau ffocws ar anghenion a rhwystrau teithio, ymchwil a mapio mentrau presennol dan arweiniad y gymuned, a dadansoddi anghenion, bylchau a chyfleoedd penodol)

2. Sefydlu rhwydwaith "system gyfan" o ddarparwyr gwasanaeth, grwpiau cymunedol, trigolion a rhanddeiliaid eraill sy'n rhannu diddordeb mewn atebion trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned (gan gynnwys digwyddiad pwysig i godi ymwybyddiaeth ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid, a sefydlu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, syniadau ac arfer gorau, ac is-grwpiau i fwrw ymlaen ag elfennau gwaith penodol)
3. Datblygu 'Trywydd' Teithio Cymunedol a Chynllun Gweithredu ar y cyd (gan gynnwys cynllun cyflwyno â ffocws wedi'i gyd-gynhyrchu gydag ymrwymiad eang gan y gymuned)
4. Creu portffolio o ddeunyddiau cymorth i hwyluso rhannu syniadau a helpu cymunedau i fwrw ymlaen â phrosiectau (gan gynnwys cynhyrchu, coladu a lledaenu canllawiau 'sut i'; ffynonellau cyllid posibl a fideos astudiaethau achos)

Teithio Llesol Bae Abertawe
Healthy Travel Swansea Bay

**Siarter Teithio Llesol:** Ar ôl sawl achos o oedi o ganlyniad i'r pandemig yn 2020 a hanner cyntaf 2021, roedd Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Rhwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel yn gallu mynd ymlaen â chynlluniau am siarter teithio llesol ar gyfer Bae Abertawe (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot), trwy weithio mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyfarfu gweithgor o bartneriaid posibl am y tro cyntaf ym mis Medi 2021, yn cynnwys 20 o gynrychiolwyr sy'n cynrychioli 14 o gyrff cyhoeddus a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Dilynwyd hyn gan dri chyfarfod pellach ym mis Tachwedd, mis Rhagfyr a mis Ionawr i ddrafftio'r ymrwymiadau siarter a chytuno ar drefniadau ar gyfer lansio a gweithredu'r fenter.

Mae'r siarter yn cynnwys camau yn gysylltiedig â theithio llesol, cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol ym mis Mai, a'i chefnogi'n barhaus trwy Fforwm Cynllun Teithio Bae Abertawe.

Ym mis Tachwedd 2021, trefnodd 4theRegion a phartneriaid ddigwyddiad dilynol yn gysylltiedig â Chynhadledd Trafnidiaeth Ranbarthol Symud Ymlaen Gyda'n Gilydd a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

## Ymgysylltu â'r Gymuned

Roedd llawer o'r prosiectau a'r gweithgareddau ymarferol a amlinellir uchod yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a digwyddiadau cyhoeddus, ond yn ogystal â'r rhain, trefnodd partneriaid WWN amrywiaeth eang o sgyrsiau, gweithdai a gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â themâu amgylcheddol.


Bu Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Chanolfan yr Amgylchedd yn gweithio gyda sawl grŵp lleol i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau i nodi Wythnos Werdd ym mis Medi 2021, a oedd yn cynnwys sgyrsiau, sgrinio ffilmiau, reid ar feic, teithiau cerdded tywysedig a chasglu sbwriel. Wedyn, i gyd-fynd â'r Diwrnod Gweithredu Byd-eang ar gyfer COP26 ym mis Tachwedd, daeth sawl grŵp ymgyrchu lleol a sefydliad amgylcheddol ynghyd i gyd-drefnu digwyddiad clymbleidiol am yr hinsawdd yn Sgwâr y Castell, a arweiniodd wedyn at sefydlu Rhwydwaith Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd Abertawe (gweler uchod).

Parhaodd Canolfan yr Amgylchedd i ymgysylltu â chymunedau ar faterion a gweithgareddau amgylcheddol trwy ei gwasanaethau craidd a sawl prosiect allymestyn a phartneriaeth, yn cynnwys prosiect Y Tu Hwnt i Ailgylchu Abertawe, rhaglen Adfywio Cymru, Hwb Ynni Switched On (gweler uchod) a phrosiect Seilwaith Gwyrdd Penderi.

Comisiynwyd Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Chanolfan yr Amgylchedd gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg i greu Pecyn Cymorth Adferiad Gwyrdd cynhwysfawr fel rhan o Brosiect Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg. Diben yr adnodd hwn oedd darparu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol i sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol ar yr hyn y gallant ei wneud i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur gydag astudiaethau achos lleol o arfer da a chyfeiriadur o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol a ffynonellau cymorth.

Ym mis Mehefin 2021, cydweithiodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a Fforwm Amgylcheddol Abertawe i drefnu gweminar gyda'r Loteri Genedlaethol ar eu cynlluniau ariannu yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

Cafodd yr adnodd ar-lein, *Inspiration Hub* www.inspirationhub.org.uk – a ddatblygwyd gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe a VocalEyes Democracy CIC gyda chyllid gan Gyngor Abertawe a Chyfoeth Naturiol Cymru – ei gwblhau eleni, ond gohiriwyd ei lansio oherwydd problemau technegol. Mae bellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2022/23 a bydd yn cael ei hyrwyddo'n eang gan bartneriaid fel adnodd defnyddiol a rhyngweithiol sy'n cynnig syniadau ymarferol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd ac adferiad natur i sefydliadau ac unigolion.




**Bydd meysydd gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:**

- Cefnogi datblygiad y Cynllun Llesiant a gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori cysylltiedig.
- Cefnogi'r broses ymgysylltu ar gyfer y strategaeth GI ledled y sir a gweithredu mentrau seilwaith gwyrdd yn barhaus ledled Abertawe.
- Mapio ardaloedd posibl ar gyfer plannu coed a chyhoeddi nodyn arweiniad / rhestr wirio *Y Goeden Gywir yn y Lle Cywir* ar gyfer grwpiau cymunedol ac eraill, a pharhau i gyflwyno rhaglen uchelgeisiol ynghylch plannu coed.

- Cefnogi a hyrwyddo Prosiect Penderi a mentrau eraill sy'n darparu arddangosiadau datblygu cynaliadwy ymarferol a ffyrdd cadarnhaol o weithio.
- Cefnogi partneriaeth Bwyd Abertawe a chynlluniau i wneud Abertawe yn Lle Bwyd Cynaliadwy er budd pobl a'r blaned.
- Cefnogi ymgysylltiad rhanddeiliaid ar newid hinsawdd a datblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar newid hinsawdd 2050 ledled y sir.
- Lansio a hyrwyddo adnodd ar-lein Inspiration Hub a chynnal rhaglen o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu.
- Lansio Siarter Teithio Llesol Abertawe a chynorthwyo partneriaid i wneud cynnydd ar ymrwymiadau siarter.
- Cefnogi'r prosiect Atebion Trafnidiaeth Gynaliadwy dan arweiniad y Gymuned i wella capasiti ac effeithiolrwydd mentrau trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned ledled Abertawe.
- Adolygu a datblygu Rhwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel a Phrosiect Mannau Gwyrdd Cymuned Abertawe.

**Heriau / Rhwystrau**

- Integreiddio testunau llesiant a chydweithio / cyflwyno ar draws tasgluoedd, e.e. iechyd ataliol a mynediad cyfartal at fannau gwyrdd / glas.
- Darparu adnoddau / cyllid ar gyfer cyflwyno prosiectau / gweithgareddau.
- Diffyg tystiolaeth data mewn rhai meysydd.
- Cyfle ar gyfer mwy o weithio rhanbarthol.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Parhau i ddatblygu a chyflawni yn erbyn y prosiectau a restrir uchod, gan gynnwys sicrhau cyllid ar gyfer cyflwyno yn y tymor hwy.
- Dechrau'r broses i osod blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant:

Mae rhan o weledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ymwneud â threfniadaeth gynaliadwy, un sy'n gwarchod ac yn gwella ein hamgylchedd.

## Astudiaeth achos: Cydweithio trwy Brosiect Caru Natur Cymru

**(Dangos sut gellir defnyddio tir Bwrdd Iechyd i gefnogi bioamrywiaeth a llesiant staff / cleifion)**

Cydweithio unigryw rhwng Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Prifysgol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i gyflwyno Prosiect Caru Natur Cymru. Mae'r deilliannau'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru.

Yn yr astudiaeth beilot hon, bu'r Ardd Fotaneg yn gweithio o fewn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan ddefnyddio 40 o safleoedd o fewn ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel pwyntiau ffocws ar gyfer prosiectau seilwaith gwyrdd cymunedol wedi'u datblygu ar y cyd. Mae'r safleoedd yn amgylchynu ysbytai, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau preswyl. Cynyddodd y prosiect werth

bioamrywiaeth, hygyrchedd, gwasanaethau ecosystem a chysylltedd, trwy greu “Mannau Gwyrdd Ysbrydoledig” ar gyfer pobl, a gwerthuso’r hyn sy’n gweithio orau i ddatblygu modelau y gellir eu cymhwyso ledled Cymru. Trwy weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill, mae’r prosiect yn hyrwyddo’r ffyrdd dynodedig o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac yn defnyddio arbenigedd sefydliadau eraill.

**Ymagwedd at Ofal Iechyd**: Cynyddu llesiant ac iechyd dynol o fewn ystâd werdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae tystiolaeth yn dangos y gallai anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd fod yn llai mewn lleoedd sydd â mynediad gwell at fannau gwyrdd, o gymharu â’r rhai sydd â mynediad gwaelach. (PHE: Gwella mynediad at fannau gwyrdd 2020). Cyflawni symud pendant mewn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i gymunedau gan symud y pwyslais at lesiant.

Cefnogi cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch corfforol pobl trwy ffyrdd iachach o fyw gan ddefnyddio adnoddau naturiol sylweddol Cymru.

Prosiect tair blynedd o 2019 – 2022 a oedd wedi’i seilio ar ddefnyddio gwirfoddolwyr. Yn ystod 2020, roedd y cyfnodau clo yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 yn rhwystr sylweddol rhag cyflwyno, a oedd yn golygu bod angen arloesi a newid dull, yn cynnwys dosbarthu hadau planhigion i gartrefi pobl. Achubodd dros 6000 o bobl ar y cyfle i wella eu llesiant trwy dyfu planhigion cynhenid gartref.

Mae’r prosiect yn fuddsoddiad £1.3 miliwn i gyflwyno’r prosiect Cymru gyfan hwn a oedd yn ceisio cynyddu llesiant pobl, bioamrywiaeth a’r amgylchedd, gan ddefnyddio tri phecyn gwaith sy’n gysylltiedig â’i gilydd, sef Mannau Ysbrydoledig, Glaswelltiroedd am Oes, a Phlanhigion ar gyfer Pobl. Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â phob un o’r tri phrosiect. Llwyddodd prosiect Caru Natur Cymru i gael cyllid trwy Grantiau Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW). Mae Caru Natur yn datgan bod bodau dynol yn meddu ar dueddiad greddfol i geisio cysylltu â’r byd naturiol, a bod hyn yn hanfodol i’w hiechyd a’u llesiant. Yng Nghymru, mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol y potensial i wneud Cymru yn flaengar mewn cysylltu’r amgylchedd â bywydau pobl. Mae angen i ni roi’r Nodau Llesiant ar waith i sicrhau mai Cymru yw’r genedl gyntaf sy’n Caru Natur. Mae gennym ni 12 mlynedd yn unig i gyfyngu ar drychineb newid hinsawdd, ac mae angen dull sy’n gwarchod bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem ar hyn, sy’n ysbrydoli pobl i fyw bywydau cynaliadwy.

**Partneriaid a rhanddeiliaid**

- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadwch Gymru’n Daclus
- Plant life
- Partneriaethau Natur Lleol Abertawe a Chaerfyrddin
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

- The Orchard Project
- Gardd Fotaneg Singleton
- Prosiect Coridor Cysylltedd Y Mwmbwls i Fargam a PRIME
- B-Lines
- Gwirfoddolwyr lleol unigol

Ceisiodd prosiect Mannau Ysbrydoledig ddatblygu Seilwaith Gwyrdd (GI) ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae'r safleoedd yn amrywio o'r rheiny sy'n cynnwys tarmac a choncrid yn gyfan gwbl i safleoedd eraill sydd â thir helaeth, sy'n cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr yn agos at SoDdGA.

Dyma oedd y deilliannau allweddol:

- Creu cynllun gweithredu GI ar gyfer 40 o safleoedd o fewn ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Cynyddu bioamrywiaeth, hygyrchedd a gwasanaethau ecosystem (e.e. atal llifogydd, ansawdd aer, peillio) o fewn y 40 safle.
- Defnyddio'r 40 safle fel canolbwyntiau, cynyddu cysylltedd ag ardaloedd eraill addas o fewn ardal Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, uchafu bioamrywiaeth, hygyrchedd a gwasanaethau ecosystem. Defnyddio cyfle mapio GI i arwain hyn a chysylltu â mentrau eraill.
- Gwella safleoedd fel bod y Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud cais am statws Baner Werdd, neu ddynodiadau priodol eraill, mewn cymaint o'r safleoedd ag y bo'n briodol.
- Cynyddu llesiant ac iechyd dynol o fewn ystâd werdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a man gwyrdd cyfagos.
- Creu grwpiau gweithredu gwirfoddolwyr a fydd yn hyrwyddo gwahanol safleoedd.
- Darparu hyfforddiant priodol i staff a gwirfoddolwyr i sicrhau cynaliadwyedd ar ddiwedd y prosiect.
- Defnyddio digwyddiadau, gweithdai, celf, Bio-blitz, realiti rhithwir a thechnoleg arall i ennyn diddordeb y cyhoedd mewn bioamrywiaeth o fewn ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Defnyddio astudiaeth achos ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu cynllun ar gyfer Caru Natur Cymru.

**Buddion y Prosiect**

- Buddion ansoddol a meintiol y prosiect – Buddion ansoddol – mae llawer o ardaloedd yn ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cael eu gwella gan ymyriadau Caru Natur sy'n arwain at fioamrywiaeth well ac ardaloedd mwy deniadol i edrych arnynt a bod yn eu plith.
- Mae ardaloedd ymlacio wedi denu pobl at ardaloedd glaswelltog nad oeddent yn cael eu defnyddio o'r blaen, gan ddarparu cyfleoedd i bobl gysylltu â mannau gwyrdd a natur. Mae treulio amser yn yr ardaloedd hyn yn darparu egwyl sydd ei hangen yn fawr ar gyfer yr amgylchedd meddygol, sy'n lleddfu straen.
- Mae gwirfoddolwyr wedi elwa'n fawr ar y rhyngweithio cymdeithasol sy'n

ddiogel o ran Covid ar ein diwrnodau gwirfoddoli wythnosol. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant hefyd sy'n cynyddu cyflogadwyedd a hunanhyder.

- Caiff iechyd dynol ei wella gan weithgarwch corfforol cynyddol (Staff yn mynd o'r ardal waith ac allan i ardaloedd ymlacio, a gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn tasgau cadwraeth ymarferol.)
- Bydd plannu coed a rheoli glaswelltir ar gyfer bioamrywiaeth yn gwella ansawdd yr aer ar safleoedd. Bydd y seilwaith gwyrdd gwell ar safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn hysbysu ac yn ysbrydoli pobl i annog mwy o fywyd gwyllt i'w gerddi ac ardaloedd cymunedol gartref. Os yw'n briodol, bydd rhai o'r ardaloedd sy'n cael eu plannu yn cynnal rhywogaethau planhigion prin hefyd, gyda chadwraeth bresennol.
- Yn ystod Covid, ymgysylltodd dros 8000 o wirfoddolwyr â'r prosiect trwy blannu hadau y gwnaethom eu hanfon allan yn y post, er mwyn i safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe elwa. Yn sgil y cyfleoedd gwirfoddoli gartref hyn, cafwyd cyfleoedd i ddysgu mwy am flodau gwyllt cynhenid, treulio mwy o amser ymhlith natur a bod yn rhan o gymuned wirfoddoli ar-lein.
- Buddion meintiol – Plannwyd dros 400 o goed, gan gynnwys 5 perllan, dros 25 hectar o laswelltir gan uchafu'r rheolaeth ar gyfer bioamrywiaeth.
- Plannu peillwyr ar o leiaf 20 safle, blychau adar ac ystlumod a gwestyau i chwilod ar o leiaf 5 safle, llwybrau cerdded a mannau ymlacio ar 10 safle, paneli dehongli yn esbonio am fuddion ardaloedd caru natur ar safleoedd y Bwrdd Iechyd.

Ymgysylltodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i gyflwyno rhaglen Mannau Ysbrydoledig. Roedd hyn yn cynnwys adolygu 40 o safleoedd y bwrdd iechyd. Edrychodd yr adolygiad ar sut y gellid defnyddio'r mannau gwyrdd er budd llesiant cleifion, staff ac ymwelwyr yn yr un modd.

Bwriad y prosiect oedd cyflenwi mannau gwyrdd ysbrydoledig yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan ddefnyddio ystâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel canolbwynt. Bwriad y Gerddi botanegol oedd defnyddio'r cydweithio hwn fel astudiaeth beilot i ddatblygu dulliau y gellir eu cyflwyno ledled Cymru. Llwyddodd y prosiect i gyflawni tair menter unigol. Ceision nhw ddefnyddio dulliau arloesol i asesu ein cynefin mwyaf toreithiog yng Nghymru (glaswelltiroedd), gan ddatblygu protocolau a fydd yn trawsnewid monitro cynefinoedd. Eu nod yw gwarchod 35 o'r rhywogaethau planhigion sydd fwyaf dan fygythiad yng Nghymru ac ysbrydoli pobl Cymru am eu treftadaeth naturiol.

Adeiladodd y prosiect ar nifer o brosiectau blaenorol er mwyn sicrhau bod dulliau yn gadarn a bod y dull yn gost-effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys y prosiect mapio Seilwaith Gwyrdd (CNC), prosiect Cod Bar Cymru (NBGW), Achub Peillwyr (NBGW) Asedau a thrysorau – gwarchod a rhannu planhigion Cymru), prosiect GMEP, barcodio DNA bioamrywiaeth pridd (Prifysgol Bangor). Buom yn gweithio'n agos gyda phrosiectau eraill o fewn portffolio ENRaW gan gysylltu'n benodol ag awdurdodau lleol a gwaith peillwyr Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Er bod staff ac aelodau o'r cyhoedd wedi dangos diddordeb sylweddol i wirfoddoli â'r prosiect, ni ellid bod wedi rhagweld pandemig COVID-19, ac fe gafodd effaith sylweddol ar gyflwyno'r prosiect yn 2020 - 21 o ganlyniad i'r "cyfnodau clo". Achosodd y tarfu hwn oedi ym mhresenoldeb grwpiau gwirfoddolwyr ar safleoedd, ac roedd angen newid dull o ganlyniad. Arweiniodd hyn at ddatblygu profiad gwirfoddoli gartref o'r enw "Ymunwch â'n Tîm sy'n Tyfu", lle anfonwyd hadau blodau gwyllt i gartrefi gwirfoddolwyr.



# Cymunedau Cryf



**Adeiladu cymunedau cryf ac iddynt ymdeimlad o falchder a perthyn.**

Mae cymunedau cryf yn fwy cydlynus a ffyniannus, yn galluogi unigolion i ymddiried yn ei gilydd ac yn cynorthwyo pobl i deimlo'n ddiogel a hyderus.

**Arweinydd –** Cydlynir y gwaith hwn gan y Grŵp Llywio Cymunedau Cryf ac arweinir y gwaith gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Partneriaid / Rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coastal | Pobl | SCVS | Family Housing |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Clase 4 All | Cyngor-Cydlynu Ardal Leol | Adfywio Cyngor Abertawe |
| Partneriaeth Dysgu Abertawe | Fforwm Partneriaeth Tlodi | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh); | Asiantaeth bartner Staff caffael |
| Rhwydweithiau Clwstwr Meddygon Teulu | Tai a landlordiaid cymdeithasol | Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gorllewin Morgannwg | Beyond Bricks and Mortar |
| Heddlu De Cymru | Dinas Noddfa Abertawe ac eraill sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Eyst ac eraill) | Cyngor Abertawe, Grŵp Llywio Cydlyniant Cymunedol (sy'n eistedd o dan Bartneriaeth Abertawe mwy Diogel); | Grŵp Llywio Abertawe Dinas Diwylliant |
| Menter Iaith Abertawe | Merched Y Wawr | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu | Grŵp Dinas Hawliau Dynol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymorth i Fenywod / ymarferwyr trais yn y cartref amlasiantaethol | Rhwydwaith Rhanbarthol Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig | Grŵp Cydlyniant Cymunedol | |

**Trosolwg o'r gwaith o fewn Cymunedau Cryf**

Ar ôl cyflwyno'r trefniadau llywodraethu newydd, mae'r Amcan hwn wedi'i ddyrannu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWFRS), ac adolygiad llawn o'r cynllun gweithredu arfaethedig wedi bod ar y gweill. Mae'r adolygiad yn cynnwys camau gweithredu sydd bellach wedi'u cwblhau, y rhai sy'n barhaus a chamau gweithredu newydd y mae angen eu hystyried yn y dyfodol.

Cyn pandemig COVID-19, cynhaliwyd sawl cyfarfod rhwng yr arweinydd blaenorol a'r un newydd, a nodwyd grŵp rhanddeiliaid strategol newydd. Datblygwyd y grŵp hwn i sicrhau ei fod yn cynnwys partneriaid a oedd yn gallu adlewyrchu gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a'r rhaglen Drawsnewid, gan fod llawer o gysylltiadau agos a nodau cyffredin, sydd â chysylltiadau â nifer o gamau gweithredu o fewn y llif gwaith.

Mae aelodaeth y grŵp yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws Amcanion BGC eraill a rhwng asiantaethau ac adrannau eraill.

**Cyflawniadau**

Mae llywodraethu clir o'r Grŵp Digwyddiadau Critigol i'r Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel ac yna i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r holl gyfathrebu'n cael ei sianelu trwy'r Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel (mae'r holl bartneriaid wedi ymuno gyda Heddlu De Cymru yn arwain) ac mae'r holl waith yn cael ei frandio gyda Phartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

**Cyfraniad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWFRS) at Gymunedau Cryf.**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae (MAWWFRS) wedi bod yn rhan o sawl menter sydd wedi cyfrannu at Gymunedau Cryf yn Abertawe, ac mae'r rhain yn cynnwys:

**Ymgyrch Dawns Glaw**

Ymgyrch Dawns Glaw, sef partneriaeth amlasiantaethol i leihau tanau bwriadol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi mynychu 3230 o ddigwyddiadau tân glaswellt dros y pum mlynedd ddiwethaf, sy'n costio miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i economi Cymru. Caiff llawer o'r tanau hyn eu cychwyn yn fwriadol.

Sefydlwyd tasglu yn 2016 i fynd i'r afael ag achosion o danau glaswellt sy'n cael eu cynnau'n fwriadol ledled Cymru. Er bod y ffocws cychwynnol ar leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thanau bwriadol, mae gwaith mwy diweddar wedi canolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod eu cynlluniau rheoli tir yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

Sefydlwyd y tasglu amlasiantaethol i roi ffocws dynodedig ar danau glaswellt bwriadol a damweiniol ledled Cymru (Ymgyrch Dawns Glaw). Mae'r tasglu amlasiantaethol hwn yn cynnwys partneriaid o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), pedwar Heddlu Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Ceir ffocws cryf ar gydweithio, gan weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol a chenedlaethol ledled Cymru i sicrhau deilliannau cyffredin ac ar y cyd i leihau effaith tanau bwriadol ar gymunedau Cymru.

Mae timau Arbenigol i Leihau Tanau Bwriadol a Throseddau Tân wedi esblygu i gydlynu mentrau lleihau tanau bwriadol a darparu amrywiaeth helaeth ac arbenigol o wasanaethau. Darperir ymyriadau targedig i unigolion a chymunedau bregus y nodwyd eu bod mewn perygl o danau bwriadol.

**Buddion Ymgyrch Dawns Glaw**

- Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu cefn gwlad a'n gwlad
- Codi ymwybyddiaeth am ganlyniadau tanau damweiniol yng nghefn gwlad.
- Rheoli Tir – bydd cydweithio i ddefnyddio peiriannau a sgiliau i leihau'r tân a achosir gan redyn ac eithin yn mynd rhagddo y tu allan i'r cyfnod Dawns Glaw, gan dargedu ardaloedd y mae'n hysbys eu bod yn rhai risg uchel
- Ymgysylltu â Thimau Ieuenctid ac Asiantaethau Ieuenctid
- Bydd gwaith ymgysylltu ag ieuenctid yn cael ei gynllunio fel rhan o ymyrraeth lleihau tanau bwriadol gan fod hwn yn faes ymyrraeth profedig gyda grwpiau risg uchel, ond bydd y trefniadau ar gyfer cyflwyno hyn yn dibynnu ar gyfyngiadau clo ac asiantaethau partner
- Darparu ymateb partneriaeth cydlynus a chydlynol i achosion, ac mae ar gael i roi cyngor, arweiniad a chymorth am bryderon ynghylch diogelu rhag tân.

**Cynllunio a Lliniaru yn ystod tymor y Tanau Gwyllt**

Mae gwaith cynllunio a chydweithio wedi parhau i mewn i'r tymor tanau gwyllt newydd o fewn Grŵp Gwledig Abertawe sy'n cynnwys aelodau o Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Grŵp Diogelwch ar y Ffordd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyngor Abertawe (Amgylchedd), Heddlu De Cymru (HDC), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cymdeithas Cominwyr Gŵyr a PONT Cymru.

I baratoi ar gyfer y tymor hwn, cymerwyd camau i atal tanau a thorri prysgwydd ar Gomin Pengwern a Chomin Fairwood yn dilyn cais a chydsyniad a ddarparwyd trwy CNC.

Trafodwyd y canlynol hefyd mewn cyfarfodydd:

- Ffi caniatâd cynllunio ar gyfer pyllau ar gae Moorlakes (gerllaw'r comin)
- 100 o goleri adlewyrchol i wartheg (ar gyfer cominwyr a Cowtan)
- Dyrannwyd cyllid ar gyfer codi ffensys ychwanegol yn Moorlakes i wella hawl tramwy a chadw cerddwyr a gwartheg ar wahân

Hefyd, bu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyngor Abertawe yn cydweithio ar ddarparu camau i atal tanau ar Fynydd Cilfái i gefn Buckingham Rd, Ogmore Place, Dartford Place a Kenfig Place, oddi ar Brokesby Road.

Roedd hyn oddeutu 240m o ran hyd, a 30m o ran lled (c.7500m$^2$) sy'n cynnwys eithin trwchus, coed conwydd bach, prysgwydd a mieri rhwng prif floc coed conwydd CNC a ger ffensys gerddi.




**Service iCut**

Ym mis Mawrth 2022, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer ffust robotig a reolir o bell er mwyn cynorthwyo ag atal tanau dros dir heriol. Dilynwyd hyn yn ddiweddarach ledled ardal y Gwasanaeth ar gyfer creu ffyrdd o atal tanau mewn ardaloedd lle mae dulliau traddodiadol wedi'u cyfyngu (mynedfa, llethrau, ac ati). Mae cynllunio eisoes ar y gweill i ddefnyddio'r peiriant mewn ardaloedd dynodedig yn Abertawe, gan gynnwys y Comin a Mynydd Cilfái wrth symud ymlaen. Mae torri wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd trwy ganiatâd ac asesiadau tir.

**Cyfraniad Gwasanaethau Mynd i'r Afael â Thlodi Cyngor Abertawe at Gymunedau Cryf**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Gwasanaethau Mynd i'r Afael â Thlodi Cyngor Abertawe wedi cymryd rhan mewn sawl menter sydd wedi cyfrannu at Gymunedau Cryf yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe, sef y Comisiwn Tlodi Gwirionedd cyntaf yng Nghymru.
- 2,452 o gofrestriadau ar amrywiaeth o gyrsiau'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i wella iechyd a llesiant a chynyddu sgiliau, lefelau achredu a rhagolygon swydd, sydd gyfystyr â chefnogi 1,207 o ddysgwyr unigryw.
- Roedd cyrsiau dysgu wyneb yn wyneb, dysgu ar-lein a dysgu cyfunol yn cael eu cynnig ac yn amrywio o sgiliau dysgu teuluol a sgiliau hanfodol, fel mathemateg a Saesneg, sgiliau cyfrifiadur, coginio, a ioga.
- Darparu cymorth TG bob dydd i unigolion a oedd yn eu galluogi i fanteisio ar wasanaethau a gwybodaeth ar-lein.
- Cynorthwyo aelodau o'r gymuned i elwa ar gyfleoedd swyddi trwy roi benthyg gliniaduron Chromebook, trwy gynllun benthyca Cymunedau am Waith, a arweiniodd at roi benthyg 62 o liniaduron Chromebook i gyfranogwyr. Aeth 17 ohonynt ymlaen i swydd yn ddiweddarach.
- Hefyd, helpodd timau Cymunedau am Waith 311 o bobl i gael gwaith a chynorthwyo 612 o bobl â chofrestru yn y rhaglenni.
- Cafwyd sawl atgyfeiriad gan fentoriaid o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy yn mynychu hybiau yng nghanol y ddinas (BAME a'r Jac Lewis Foundation).
- Cynorthwyodd timau Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy 1,793 i ddod o hyd i swydd a chael darpariaeth hyfforddiant, trwy'r llwybr atgyfeirio sengl, daeth y tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr o hyd i 973 o swyddi gwag trwy gysylltiadau, a ffurfiwyd partneriaethau, cafodd 454 o bobl eu cynorthwyo gan y tîm ymgysylltu i fanteisio ar ddarpariaeth cyflogadwyedd, hyfforddwyd 400 o bobl ar gyrsiau achrededig mewn sawl sector, ac fe gafodd 12 digwyddiad teilwredig ar gyfer carfanau penodol eu sefydlu, eu datblygu a'u gweithredu.
- Cefnogodd Gweithio Abertawe raglenni a mentrau wedi'u hanelu at grwpiau bregus, fel pobl sy'n gadael carchar, pobl ar brawf a phobl sy'n gadael gofal.
- Darparwyd pecynnau hyfforddiant teilwredig â chynnig profiad gwaith cysylltiedig gyda chontractwyr a chyflogwyr yn Abertawe.
- Codwyd £878,000 mewn budd-daliadau lles ar gyfer trigolion Abertawe gan y Tîm Hawliau Lles, a aeth i'r afael â thros £65,000 gwerth o ddyled.
- Ehangwyd y Tîm Cydlynu Ardal Leol i 23 sy'n golygu bod pob cymuned ledled Abertawe yn gallu troi at gydlynydd, sy'n helpu cymunedau i fod yn fwy hyderus a chysylltiedig, gan osgoi'r angen i unigolion ddefnyddio gwasanaethau ffurfiol.
- Recriwtiodd y tîm Cydlynu Ardal Leol ddwywaith yn 21/22 a chyrraedd y garreg filltir i gael cwmpas llawn yn y sir, sy'n golygu bod gan bob unigolyn a chymuned gysylltiad â Chydlynydd Ardal Leol erbyn hyn. Mae'r tîm wedi parhau i hwyluso'r cymorth anffurfiol hynod leol, rhwng cymdogion wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Wrth i gyfyngiadau gael eu codi, roedd y tîm yn gallu annog grwpiau i ailddechrau ac aelodau o'r gymuned fregus yn ymgysylltu â'i gilydd yn y gymuned eto. Mae'r tîm wedi cymryd rhan mewn enghreifftiau ardderchog o greadigrwydd ac ysbryd cymunedau, er enghraifft yng Nghwmbwrla lle mae llyfr, gorsaf radio a digwyddiadau cymunedol wedi cysylltu'r gymuned, a'i gwneud yn hyderus.

- Parhaodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a'r Gwasanaeth Mynd i'r Afael â Thlodi ag ymgyrch Community Calling mewn partneriaeth â Hubbub ac O2. Bydd y prosiect yn cyfrannu 700 o ffonau i bobl sy'n cael eu heithrio'n ddigidol yn Abertawe, gydag O2 yn darparu 12 mis o ddata am ddim a galwadau a negeseuon testun diderfyn.
- Cynigiwyd grantiau gwerth cyfanswm o £300,000 i Siediau Dynion, Tlodi Bwyd ac Urddas Mislif mewn cymunedau, gyda £25,000 yn cefnogi Siediau Dynion newydd a phresennol yn Abertawe i'w galluogi i ddarparu mannau cymunedol lle gall pobl o bob cefndir gwrdd, sgwrsio a chymryd rhan mewn gweithgareddau i helpu lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Rhoddwyd £236,000 i 40 o sefydliadau i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn Abertawe, a oedd yn cynnwys £42,000 o'r Gronfa Cymorth i Aelwydydd i helpu sefydliadau i fodloni'r galw cynyddol am gymorth â thlodi bwyd.
- Trwy weithio gyda Chymdeithas y Plant a datblygu rhaglen cymorth cymunedol gydlynus, lansiwyd taflen ynghylch "gofidio am arian", ynghyd â chyflwyno system atgyfeirio amlasiantaethol.
- Sefydlwyd cynllun talebau tlodi tanwydd mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth i gynnig cymorth ariannol ychwanegol i'r rheiny sy'n wynebu tlodi tanwydd.

**Cyfraniad Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel at Gymunedau Cryf**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi cymryd rhan mewn sawl menter sydd wedi cyfrannu at Gymunedau Cryf yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwnaed gwaith i gefnogi ymgyrch Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cynnal 3 digwyddiad ymgysylltu mewn lleoliadau problemus ledled y ddinas. Cefnogwyd y digwyddiadau gan bartneriaid statudol ac anstatudol, gan godi ymwybyddiaeth, a darparu cymorth a gwybodaeth i drigolion a busnesau.
- Yn ystod y cyfnod Mawrth 2021 – Medi 2021, adroddwyd am gyfanswm o 2283 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a arweiniodd at gyflwyno 66 o lythyrau cam 1 i bobl ifanc. Cafodd 5 ohonynt yn unig rybudd terfynol, cafodd 5 atgyfeiriad cam 2 at y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid am ymyriadau pellach, a chafodd 42 o oedolion lythyrau cam 1.
- Yn ystod y cyfnod Hydref 2021 – Mawrth 2022, adroddwyd am gyfanswm o 1387 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a arweiniodd at gyflwyno 109 o lythyrau cam 1 i bobl ifanc, ac anfonwyd 43 o rybuddion terfynol pellach. Gwnaed 10 o atgyfeiriadau cam 2 i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, a chafodd 33 o oedolion lythyrau cam 1 hefyd.
- Rheoli 33 o gamerâu mewn ardaloedd problemus, a ddefnyddiwyd i gofnodi tystiolaeth ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon a difrod troseddol.

- Rheoli a chynllunio diwrnod ymgysylltu â’r gymuned i deuluoedd Mayhill – Waun Wen ar 12 Awst.
- Mynychu sesiynau wythnosol diogelwch myfyrwyr gyda Heddlu De Cymru a Swyddogion Cyswllt y Brifysgol.
- Datblygu man cymunedol y Vetch.
- Hyrwyddo ymgyrch Strydoedd Mwy Diogel ledled Abertawe.
- Cyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth am sbeicio diodydd a dosbarthu pecynnau profi cysylltiedig a phosteri i’r holl safleoedd Economi gyda’r Nos a Nos (ENTE), gan gynnwys rheoli a chyflenwi dŵr ar gyfer pwynt cymorth ENTE.
- Sicrhau cyllid ar gyfer goleuadau ychwanegol ym Mharc Singleton mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe.
- Gweithio ochr yn ochr â Heddlu De Cymru i gyflwyno cais am gyllid ar gyfer diogelwch menywod yn y nos.
- Dylunio a dosbarthu posteri diogelwch Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, a oedd yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar droseddau casineb, llinellau cyffuriau, radicaleiddio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio.
- Rheoli digwyddiad Criw Hanfodol ar-lein i ysgolion cynradd am bythefnos.
- Gwneud gwaith gwella caledu targedau yn Y Strand a llwybrau ger canol y ddinas.
- Cefnogi sesiynau ymgysylltu Pawennau ar Batrôl a dosbarthu eu cylchlythyr chwarterol.
- Darparu cyngor a chymorth i grwpiau Gwarchod Cymdogaeth.
- Rheoli a gosod dau ôl-gerbyd ffrâm-A partneriaeth i hyrwyddo negeseuon ynghylch diogelwch cymunedol.
- Hyrwyddo a rheoli nifer o ymgyrchoedd, gan gynnwys Diwrnod Rhuban Gwyn, ymgyrch trais domestig “Heads Up” a chanllaw i ddarpar fyfyrwyr ar ganol dinas Abertawe.

**Gwaith Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae gwaith yn parhau trwy drefniadau ymgysylltu ac addysg. Caiff hyn ei gydlynu trwy Dîm Lleihau Tanau Bwriadol y Gwasanaeth ochr yn ochr â Thimau Plismona Cymdogaethau De Cymru i ymgysylltu â’r gymuned a phatrolau yn targedu ardaloedd problemus a thueddiadau sy’n dod i’r amlwg trwy rannu data. Mae’r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno cynhyrchiad am ymwybyddiaeth o danau gwyllt i sawl ysgol yn Abertawe er mwyn meithrin newid diwylliant yn amgyffrediadau pobl iau, a hyrwyddo ymdeimlad o warchodaeth am ein hamgylchedd. Cyflwynir y cynhyrchiad hwn gan gwmni cynhyrchu theatr ar hyd a lled ardal y Gwasanaeth.

- Cofrestrodd adran Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth, ynghyd â Heddlu De Cymru a Chyngor Dinas a Sir Abertawe, i gael sesiynau Operation Options ychwanegol, sydd wedi’u hanelu at ymgysylltu â’r gyrwyr a’r teithwyr hynny sy’n torri’r gyfraith trwy beidio â gwisgo’u gwregysau. Mae’r sesiynau hyn yn amlygu peryglon peidio â gwisgo gwregys wrth yrru.
- Roedd ymgyrch amlasiantaethol Diogelwch yn yr Haf yn cael ei chyflwyno i hyrwyddo negeseuon diogelwch Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru, RNLI a’r Parciau Cenedlaethol a phartneriaid eraill. Cynhaliwyd digwyddiadau ar sawl safle

gwyliau i gyrraedd nifer gynyddol y bobl a oedd ar eu gwyliau yn lleol, gan ddarparu negeseuon ar risgiau tanau gwersylla, gwaredu sbwriel a barbeciwiau.

- Cytunodd Swyddog Diogelu Data'r Gwasanaeth â phartneriaid, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sydd wedi helpu amrywiaeth eang o bartneriaid i rannu gwybodaeth ar gyfer lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu'i effaith.
- Dynodwyd pob Gorsaf Dân o fewn ardal y Gwasanaeth yn "Hafanau Diogel" sydd felly'n cynnig diogelu unrhyw un sy'n teimlo dan fygythiad, wedi'i frawychu neu mewn perygl o fewn ein cymunedau.
- Mynychodd timau Diogelwch Cymunedol ddigwyddiad Cymuned Mayhill yn Abertawe yn ystod mis Awst. Trefnwyd y digwyddiad gan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel fel ffordd o ddod â phobl leol at ei gilydd ar ôl cyfnod cythryblus. Ymunodd ein staff â Chyngor Abertawe, Heddlu De Cymru a phartneriaid a chynrychiolwyr eraill i gefnogi'r diwrnod o hwyl a gynhaliwyd ar gyfer trigolion Mayhill bron i dri mis ar ôl y golygfeydd o anhrefn treisgar a thanau bwriadol.
- Datblygwyd partneriaeth gyda'r Groes Goch Brydeinig, a alluogodd gwirfoddolwyr y Groes Goch Brydeinig i ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i deuluoedd sydd wedi profi tanau yn eu tai.
- Datblygwyd adnoddau addysgol yn eang i sicrhau bod ein negeseuon am addysg ynghylch diogelwch yn hygyrch i'n cynulleidfa darged, ysgolion, a rhieni trwy HWB.
- Llwyddodd Tîm Lleihau Tanau Bwriadol y Gwasanaeth i gynnal cysylltiadau â phartneriaid ac addasu arferion cydweithio i ddiogelu personél.
- Cefnogodd y Gwasanaeth ymwybyddiaeth ddigidol, a hyfforddwyd gwirfoddolwyr mewn sgiliau digidol, a alluogodd iddyn nhw fod yn hyrwyddwyr digidol, sydd wedi gallu rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau o fewn y gymuned.
- Mae gan y Gwasanaeth wirfoddolwyr hyrwyddo digidol wedi'u hyfforddi'n llawn, sy'n gallu rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau o fewn y gymuned.
- Parhaodd y tîm CS i ddarparu hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i bob un o'r staff er mwyn gallu nodi'r rheiny sy'n profi cam-drin o fewn y gymuned.

**Tai ac Adeiladu Cymunedau Cryfach**

- Mae Gwasanaeth Tai'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i wella ymgysylltu â'r gymuned. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u harwain gan dai yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys dau ddigwyddiad gyda thema Diogelu Cymunedol ac un digwyddiad gyda thema rheoli ystâd / ymddygiad gwrthgymdeithasol). Mae asiantaethau partner wedi mynychu pob un o'r tri digwyddiad, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân a chan y tîm Diogelwch Cymunedol o Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel (yn ogystal â'r heddlu, y 3ydd sector, gwasanaethau eraill y Cyngor).
- Mae Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i alluogi cyflenwi tai fforddiadwy, gyda tharged gyda'i gilydd i ddatblygu 5,000 o gartrefi newydd fforddiadwy yn Abertawe dros gyfnod o 10 mlynedd (1,000 i'w cyflenwi gan y Cyngor trwy ei Raglen Ddatblygu, 4,000 i'w cyflenwi gan LCC).
- Mae Rhaglen Datblygu Tai'r Cyngor wedi ymrwymo i adeiladu cartrefi carbon sero, sy'n arbed ynni i Safonau Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021, i

helpu lleihau tlodi tanwydd a sicrhau bod cartrefi yn addas ar gyfer anghenion hirdymor tenantiaid.
- Mae Gwasanaeth Digartrefedd y Cyngor wedi cynnal y "Dull i Sicrhau bod Neb yn cael eu Gadael Allan" a ddechreuwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r pandemig. Mae hyn yn golygu bod yr holl aelwydydd digartref yn parhau i gael cynnig llety dros dro, ac wedi arwain at dros 650 o symudiadau cadarnhaol o lety dros dro i lety mwy addas a gefnogir neu lety parhaol rhwng Ebrill 2020-Rhagfyr 2021. O ganlyniad, mae'r lefelau isaf o gysgu allan yn Abertawe ers i gofnodion ddechrau. Y cyfartaledd bob nos ym mis Ebrill 2022 oedd 4, o gymharu ag 19 yn y digwyddiad cenedlaethol diwethaf i gyfrif nifer y bobl sy'n cysgu allan, a gynhaliwyd yn 2019. D.S. ni chynhaliwyd y cyfrif cenedlaethol yn 2020 a 2021 oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae Abertawe yn parhau i fonitro lefelau cysgu allan yn fanwl i sicrhau bod cymorth a llety yn cael eu darparu cyn gynted ag y bo modd.

**Cyfraniad Adfywio Abertawe at Gymunedau Cryf**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Adfywio Abertawe wedi cymryd rhan mewn sawl menter sydd wedi cyfrannu at Gymunedau Cryf yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parhaodd Abertawe i gwrdd yn rhithwir yn ystod 2021/22, gyda ffocws ar weithio mewn partneriaeth a chreu cysylltiadau rhwng cynlluniau adfywio i uchafu'r buddion i Abertawe.
- Ehangwyd cynrychiolaeth yn y grŵp i gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth y DU, a rhai cynrychiolwyr newydd o'r sector preifat.
- Parhaodd partneriaid i fonitro a datblygu cynllun gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe a ddatblygwyd y llynedd.
- Dechreuodd trafodaethau am baratoadau ar gyfer gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y DU.
- Parhaodd Adfywio Treforys, sef is-grŵp sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi adfywiad economaidd Treforys, i gwrdd yn rhithwir i fwrw ymlaen â'u cynllun gweithredu ar gyfer economi Treforys.
- Cefnogodd y bartneriaeth Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a fydd yn adfer defnydd o 1896m2 o ofod llawr masnachol yng nghanol y ddinas a chanolfannau ardal. Crëwyd ardal gymunol newydd yng nghanol marchnad Abertawe hefyd, a chrëwyd deuddeg o unedau tai newydd gyda chyllid Trawsnewid Trefi.
- Cymeradwywyd naw benthyciad canol tref sy'n darparu bron i £3.7m yn ddi-log ar y cyfan dros bum mlynedd gan y bartneriaeth hefyd.

**Cyfraniad Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) at Gymunedau Cryfach.**

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) wedi cymryd rhan mewn sawl menter sydd wedi cyfrannu at Gymunedau Cryf yn Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyfrannodd sefydliadau gwirfoddoli a gwirfoddol ffurfiol ac anffurfiol yn enfawr at sicrhau bod cymunedau wedi aros yn gadarn dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Gwybodaeth Astudiaeth Achos wedi'i darparu gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe (SCVS).**

**Rhyngweithio : Astudiaeth Achos (Mawrth 2022)**

Cafodd Victoria (dienw) ei chyfeirio yn wreiddiol am gymorth un i un, ond dechreuodd gyda'n grŵp i fenywod dros Zoom ym mis Tachwedd 2021. Y bwriad oedd y byddai ein grwpiau'n para awr, ond gan fod pobl mor hoff o sgwrsio, maent yn aml yn para dwy awr. Dydy Victoria erioed wedi colli sesiwn. Mae hi wedi dweud cymaint y mae'n mwynhau, a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'w llesiant.

Mae Victoria yn byw gyda'i phartner sydd â chlefyd datblygedig Parkinson. Mae'n cael llawer o salwch ei hun, sy'n cynnwys gorbryder difrifol ac agoraffobia. Gan nad ydy hi'n gadael y tŷ neu'n cael ymwelwyr i'r tŷ yn aml (mae ei phlant yn byw dramor), mae hi wedi dweud bod cwrdd â phobl ar-lein wedi bod yn fuddiol iawn.

Yn ystod trafodaethau grŵp, cododd llawer o broblemau y bu angen iddi gael cymorth â nhw, yn enwedig o ran ei phartner yr oedd yn anodd iddo gael ailasesiad o'i feddyginiaeth a'i gymorth. Dywedodd ei bod wedi rhoi'r gorau i ofyn am gymorth. Gydag anogaeth dyner y grŵp, ailgysylltodd â Gwasanaethau Cymdeithasol, ac o ganlyniad i hyn, daethpwyd ag offer ychwanegol i'r tŷ, gan gynnwys cadair codi a gostwng, cadair olwyn, a chadair cawod. Mae nyrs Parkinson arbenigol wedi dechrau ymweld yn rheolaidd ynghyd â Therapydd Galwedigaethol a Therapydd Lleferydd. Mae meddyginiaeth ei phartner wedi cael ei newid, felly mae'n teimlo'n fwy cytbwys. Dywedodd Victoria na fyddai unrhyw un o'r pethau hyn wedi digwydd heb anogaeth y grŵp.

Yn wreiddiol, gwrthododd gymorth gan staff i gael cymorth ychwanegol ei hun. Ond yn ddiweddar, caniataodd i ni gysylltu â'r Ganolfan Gofalwyr sydd wrthi'n ei helpu i gael Budd-daliadau Lles ychwanegol ar hyn o bryd. Rydym ni wedi rhoi cysylltiadau cymorth amrywiol eraill iddi hefyd, gan gynnwys manylion ynglŷn â chyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol. Hefyd, rydym ni wedi gallu neilltuo cyfeillachwr ffôn ar gyfer ei phartner.

## Cipolwg ar Fywyd: Astudiaeth Achos (Gorffennaf – Medi 2021)

Mae N wedi gadael gofal ac mae ganddi blentyn sydd newydd droi'n 3 oed yn ystod y chwarter hwn. Mae'r gwirfoddolwr wedi cefnogi N ers sawl blwyddyn. Nid yw N yn cael cymorth gan unrhyw sefydliad arall, dim ond gennym ni, ac mae'n ddrwgdybus o wasanaethau yn gyffredinol o ystyried ei chefndir. Mae N wedi hunan-niweidio yn y gorffennol pan oedd yn blentyn, ac mae'n cael meddyginiaeth ar gyfer iselder ar hyn o bryd. Yn ystod y chwarter hwn, cwrddais i, y gwirfoddolwr, ac N ar Zoom a thrafod ailddechrau cael ymweliadau wyneb yn wyneb. Aethom drwy ein canllawiau Covid gan SCVS a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y ddwy ochr er mwyn cynnal y sesiwn yn ddiogel. Yn ystod y sesiwn Zoom, trafodom sut beth fyddai cymorth wrth fynd ymlaen. Ar ôl cyfarfod y gwirfoddolwr gydag N a'i merch wyneb yn wyneb, bu'r gwirfoddolwr a'r staff yn trafod materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, sef:

- Doedd y tŷ ddim yn briodol mwyach, nac yn diwallu anghenion N a'i phlentyn
- Mae angen cymorth ar N â syniadau am sut i ddiddanu ei merch
- Gwasanaethau posibl a allai helpu y gellir ei chyfeirio atynt, am gymorth â rheoli ymddygiad ei merch.
- Cymorth sydd ar gael ar gyfer gwisg ysgol.

**Camau gweithredu**

- Cytunodd y gwirfoddolwr a'r staff ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i N am dŷ, a oedd wedi cael ei ysgrifennu.
- N yn siarad â'i Hymwelydd Iechyd ynghylch llety newydd.
- Bydd y gwirfoddolwr yn trafod gydag N, Tîm o Amgylch y Teulu a chymorth Home Start.
- Awgrymodd y gwirfoddolwr y dylai N ofyn yn yr ysgol a oes ganddynt siop gwisg ysgol ail-law.
- Awgrymodd staff weithgareddau y gallai N eu gwneud gyda'i merch er mwyn iddyn nhw dreulio amser gyda'i gilydd, nad oeddent yn cynnwys galw yn y siop i nôl llaeth, ond yn weithgaredd yn y parc yn chwilio am ddail neu'n casglu cerrig i'w peintio, a threulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd, ac ati.

## Croeso Gwell i Abertawe: Astudiaeth Achos 1

Nod y prosiect yw cynorthwyo pobl sy'n chwilio am loches i gysylltu â gwasanaethau lleol, a gweithgareddau sy'n cefnogi byw yn annibynnol ac integreiddio trwy fentora gan wirfoddolwyr a chymorth cyfieithu. Mae'r prosiect yn cynnig sesiynau galw heibio yn ardal Abertawe hefyd, ac yn cysylltu â sefydliadau addysg i gynnig cymorth i deuluoedd sy'n ceisio lloches. Rhoddwyd statws Dinas Noddfa i Abertawe gan Fudiad Cenedlaethol Dinasoedd Noddfa ym mis Mai 2010, sef yr ail ddinas yn y DU i ennill y statws hwn.

Mae'r prosiect yn gobeithio gwneud Abertawe yn lle mwy croesawgar i'r rheiny sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid yn yr ardal trwy ddarparu gwybodaeth a mentoriaid gwirfoddol i gynnig cymorth ymgyfarwyddo i'r rheiny sy'n newydd i'r ardal. Nod y

prosiect hefyd yw codi ymwybyddiaeth am y problemau sy'n wynebu'r rheiny sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid, eu cyfeirio at wasanaethau, a helpu'r gwasanaethau hynny i fod yn fwy hygyrch a sensitif i anghenion pawb.

Yn dilyn atgyfeiriad gan y Tîm Mynediad Iechyd, roedd menyw wedi ffoi o'i gwlad oherwydd erledigaeth, ac roedd yn awyddus i ymgartrefu yn Abertawe a chysylltu â bywyd yn Abertawe. Roedd gan y fenyw broblemau iechyd ac roedd y tîm iechyd lleol, sefydliadau cymorth a gwasanaethau arbenigol eraill yn gofalu am y rhain.

Adeg yr asesiad cyntaf, roedd yr unigolyn eisoes wedi bod allan yn archwilio'r ddinas, ac roedd yn awyddus i gysylltu ag eglwysi yn yr ardal. Roedd hi a'i phartner yn cael cymorth i gael mynediad at ddosbarthiadau Saesneg a grwpiau sgwrsio i'w mynychu tra'n aros am asesiad Saesneg. Roeddent yn awyddus i greu cysylltiadau â grwpiau cymdeithasol, a rhoddwyd cyfeiriadau e-bost a dulliau eraill o gyfathrebu iddynt er mwyn gallu cysylltu â nhw fel nad ydynt yn colli allan ar grwpiau a allai fod yn werthfawr iddynt. Roeddent yn gallu cysylltu â grwpiau tebyg yn ddiwylliannol i allu siarad â phobl eraill mewn sefyllfa debyg o gefndir tebyg, ac yn gallu siarad â'r pâr hefyd ynglŷn â ble i gael mynediad at bethau yn Abertawe sy'n gweddu i'w diddordebau. Rhoddwyd gwybod i'r pâr am gyfleoedd gwirfoddoli gan eu bod yn awyddus i integreiddio i'r gymuned trwy'r llwybr hwn hefyd.

Roedd rhai o'r deilliannau ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth yn cynnwys gwella ansawdd bywyd trwy gael dillad, bwyd a chyfeirio at grwpiau amrywiol, gwybodaeth gynyddol am yr hyn a oedd ar gael yn yr ardal ac ar-lein ar gyfer y gymuned, a chael cymorth gwerthfawr iddi hi ei hun a'i theulu.

**Croeso Gwell i Abertawe: Astudiaeth Achos 2**

Yn dilyn negeseuon e-bost at yr unigolyn am y prosiect peilot, cafwyd cais gan deulu yn gofyn am syniadau ynglŷn â byw yn iach, yn enwedig coginio iach. Cyflwynodd staff y prosiect a phobl eraill amrywiaeth o sesiynau ynghylch iechyd maethol, iechyd emosiynol, ac iechyd corfforol. Fel rhan o hyn, cyflwynodd rhaglen allymestyn BAEM destunau am fyw yn iach a gwybodaeth ynghylch diabetes.

Cyflwynodd Croeso Gwell i Abertawe wybodaeth am sut y gellid gwneud dewisiadau iach a maethlon ar gyllideb, a gwybodaeth am gynllunio prydau bwyd iach hefyd. Gwahoddwyd y sefydliad iechyd meddwl i gyflwyno syniadau ar gyfer diogelu iechyd meddwl, a sut i adnabod iechyd meddwl gwael. Roedd y deilliannau a gyflawnwyd ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys y gallu i adnabod achosion o iechyd meddwl gwael, syniadau ar gyfer gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd meddwl, syniadau ar gyfer cyllidebu a chynllunio ar gyfer dewisiadau iach, gwybodaeth am sut beth yw diet iach, a banc ryseitiau ar gyfer bwyta'n iach.

**Mentora Cymheiriaid Transcend: Astudiaeth Achos**

Mae Transcend yn brosiect sy'n paru pobl â salwch meddwl gyda mentoriaid cymheiriaid. Mae'r mentoriaid cymheiriaid hyn yn wirfoddolwyr hyfforddedig sydd â

phrofiad o fyw â salwch meddwl. Mae mentoriaid gwirfoddol yn gweithio gyda phobl i ddatblygu cynlluniau gweithredu neu nodau a chymryd rheolaeth o'u hadferiad trwy feithrin ymddiriedaeth yn araf, ac yn cymryd pob cam ar gyflymdra'r unigolyn.

Mae mentoriaid gwirfoddol Transcend yn bobl o bob math o gefndiroedd sydd â phrofiad personol o broblemau iechyd meddwl ac wedi gweithio tuag at eu hadferiad. Gallant gynnig empathi, cymorth ac arweiniad i'r rheiny mewn sefyllfaoedd tebyg.

Cyfeiriwyd unigolyn i Brosiect Monitro Cymheiriaid Transcend gan asiantaeth bartner (Sanctuary) yn sgil unigrwydd, arwahanrwydd, hwyliau isel, dim llawer o drefn, agoraffobia, a gorbryder cymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau â'r unigolyn, nodwyd yr hoffai weithio tuag at dri phrif nod, a fyddai'n gamau cyflawnadwy ac y gellid gweithio tuag atynt gyda gwirfoddolwr Transcend. Y nodau hyn oedd: mynd allan ychydig mwy, heblaw nag am reswm penodol yn unig i helpu colli pwysau, mynd i gaffis, peidio â theimlo bod rhywun yn ei wylio a'i farnu a chael torri'i wallt.

Mae'r unigolyn wedi cael ei gysylltu â gwirfoddolwr sy'n galw am 2 awr yr wythnos i siarad am nodau, cyflawniadau a mecanweithiau ymdopi. Cyfeiriwyd yr unigolyn am gwnsela ac mae wedi llwyddo i sefydlu trefn a chynyddu hyder a chysylltiad cymdeithasol yn araf, o ganlyniad i'r ymyrraeth gan Transcend.

Mae'r prosiectau cydweithio uchod yn rhoi cipolwg o'r holl waith rydym ni'n ei wneud ar y cyd.

**Heriau / Rhwystrau**

- Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i achosi oedi sylweddol i gynnydd yr Amcan hwn, ac mae'n ofynnol i fwyafrif y partneriaid a'r rhanddeiliaid ailgyfeirio eu hadnoddau i gynnal busnes yn ôl yr arfer a lleihau'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu hefyd
- Mae heriau pellach yn cynnwys yr effaith ehangach o bandemig COVID-19, yn gysylltiedig â sefydliadau unigol yn dychwelyd i'r gweithle, mynediad at gyllid tymor hwy ac effaith gweithio o bell, yn enwedig â rolau gyda'r cyhoedd, yn y gymuned.
- Mae'r gallu i sicrhau cynrychiolaeth gyson a phriodol gan yr holl randdeiliaid, gan sicrhau llwyddiant gan wahanol bartneriaethau yn cael ei gofnodi'n effeithiol, ynghyd â chapasiti beichiau gwaith partneriaid, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19, wedi parhau i fod yn her.
- Mae'r diffyg cyllid neilltuedig sydd ar gael i BGCau, o gymharu â phartneriaethau strategol eraill, yn sicr wedi lleihau effeithiolrwydd a chyflymdra cyflwyno cynlluniau Llesiant BGC, ac yn arbennig yr Amcan Cymunedau Cryf.

Mae **gweithgarwch yn y dyfodol** ar gyfer blwyddyn 22/23 yn cynnwys:

- Ymgorffori dulliau sy'n cefnogi gwydnwch unigol, teuluol a chymunedol ymhlith ein holl bartneriaid.
- Gweithio fel sefydliad cyfan a'r sector cyhoeddus cyfan gydag un dull.

- Cyflawni camau ar y cyd i ddileu rhwystrau rhag cyfranogi sy'n cynnwys ofni gwahaniaeth, gan rannu adnoddau'n rheolaidd i wneud hynny.
- Ymgorffori ein dull Dinas Ryngddiwylliannol ymhellach i hyrwyddo'r Gymraeg tra'n cydnabod ac yn dathlu'r diwylliannau, yr ieithoedd a'r cymunedau eraill yn Abertawe hefyd.
- Ymgorffori'r cynlluniau adfywio economaidd yn llawn o fewn ein holl bartneriaid, a bydd camau'n cael eu cymryd i ymestyn dull buddion cymdeithasol.
- Cydweithio a dylunio a gweithredu prosiectau lleol ar y cyd sy'n cefnogi cyflawni'r Safon Isafswm Incwm.
- Hyrwyddo'r gwaith ac annog ymgysylltu â'r tasglu amlasiantaethol a sefydlwyd yn ystod Ymgyrch Dawns Glaw.
- Cefnogi Ymgysylltu Cymunedol a phrosiectau allymestyn ynghyd â negeseuon am leihau tanau bwriadol (mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi cyngor i amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys Cydlyniant Cymunedol, Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Cam-drin Domestig ac ymgysylltu â Theuluoedd sy'n Ffoaduriaid).

# Casgliad

**Mae'n bwysicach nag erioed yn awr ein bod yn dod ynghyd, yn cysylltu ac yn deall yr adnoddau sydd gennym ni yma yn Abertawe. Mae holl aelodau BGC wedi dangos parodrwydd i gydweithio er mwyn dod allan o'r sefyllfa hon yn gryfach, yn fwy cadarn ac wedi eu cysylltu'n well.**

Mae cynnal cyfathrebu a pherthnasoedd effeithiol wedi bod yn hanfodol. Mae wedi bod yn bwysig defnyddio ein perthnasoedd a'n rhwydweithiau rydym ni wedi'u creu dros y blynyddoedd diwethaf, ac elwa ar wybodaeth a phrofiad ein gilydd. Mae wedi bod yn hanfodol i'n holl wahanol sefydliadau ddod ynghyd i helpu a chefnogi ei gilydd.

Mae aelodau / rhanddeiliaid y BGC yn gryfach gyda'i gilydd, a rhaid i ni beidio â cholli golwg ar faint y gallwn ni ei gyflawni pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd ac yn cefnogi ein gilydd. Mae angen ein cefnogaeth ar bobl Abertawe nawr, ac yn y dyfodol.

# Ein Camau Nesaf

Mae cryfderau BGC Abertawe yn bodoli yn arbenigedd, profiad a brwdfrydedd ei bartneriaid, o'r staff rheng flaen sy'n gweithio i gyflawni'r Amcanion Llesiant Lleol i'r cynrychiolwyr arweinyddiaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Abertawe yn strategol.

Bydd cyni ac ansicrwydd parhaus ar ôl y pandemig yn parhau i herio ein sefydliadau wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, nodwyd cyfleoedd sylweddol i feithrin ein capasiti trwy weithio gyda'n gilydd a rhannu asedau ac adnoddau yn gynyddol.

Mae’r camau nesaf ar gyfer y BGC yn cynnwys adeiladu ar y Cynllun Llesiant presennol a defnyddio’r Asesiad Llesiant a gwblhawyd yn ddiweddar i weithio gyda’n gilydd i adolygu ein Hamcanion Llesiant a llunio cynllun ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Yn gryno, bydd hyn yn cynnwys:

- Adolygu, drafftio a chytuno ar set o Amcanion Llesiant lleol a chamau i fynd i’r afael â nhw.
- Cael cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.
- Casglu gwybodaeth gan bartneriaid.
- Cynnal Asesiadau Integredig o Effaith a Chydraddoldeb.
- Ymgynghori â’r cyhoedd cyn cytuno ar yr amcanion terfynol

## Sut allwch chi gymryd rhan?

Cyhoeddir y gwaith a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar-lein yn www.swanseapsb/swansea.gov.uk.

Cynhelir ein Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yn gyhoeddus a gwahoddir cwestiynau gan y cyhoedd trwy eitem sefydlog ar yr agenda Amser Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Cynhaliwyd Fforwm Partneriaeth llwyddiannus yn dilyn cyfnodau clo ym mis Tachwedd 2021. Daeth SCVS a Chyngor Abertawe at ei gilydd i gynnal y digwyddiad ar-lein gan sicrhau’r rhyngweithio rhithwir mwyaf posibl. Fodd bynnag, rydym nawr yn bwriadu ailsefydlu'r Fforymau Partneriaeth mewn lleoliadau lleol lle gallwn groesawu pawb i ddod i gyfrannu wyneb yn wyneb.

Gallwch hefyd gysylltu â'n Cydlynydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn uniongyrchol trwy e-bost yn Swansea.psb@swansea.gov.uk neu ffoniwch 07989 138917.

Rydym yn croesawu eich cyfranogiad, eich syniadau a'ch awgrymiadau ym mhob maes o'n gwaith fel y gallem eu hystyried ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol.